Estyn

Tachwedd 2023



# Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **5** |
| Prentisiaethau yng Nghymru | 5 |
| Hanes a chefndir cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru | 6 |
| Diffiniad o 'sgiliau' a thystiolaeth o arolygiadau | 7 |
| **Prif ganfyddiadau** | **10** |
| Addysgu a dysgu | 10 |
| Safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr | 11 |
| Nodweddion rhaglenni effeithiol | 11 |
| **Argymhellion** | **13** |
| **(1) Nodweddion rhaglenni effeithiol** | **14** |
| Cyngor ac arweiniad cychwynnol | 14 |
| Cydlynu a chyfathrebu ynghylch cynnydd dysgwyr | 14 |
| Cynllunio a chyflwyno rhaglenni SHC | 15 |
| Dysgu proffesiynol | 15 |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | 16 |
| Cyflogwyr | 16 |
| **(2) Deilliannau dysgwyr** | **17** |
| Data cyhoeddedig cenedlaethol ar gwblhau rhaglenni prentisiaeth | 17 |
| Cais i gyflogwyr am ddata | 18 |
| Data gan ddarparwyr: cymwysterau procsi | 18 |
| Data gan ddarparwyr: cymwysterau SHC ar lefel uwch na gofynion y fframwaith | 19 |
| Data gan ddarparwyr: cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg | 19 |
| Arsylwi dysgu | 20 |
| Dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol | 21 |
| Datblygu medrau i ddysgwyr sydd eisoes â chymwysterau SHC neu sydd wedi'u heithrio drwy brocsi | 22 |
| **(3) Safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr** | **23** |
| Dysgwyr | 23 |
| Dysgwyr: cymorth sy'n cael ei gynnig gan ddarparwyr a'u tiwtoriaid | 23 |
| Dysgwyr: amgyffrediadau o werth astudio cymwysterau SHC | 24 |
| Dysgwyr: rôl cymwysterau procsi | 26 |

Dysgwyr: astudio trwy gyfrwng y Gymraeg 27
Dysgwyr: lles a rhwystrau rhag ennill cymwysterau SHC 27
Cyflogwyr 28
Tiwtoriaid ac aseswyr 30

**(4) Ymsefydlu a chyngor ac arweiniad cychwynnol 34**

**(5) Addysgu a dysgu sgiliau hanfodol mewn prentisiaethau 36**

Nodweddu ystod y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio 36
Model 1 – Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn canolfan, 'dan berchenogaeth dysgu yn y gwaith' 37
Model 2 – Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn canolfan, 'dan berchnogaeth AB' 39
Model 3 - Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith ar ffurf arddull gweithdy ar gyfer Llythrennedd Digidol neu ddosbarthiadau meistr ar bynciau penodol 39
Model 4 – Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith gan arbenigwyr sgiliau hanfodol 41
Model 5 – Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith gan aseswyr galwedigaethol 42
Model 6 – Datblygu medrau heb eu hachredu gan aseswyr galwedigaethol – 'uwchsgilio' 44
Amseriad cyflwyno SHC 45
Defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) 44
Cyflwyno ar-lein a chyfunol 47
Sut mae tiwtoriaid ac aseswyr yn addysgu medrau hanfodol a sut mae prentisiaid yn eu dysgu? 48
Asesu crynodol 49
Cyflwyno, asesu ac achredu trwy gyfrwng y Gymraeg 50

**(6) Arweinyddiaeth a rheolaeth 52**

Hunanwerthuso 52
Cydlynu a chyfathrebu 52
Rôl yr arbenigwr sgiliau hanfodol 52

**Atodiad - crynodeb o ystod y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio 55**

**Dulliau a sail y dystiolaeth 60**

**Geirfa 62**

**Niferoedd – symiau a chyfrannau 63**

**Cyfeiriadau 64**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) mewn prentisiaethau dysgu yn y gwaith. Ym mis Mai a mis Mehefin 2023, ymwelodd arolygwyr â naw o'r deg darparwr arweiniol sy'n cynnig rhaglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliom gyfarfodydd a siarad gyda dysgwyr, rheolwyr, staff cyflwyno a chyflogwyr. Arsylwom sesiynau addysgu grŵp ac adolygiadau un-i-un. Cynhaliom arolwg ar-lein dienw i ddysgwyr, staff cyflwyno a chyflogwyr yn ymchwilio i agweddau ymatebwyr at gymwysterau SHC a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar raglenni prentisiaeth.

Mae darparwyr wedi datblygu ystod o ddulliau cyflwyno sy'n effeithiol o ran galluogi dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau SHC. Rydym yn categoreiddio'r modelau y mae darparwyr yn eu defnyddio i gyflwyno cymwysterau SHC mewn rhaglenni prentisiaeth yn ôl chwe chategori eang ac yn amlinellu eu manteision a'u hanfanteision.

Rydym yn nodi arweddion nodweddiadol rhaglenni effeithiol, gan gynnwys:

- rôl asesu cychwynnol, cyfathrebu a chydlynu o fewn darparwyr
- bod gan ddysgwyr raglen astudio ystyrlon – pa ddull cyflwyno bynnag y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio – sy'n eu galluogi i ddatblygu ac ymarfer eu medrau hanfodol a pharatoi ar gyfer asesiadau allanol
- darpariaeth hyblyg sy'n addasu yn ôl anghenion dysgwyr
- dysgu proffesiynol ar gyfer staff cyflwyno
- cefnogaeth gan gyflogwr prentis.

Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill eu cymwysterau SHC, canfuom fod addysgu a dysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar brentisiaethau wedi'u gogwyddo'n annefnyddiol tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol. Mae tri phrif ffactor yn cyfrannu at hyn: yr amser y mae gan brentisiaid i gwblhau eu cymwysterau SHC yn ystod cyfnod cymharol fyr eu prentisiaethau, yr her ddysgu sylweddol y mae dysgwyr yn aml yn ei hwynebu wrth ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer eu hasesiadau SHC, a model asesu ar gyfer cymwysterau SHC sy'n generig i raddau helaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt yn gysylltiedig â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

Roedd neges gyson gan ddysgwyr, darparwyr a chyflogwyr bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol da yn bwysig ar gyfer bywyd a gwaith. Fodd bynnag, mae'n llawer gwell gan ddysgwyr ddysgu'r medrau hyn trwy gyd-destun eu gwaith a'u hastudiaethau galwedigaethol, ac maent yn gwerthfawrogi hynny. Mae hyn yn achosi cyfyng gyngor i ddarparwyr: sut orau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, gan ddefnyddio ffafriaeth glir dysgwyr i ddysgu trwy eu cyd-destun galwedigaethol, wrth eu paratoi ar yr un pryd ar gyfer asesiad allanol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt wedi'u cysylltu â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

Roedd tri maes, yn gysylltiedig â'r ffocws cul ar asesu, lle'r oedd ansawdd dysgu yn peri pryder. Y cyntaf yw gallu dysgwyr i gofio'r medrau maent wedi'u datblygu, a grynhowyd gan un dysgwr fel, 'Rydw i'n ei ddysgu ar gyfer y prawf ac yna'n ei anghofio ar unwaith.' Yr ail yw bod dysgu'n canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer tasgau asesu allanol, gan leihau'r medrau sy'n cael eu dysgu i 'bethau sydd eu hangen i lwyddo yn y prawf', yn hytrach na 'medrau defnyddiol a fydd yn fy helpu yn fy mywyd gwaith neu fywyd ehangach'. Y trydydd yw i ba raddau y gall dysgwyr gymhwyso'r medrau maent wedi'u dysgu i'w helpu yn eu swyddi gwaith neu eu bywydau ehangach.

O ystyried y cyfyngiadau o ran dysgu a amlinellwyd uchod, yn y sesiynau a arsylwom, roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u gwendidau mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac roedd llawer ohonynt yn glir ynghylch eu cynnydd a'r hyn roedd angen iddynt ei wella. Roedd y mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu'r medrau yr ymdriniwyd â nhw yn y sesiwn honno. Crybwyllodd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ein hymweliadau ac yn yr holiadur ar-lein eu bod yn cael cymorth ac adborth defnyddiol gan eu tiwtoriaid neu aseswyr, a oedd yn eu helpu i ddeall yr hyn roedd angen iddynt ei wneud i wella a'r camau gweithredu roedd angen iddynt eu cwblhau i wneud hynny.

Crybwyllodd darparwyr nad yw methu ennill y cymwysterau SHC yn achos sylweddol pam nad yw dysgwyr yn cwblhau eu fframwaith cyffredinol, bellach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu rwystrau eraill rhag dysgu, fel y rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, yn ei chael hi'n anodd ennill eu cymwysterau SHC, ac mae hyn yn rhwystr iddynt rhag cyflawni llwyddiant cyffredinol yn eu fframwaith.

Ychydig iawn o brentisiaid sy'n cyflawni asesiadau ar gyfer cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. At ei gilydd, nid yw darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth yn ddigon da i gynorthwyo dysgwyr sy'n dymuno astudio eu cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill y cymwysterau SHC sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu fframwaith, nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn gyson.

Rydym yn nodi cyfanswm o saith o argymhellion, sydd wedi'u bwriadu i gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru, darparwyr arweiniol contractau a darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) mewn prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Cyfres o gymwysterau yw Sgiliau Hanfodol Cymru sydd â'r bwriad o ddatblygu a chadarnhau medrau dysgwyr o ran cyfathrebu, cymhwyso rhif a medrau llythrennedd digidol. Mae'n ofynnol i brentisiaid – oni bai bod ganddynt gymwysterau penodol eisoes sydd caniatáu iddynt gael eu heithrio – ennill cymwysterau penodol SHC i gyflawni eu fframwaith prentisiaeth llawn.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn er mwyn ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn o fis Mawrth 2022. Mae'r adroddiad yn berthnasol i ddarparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith, cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau a dysgwyr, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sefydliadau dyfarnu a Cymwysterau Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal ei adolygiad annibynnol ei hun o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar yr un pryd.

Mae'r adroddiad yn manteisio ar ymweliadau gan arolygwyr â naw o'r deg darparwr arweiniol sydd â chontractau i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, dadansoddiad data o ddata deilliannau cyhoeddedig a data a ddarparwyd i ni gan y darparwyr arweiniol, holiadur ar-lein i ddysgwyr, cyflogwyr a staff cyflwyno, ynghyd â thystiolaeth o arolygiadau ac ymweliadau monitro â darparwyr dysgu yn y gwaith. Cynhaliwyd yr ymweliadau a'r holiadur ar-lein rhwng mis Mai a mis Mehefin 2023.

Yn adran 1, rydym yn nodi arweddion nodweddiadol cyflwyno cymwysterau SHC yn effeithiol ar raglenni prentisiaeth, gan gynnwys rôl cyngor ac arweiniad cychwynnol, cydlynu a chyfathrebu o fewn darparwyr, cynllunio a chyflwyno rhaglenni, dysgu proffesiynol ar gyfer staff, arweinyddiaeth a rheolaeth a phwysigrwydd cyflogwyr o ran cefnogi a chymell eu prentisiaid.

Yn adran 2, rydym yn trafod deilliannau dysgwyr, yn seiliedig ar wybodaeth mewn data cyhoeddedig a data a roddwyd i ni gan ddarparwyr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfradd y dysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. O'n harsylwadau ni o addysgu a dysgu a thrafodaethau â staff a dysgwyr, rydym yn nodi tri maes lle mae ansawdd dysgu yn peri pryder.

Mae adran 3 yn manylu ar safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr ynghylch medrau hanfodol mewn prentisiaethau. Er bod bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol fel rhan bwysig o waith a bywyd, mynegodd llawer ohonynt bryderon ynghylch addasrwydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru fel modd o wneud hyn mewn rhaglenni prentisiaeth.

Mae adran 4 yn cynnwys trosolwg o'r arfer fwyaf effeithiol a arsylwom o ran cyngor ac arweiniad cychwynnol.

Yn adran 5, rydym yn disgrifio’r chwe model cyflwyno sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, neu a ddefnyddiwyd yn ddiweddar, gan ddarparwyr ledled Cymru i gyflwyno cymwysterau SHC neu ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr. Rydym yn trafod manteision ac anfanteision pob model ac yn rhoi enghreifftiau o’r manteision a’r heriau y mae darparwyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio dulliau cyflwyno gwahanol.

Daw’r adroddiad i ben trwy ystyried arweinyddiaeth a rheolaeth rhaglenni medrau hanfodol, gan gynnwys hunanwerthuso, pwysigrwydd cyfathrebu o ran cyflwyno’n effeithiol, dysgu proffesiynol i gefnogi staff cyflwyno a rôl tiwtor arbenigol medrau hanfodol.

Hoffwn ddiolch i’r holl ddysgwyr, staff o ddarparwyr dysgu yn y gwaith a chyflogwyr a gymerodd ran yn ein harolwg electronig, ein harsylwadau a chyfarfodydd am eu cyfraniad at yr adroddiad hwn.

# Cefndir

## Prentisiaethau yng Nghymru

Mae prentisiaid yn cael eu cyflogi ac yn gweithio mewn ystod o swyddi. Mae prentisiaid yn dechrau eu hyfforddiant ar lefelau gwahanol, yn dibynnu ar y swydd, eu profiad blaenorol ac anghenion cyflogwyr. Yn ogystal â datblygu eu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle, mae prentisiaid hefyd yn gweithio tuag at ennill cyfres o gymwysterau cydnabyddedig.

Mae prentisiaethau ar agor i unrhyw un dros 16 oed, gan gynnwys y rhai sydd ag anabledd, cyflwr iechyd neu anawsterau dysgu. Nid oes terfyn oedran uchaf. Gan y caiff prentisiaid eu cyflogi gan y sefydliad maent yn gweithio ynddo, rhaid iddynt wneud cais pan gaiff swyddi eu hysbysebu, yn yr un modd ag unrhyw swydd arall. Bydd y cyflogwr sy'n hysbysebu'r brentisiaeth yn nodi'r cymwysterau, medrau a'r profiad sydd eu hangen.

Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd gydag astudio. Yng Nghymru, mae prentis yn dilyn fframwaith prentisiaeth cymeradwy, sy'n cynnwys cyfres o gymwysterau gorfodol, sydd wedi'u hamlinellu dan Fanyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) (Llywodraeth Cymru, 2016).

Mae gan brentisiaethau dair haen[1]:

- Prentisiaethau Sylfaen – lefel 2 (sy'n gyfwerth â TGAU gradd A* i C)
- Prentisiaethau – lefel 3 (sy'n gyfwerth â chymwysterau Safon Uwch)
- Prentisiaethau Uwch – lefel 4 ac uwch.

Mae elfennau gorfodol y fframwaith prentisiaeth yn amrywio o un fframwaith i'r llall ac fel arfer yn cynnwys cymwysterau technegol neu alwedigaethol, fel Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQau). Hefyd, maent fel arfer yn cynnwys gofyniad i'r prentis gwblhau cymwysterau penodol Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefelau penodol. Mae manylion am ofynion pob fframwaith ar gael ar wefan Ardystio Prentisiaethau Cymru (2023).

Rhaid i'r prentis gwblhau holl elfennau gorfodol ei fframwaith i gwblhau ei brentisiaeth lawn yn llwyddiannus.

O fis Awst 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio 10 o ddarparwyr hyfforddiant arweiniol i gyflwyno prentisiaethau ledled Cymru. Mae'r darparwyr arweiniol hyn yn cydweithio â darparwyr partner ac isgontractwyr i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth. O'r darparwyr arweiniol, mae chwech ohonynt yn golegau addysg bellach, un ohonynt yn ddarparwr hyfforddiant dan berchenogaeth coleg addysg bellach a thri ohonynt yn ddarparwyr hyfforddiant annibynnol. Am fwy o wybodaeth

[1] Mae prentisiaethau gradd hefyd sy'n cael eu cyflwyno trwy brifysgolion. Nid yw'r rhain yn rhan o gontract Llywodraeth Cymru â'r deg darparwr arweiniol dysgu yn y gwaith ac ni chânt eu hystyried fel rhan o'r adroddiad hwn.

am sut y caiff prentisiaethau eu cyflwyno yng Nghymru, gweler Llywodraeth Cymru (2023a), Estyn (2023a) ac Estyn (2023b).

## Hanes a chefndir cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae cyfres cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) yn cynnwys:

- Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol
- Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol
- Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol
- Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol

Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gael o lefel mynediad 1 i lefel 3, oni bai am Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol, sydd ar gael o lefel mynediad 3 i lefel 3. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar gymwysterau Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol SHC. Fel arfer, nid yw Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol yn ofyniad mewn fframweithiau prentisiaeth ac ni chânt eu hystyried fel rhan o'r adroddiad hwn.

Gellir olrhain gwreiddiau'r gyfres gyfredol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn ôl i ddiwygiadau Cwricwlwm 2000. Bryd hynny, datblygwyd eu rhagflaenwyr, sef cymwysterau 'Sgiliau Allweddol', i asesu ac achredu ystod debyg o fedrau. Yn wreiddiol, roedd asesu ar gyfer Sgiliau Allweddol trwy lunio portffolio o dystiolaeth, y bwriadwyd iddo gael ei greu trwy raglen astudio dysgwr, ar y cyd â phrawf er mwyn cadarnhau. Arweiniodd adolygiadau dilynol o Sgiliau Allweddol at gael gwared ar y prawf cadarnhau yng Nghymru o 2004 (Llywodraeth Cymru, 2003 – fel y'i harchifwyd ar Wired-Gov.net).

Parhawyd â'r ymagwedd hon wrth ddatblygu cyfres cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn 2010. Rhoddodd hyn hyblygrwydd sylweddol i ddysgwyr ac ymarferwyr lunio portffolio o dystiolaeth a oedd yn bodloni'r meini prawf asesu o'u hastudiaethau pwnc neu alwedigaethol eu hunain. Yn aml, cyfeiriwyd at hyn fel ymagwedd 'gyd-destunol' at asesu medrau (gweler yr Eirfa). Er bod yr ymagwedd yn caniatáu hyblygrwydd, cafodd ei beirniadu hefyd am ei diffyg trylwyredd a'r posibilrwydd y byddai ymarferwyr yn rhoi gormod o gymorth i ymgeiswyr wrth iddynt baratoi eu portffolios (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae'r tyndra rhwng hyblygrwydd a chyd-destunoli ar un llaw, a thrylwyredd a manylrwydd asesu ar y llaw arall, wedi nodweddu'r ddadl ynghylch cymwysterau medrau dros y ddau ddegawd diwethaf.

Bu trylwyredd asesu yn arbennig o bwysig oherwydd, yn ystod y cyfnod hwn, bu gan y cymwysterau werth uchel, er enghraifft: eu bod yn rhoi pwyntiau UCAS i fynd i'r brifysgol neu eu bod yn ofynion ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru neu, fel sy'n ffocws yr adroddiad hwn, eu bod yn elfennau gorfodol o fframweithiau prentisiaeth.

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanfyddiadau yn dilyn ei hadolygiad o gymwysterau a oedd ar gael i'r rhai 14 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012), a oedd yn argymell adolygiad o gynnwys ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylid datblygu cyfres newydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol a oedd â 'dull asesu mwy cadarn, cyson a dibynadwy gyda mwy o allanoldeb' (t.13). Arweiniodd hyn at ddatblygu cymwysterau cyfredol Sgiliau Hanfodol Cymru, a gyflwynwyd i'w haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen.

Mae'r cymwysterau diwygiedig yn sylweddol wahanol i'w rhagflaenwyr, a hynny'n fwyaf amlwg yn y ffordd y cânt eu hasesu. Caiff y cymwysterau diwygiedig eu hasesu trwy dasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau (ar gyfer Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu), neu dasg dan reolaeth a thrafodaeth strwythuredig (ar gyfer Llythrennedd Digidol), yn hytrach na'r portffolio wedi'i asesu'n fewnol a ddefnyddiwyd yn y cymwysterau gwaddol. Mae gan y prawf cadarnhau gyd-destun 'generig' (gweler yr Eirfa). Mae'n bosibl teilwra'r dasg asesedig dan reolaeth i gyd-destun galwedigaeth dysgwyr, ond, am resymau a grybwyllir mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae iddi gyd-destun generig, fel arfer.

Yn 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adolygiad o weithrediad cymwysterau diwygiedig Sgiliau Hanfodol (Cymwysterau Cymru, 2017). Nododd sawl canfyddiad cadarnhaol, gan gynnwys bod darparwyr o'r farn bod y cymwysterau newydd yn fwy trylwyr a chadarn na'u rhagflaenwyr a bod mwyafrif y darparwyr yn cyflwyno'r cymwysterau gan ddefnyddio ymarferwyr medrau hanfodol cymwysedig, nad oedd yn arfer gyffredin ar gyfer y cymwysterau gwaddol.

Fodd bynnag, roedd heriau, yn nodedig o ran oedi gydag asesiadau, argaeledd tasgau dan reolaeth mewn cyd-destun addas ac argaeledd asesiadau cyfrwng Cymraeg. O ran dysgu yn y gwaith, nododd yr adolygiad bryderon hefyd, gan gynnwys:

- Barn darparwyr prentisiaethau nad oes cyllid digonol ar gael i gyflwyno cymwysterau SHC mewn prentisiaethau
- Yr amser cyfyngedig y mae darparwyr prentisiaethau yn ei glustnodi i addysgu ac asesu cymwysterau SHC
- Her cwblhau'r holl gymwysterau sy'n ofynnol o fewn fframweithiau prentisiaethau
- Ei fod yn ofynnol i rai dysgwyr gwblhau cymwysterau SHC ar lefel sylweddol uwch na'r lefel y cawsant ei hasesu arni'n wreiddiol
- Her o ran dysgwyr yn cael eu rhyddhau gan eu cyflogwyr

Arweiniodd adolygiad Cymwysterau Cymru yn 2017 a'i gynllun gweithredu cysylltiedig at gamau gweithredu cyflym i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a nodwyd, gan gynnwys diweddu'r egwyddorion dylunio ar gyfer cymwysterau SHC (Cymwysterau Cymru, 2018) ac arweiniad ar ddatblygu tasgau pwrpasol ar gyfer yr elfen tasg dan reolaeth (Cymwysterau Cymru, 2019).

Yn ystod pandemig COVID-19, rhoddwyd ystod o fesurau lliniaru ar waith gyda chyfundrefnau asesu ymlaciedig (gweler CBAC, 2021; Pearson Edexcel, 2022a). Erbyn hyn, cafwyd gwared ar y mesurau lliniaru hyn ac ailgyflwynwyd y gofynion asesu llawn ar gyfer pob cymhwyster. Mae'r trefniadau ar gyfer arolygu profion ar sgrin o bell, a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig, ar waith o hyd (gweler Pearson Edexcel, 2022b).

### Diffiniad o 'sgiliau' a thystiolaeth o arolygiadau

Mae angen rhywfaint o eglurhad ar gyfer y term 'sgiliau'. Yn y cyd-destun hwn, gall y term olygu medrau neu 'sgiliau' sy'n cael eu hasesu'n ffurfiol – cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru – ac, yn fwy cyffredinol, medrau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, rhifedd a llythrennedd digidol. Mewn arolygiadau o ddarparwyr dysgu yn y

gwaith, mae arolygwyr yn edrych ar fedrau gan ddefnyddio arweiniad Estyn ar arolygu darparwyr rhaglenni prentisiaeth (Estyn, 2022). Wrth gwrs, mae gan y term 'sgiliau' ystyr ehangach hefyd, wrth ei gymhwyso i gymwyseddau ymarferol, fel defnyddio turn mewn gweithdy neu baratoi pryd o fwyd mewn cegin bwyty, ond yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at fedrau neu 'sgiliau' naill ai mewn perthynas â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu'r medrau sy'n gysylltiedig â darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, rhifedd a llythrennedd digidol.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan ddysgwyr gymwysterau blaenorol (y cyfeirir atynt fel 'cymwysterau procsi' – gweler Ardystio Prentisiaethau Cymru, 2019), sy'n eu heithrio rhag gorfod ennill cymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith prentisiaeth. Er enghraifft, mae graddau A*-C mewn TGAU Mathemateg yn brocsi ar gyfer Cymhwyso Rhif lefel 2, a graddau D-G mewn TGAU Saesneg neu Cymraeg Iaith yn brocsi ar gyfer Cyfathrebu lefel 1. Fodd bynnag, nid oes unrhyw brocsi ar gyfer cymhwyster Llythrennedd Digidol SHC.

Ar unrhyw raglen prentisiaeth, mae'n debygol y bydd angen i rai dysgwyr ennill holl gymwysterau SHC ar y lefel sy'n ofynnol gan y fframwaith, bydd gan rai ohonynt gymhwyster procsi ar gyfer un neu ddau ohonynt, ac ni fydd angen i rai ohonynt ennill unrhyw rai o'r cymwysterau gan fod ganddynt brocsi ar gyfer pob un o'r gofynion. Mae'r amrywiaeth hon yn creu her i ddarparwyr dysgu yn y gwaith: sut i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn bodloni gofynion lleiaf eu fframweithiau, ond eto ymestyn a herio'r dysgwyr hynny sydd â chymwysterau procsi i barhau i ddatblygu eu medrau. Wrth arolygu, rydym yn ystyried y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud o ran ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, ynghyd ag ansawdd y profiad maent yn ei gael wrth weithio tuag atynt. Rydym hefyd yn ystyried a yw darparwyr yn cynnig her ddigonol i ddysgwyr sydd eisoes â chymwysterau procsi.

Wrth arolygu, rydym hefyd yn rhoi sylw sylweddol i fedrau mwy cyffredinol darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, rhifedd a llythrennedd digidol, nad ydynt yn cael eu hasesu'n ffurfiol. Rydym yn ystyried safon yr holl fedrau y mae'r holl ddysgwyr (nid yn unig y rhai sy'n ymgymryd â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru) yn eu cyflawni yng nghyd-destun eu gwaith o ddydd i ddydd, ac i ba raddau:

- y mae gan ddarparwyr brosesau gweithredol clir i ddatblygu medrau dysgwyr o'u mannau cychwyn unigol
- y mae hyfforddwyr ac aseswyr (gweler yr eirfa am nodiadau ar sut rydym yn cyfeirio at y rolau hyn at ddibenion yr adroddiad hwn) yn tywys dysgwyr yn effeithiol i nodi eu targedau
- y mae hyfforddwyr ac aseswyr yn cynnig cyfleoedd ac adnoddau priodol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau
- y mae cyfleoedd digonol i ddysgwyr ymarfer eu medrau yng ngwaith y rhaglen, eu gwaith ymarferol ac asesiadau
- y mae prosesau digonol i fesur a chofnodi cynnydd dysgwyr o ran datblygu eu medrau

Mae Adroddiadau Blynyddol Estyn ar gyfer 2017 hyd 2020 (Estyn, 2018a, 2019, 2020) yn crynhoi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn datblygu medrau a deilliannau cymwysterau SHC mewn prentisiaethau. Roedd y cryfderau'n cynnwys bod mwyafrif y dysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf a bod y rhan fwyaf

ohonynt yn ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar y lefelau sy'n ofynnol ar gyfer y fframwaith, bod ychydig ohonynt yn cyflawni ar lefelau uwch na gofynion y fframwaith a bod llawer ohonynt yn gwneud cynnydd trwy ddefnyddio adnodd Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau'n nodi amrywioldeb o ran ansawdd y ddarpariaeth a diffygion yn ymwybyddiaeth dysgwyr o'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i wella a gosod targedau i wneud hynny. Yn ogystal, nid oedd darparwyr yn gwneud digon i hyrwyddo manteision y Gymraeg fel sgil cyflogaeth nac yn annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith i ddefnyddio a datblygu eu medrau iaith yn y gweithle.

Crybwyllodd ein hadolygiad thematig o brentisiaethau uwch (Estyn, 2018b) fod cwblhau cymwysterau SHC, yn gyffredinol, yn helpu dysgwyr i uwchsgilio neu ddiweddaru eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'n bosibl na fydd llawer o ddysgwyr â chymwysterau lefel uchel, fel gradd brifysgol mewn pwnc arbenigol, wedi ymgymryd â chymhwyster mathemateg neu Saesneg ers sawl blwyddyn. O ganlyniad, dywedont fod y cymwysterau medrau hanfodol wedi'u helpu i adnewyddu a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o ddysgwyr fod ymgymryd â'r cymwysterau hyn yn ddiangen a theimlont hefyd y dylai eu cymwysterau presennol gael eu defnyddio fel rhai procsi. Mewn llawer o achosion, nid oedd darparwyr yn ymwybodol o gymwysterau procsi nac yn eu defnyddio'n briodol. Adroddom er bod yr holl ddarparwyr yn ymgymryd â phroses asesu Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) i nodi a phennu anghenion llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr ar ddechrau eu rhaglenni, roedd dysgwyr yn gweld y broses asesu yn llafurus.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod cyflwyno cymwysterau SHC yn 'heriol iawn i'r rhan fwyaf o ddarparwyr'. Roedd llawer o ddysgwyr yn wynebu rhwystrau rhag ymgymryd â phrawf dan amodau arholiad, er enghraifft lle nad oes gan ddysgwyr gyfleusterau priodol yn y gweithle i ymgymryd â'r profion, neu'r angen i ddysgwyr fynychu tasgau dan reolaeth 'i ffwrdd o'r safle'. Fodd bynnag, yn yr achosion gorau, roedd darparwyr yn cydweithio'n dda â dysgwyr a chyflogwyr i lunio strategaethau i oresgyn rhwystrau a gwneud trefniadau cefnogol i gwblhau eu cymwysterau SHC.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

1 Mae addysgu a dysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar brentisiaethau wedi'u gogwyddo'n annefnyddiol tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol.

2 Mae tri phrif ffactor yn cyfrannu at hyn: yr amserlenni byr y mae gan brentisiaid i gwblhau eu cymwysterau SHC, yr her ddysgu sylweddol y mae dysgwyr yn aml yn ei hwynebu wrth ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer eu hasesiadau SHC, a model asesu ar gyfer cymwysterau SHC sy'n generig i raddau helaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt yn gysylltiedig â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

3 Mae hyn yn achosi cyfyng gyngor i ddarparwyr: sut orau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, gan ddefnyddio dewis clir dysgwyr i ddysgu trwy eu cyd-destun galwedigaethol, wrth eu paratoi ar yr un pryd ar gyfer asesiad allanol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt wedi'u cysylltu â'u cefndir galwedigaethol yn aml.

4 Mae darparwyr wedi datblygu ystod o fodelau cyflwyno sy'n effeithiol wrth alluogi dysgwyr i gwblhau eu hasesiadau SHC. Rydym yn categoreiddio'r modelau y mae darparwyr yn eu defnyddio i gyflwyno cymwysterau SHC mewn rhaglenni prentisiaeth yn ôl chwe chategori eang ac yn amlinellu eu manteision a'u hanfanteision.

5 Roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u gwendidau mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac roedd llawer ohonynt yn glir ynghylch eu cynnydd a'r hyn roedd angen iddynt ei wella. Crybwyllodd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ein hymweliadau ac yn yr holiadur ar-lein eu bod yn cael cymorth ac adborth defnyddiol gan eu tiwtoriaid neu aseswyr, a oedd yn eu helpu i ddeall yr hyn roedd angen iddynt ei wneud i wella a'r camau gweithredu roedd angen iddynt eu cwblhau i wneud hynny. Yn y sesiynau a arsylwyd gennym, gwnaeth mwyafrif y dysgwyr gynnydd cyson o ran datblygu'r medrau yr ymdriniwyd â nhw yn y sesiwn honno.

6 Fodd bynnag, nodom dri maes, yn gysylltiedig â'r ffocws cul ar asesu, lle'r oedd ansawdd dysgu yn peri pryder. Y cyntaf yw gallu dysgwyr i gofio'r medrau maent wedi'u datblygu. Caiff hyn ei grynhoi gan sylw un dysgwr: 'Rydw i'n ei gofio ar gyfer y prawf ac yna'n ei anghofio ar unwaith.' Yr ail yw bod dysgu'n canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer tasgau asesu allanol, gan leihau'r medrau sy'n cael eu dysgu i 'bethau sydd eu hangen i lwyddo yn y prawf', yn hytrach na 'medrau defnyddiol a fydd yn fy helpu yn fy mywyd gwaith neu fywyd ehangach'. Y trydydd yw i ba raddau y gall dysgwyr gymhwyso'r medrau maent wedi'u dysgu i'w helpu yn eu swyddi gwaith neu eu bywydau ehangach. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn datblygu'r medrau a fyddai'n fwyaf defnyddiol iddynt yn eu gwaith neu eu bywydau ehangach i'r graddau llawnaf y gallent.

7 Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill y cymwysterau SHC sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu fframwaith, nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn gyson.

8 Fe wnaeth darparwyr grybwyll nad yw methu ennill y cymwysterau SHC sy'n ofynnol gan eu fframweithiau bellach yn achos sylweddol pam nad yw dysgwyr yn cwblhau eu fframwaith cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu rwystrau eraill rhag dysgu, fel y rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf yn ei chael hi'n anodd ennill eu cymwysterau SHC, ac mae hyn yn rhwystr iddynt rhag cyflawni llwyddiant cyffredinol yn eu fframwaith.

9 Ychydig iawn o brentisiaid sy'n cyflawni asesiadau ar gyfer cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. At ei gilydd, nid yw darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth yn ddigon da i gynorthwyo dysgwyr sy'n dymuno astudio eu cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

## Safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr

10 Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Teimlai llawer o ddysgwyr eu bod wedi cael cymorth da gan eu darparwyr i'w helpu i ddatblygu eu medrau. Roedd bron pob un o'r dysgwyr o'r farn bod dysgu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn fwyaf gwerthfawr pan roeddent yn tybio eu bod yn berthnasol i'w rolau gwaith.

11 Yn aml, roedd dysgwyr yn mynegi rhwystredigaeth o ran pam a sut roedd yn ofynnol iddynt ennill cymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith prentisiaeth. Roedd dysgwyr a oedd ag agweddau negyddol tuag at gymwysterau SHC o'r farn bod asesiad y cymhwyster yn anghymhellol ac yn rhwystr rhag cyflawni eu fframwaith.

12 Hefyd, roedd cyflogwyr yn cefnogi pwysigrwydd medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gyffredinol. Ar y cyfan, roedd cyflogwyr yn gefnogol o gymwysterau SHC, er bod ganddynt rai amheuon ynghylch yr amser a'r ymdrech sydd eu hangen i'w cwblhau.

13 Roedd llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn teimlo bod datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr yn rhan werthfawr o'u rôl. Nodant yr her o ran sicrhau amser ar gyfer addysgu a dysgu cymwysterau SHC wrth arwain y dysgwr trwy elfen alwedigaethol eu fframwaith ar yr un pryd.

## Nodweddion rhaglenni effeithiol

14 Rydym yn nodi nodweddion hynod rhaglenni effeithiol, gan gynnwys:

- Mae cyngor ac arweiniad cychwynnol yn sicrhau bod dysgwyr yn deall pa gymwysterau SHC y mae angen iddynt eu cwblhau ar gyfer eu fframwaith ac erbyn pryd.
- Mae asesiad cychwynnol yn nodi cryfderau a gwendidau dysgwyr. Mae dysgwyr yn deall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

- Mae cyfathrebu a chydlynu rhwng timau, tiwtoriaid ac aseswyr sy'n cyflwyno agweddau gwahanol ar raglen dysgwr yn glir, strwythuredig ac wedi'u ffurfioli. O fewn y darparwr, mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am olrhain a monitro cynnydd dysgwyr o ran cwblhau eu cymwysterau SHC.
- Mae dysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd ystyrlon i astudio a chwblhau eu cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'n bosibl staffio hyn, caiff cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth neu weithio ar y cyd â darparwyr eraill eu harchwilio a'u manteisio arnynt.
- Mae gan ddysgwyr amserlen realistig ar gyfer cwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Os bydd dysgwyr yn dechrau gwyro oddi wrth eu hamserlen, caiff hyn ei nodi'n gyflym a chaiff cymorth adferol ei roi ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau SHC ac yn cyflawni eu fframwaith cyfan.
- Mae gan ddysgwyr raglen astudio ystyrlon – beth bynnag fo'r model cyflwyno a ddefnyddir gan y darparwyr – sy'n eu galluogi i ddatblygu ac ymarfer eu medrau hanfodol a pharatoi ar gyfer yr asesiadau allanol.
- Mae rhaglenni astudio dysgwyr yn ystyried eu hasesiadau cychwynnol a pharhaus. Maent yn rhoi cyfle i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu meysydd medrau gwannach ac atgyfnerthu eu cryfderau.
- Mae darpariaeth yn hyblyg. Mae'n caniatáu cyfleoedd ar gyfer cymorth dwys os bydd dysgwyr yn cael trafferth datblygu eu medrau.
- Mae darparwyr yn annog ac yn cefnogi eu staff cyflwyno – p'un a ydynt yn aseswyr galwedigaethol neu'n arbenigwyr sgiliau hanfodol – i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol personol ac ymgymryd â chymwysterau SHC eu hunain.
- Mae darparwyr yn cynnig dysgu proffesiynol sy'n datblygu dealltwriaeth tiwtoriaid ac aseswyr o'r addysgeg ar gyfer cyflwyno medrau hanfodol.
- Mae darparwyr yn sicrhau y caiff medrau hanfodol eu hystyried yn briodol mewn prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd.
- Mae cyflogwyr yn glir ynghylch eu rôl o ran cefnogi prentisiaid i ennill eu cymwysterau SHC, cynnal eu cymhelliant a datblygu gwydnwch. Mae cyflogwyr yn sicrhau bod prentisiaid yn cael yr amser sydd ei angen i ffwrdd o'r gwaith i gwblhau'r gweithgareddau hyn.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Gydweithio â Cymwysterau Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i adolygu'r defnydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn prentisiaethau

A2 Adnewyddu Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ac adnoddau

A3 Trwy gydweithio â phartneriaid, datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth ymarferwyr o'r addysgeg a'r gallu i gyflwyno medrau hanfodol

**Dylai darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith:**

A4 Ddatblygu ymagweddau gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau:

- y caiff dysgwyr gyfleoedd ystyrlon i astudio ac ymgymryd ag asesiadau'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg
- y caiff anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr eu nodi a'u gwerthuso'n brydlon a'u cefnogi'n briodol

A5 Sicrhau bod dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

A6 Cynnig dysgu proffesiynol sy'n datblygu addysgeg tiwtoriaid ac aseswyr i gyflwyno medrau hanfodol

**Dylai darparwyr arweiniol:**

A7 Sicrhau bod hunanwerthuso'n myfyrio ar effeithiolrwydd y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio ar draws partneriaid ac isgontractwyr y darparwr ac yn cymryd camau i leihau'r anfanteision posibl a nodir yn yr adroddiad hwn

## (1) Nodweddion rhaglenni effeithiol

Canfuom ystod o ddulliau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cymwysterau SHC. Caiff y rhain eu trafod yn yr adran ar addysgu a dysgu yn yr adroddiad hwn. Ar draws ystod y modelau cyflwyno, roedd y nodweddion canlynol yn nodweddiadol o'r rhaglenni mwyaf effeithiol:

### Cyngor ac arweiniad cychwynnol

- Mae cyngor ac arweiniad cychwynnol yn sicrhau bod dysgwyr yn deall pa gymwysterau SHC y mae angen iddynt eu cwblhau ar gyfer eu fframwaith ac erbyn pryd.
- Mae dysgwyr yn deall y manteision posibl – yn ogystal â chwblhau eu fframweithiau yn unig – y gallai gwella eu medrau sylfaenol arwain atynt yn eu hastudiaethau prentisiaeth, eu gallu yn y gwaith a'u bywydau ehangach. Mae dysgwyr yn deall gwerth posibl yr hyn y maent yn ei astudio.
- Lle mae hyn yn ddefnyddiol o ran ymestyn galluoedd dysgwyr a gwella eu dilyniant i brentisiaethau pellach, caiff dysgwyr eu herio i ennill cymwysterau SHC ar lefel uwch nag sydd ei hangen ar gyfer eu fframwaith.
- Caiff tystysgrifau ar gyfer cymwysterau procsi eu casglu a'u prosesu cyn gynted â phosibl ar raglenni dysgwyr, er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd dysgwyr yn colli tystysgrifau y gwnaethant eu hennill yn yr ysgol a lleihau'r posibilrwydd y bydd angen i ddysgwyr gwblhau cymwysterau SHC roeddent yn credu bod ganddynt gymhwyster procsi ar eu cyfer yn wreiddiol.
- Mae dysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd ystyrlon i astudio a chwblhau eu cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'n bosibl staffio hyn, caiff cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth neu weithio ar y cyd â darparwyr eraill eu harchwilio a'u manteisio arnynt.
- Caiff dysgwyr a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol neu y gall fod angen addasiadau i asesiadau arnynt eu hatgyfeirio'n brydlon i staff priodol er mwyn i'r rhain gael eu gwerthuso. Mae darparwyr arweiniol yn defnyddio ymagweddau partneriaeth i sicrhau y gall yr holl ddarparwyr ar eu contract fanteisio ar y staff arbenigol sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwerthusiadau hyn. Caiff unrhyw gymorth sydd ei angen ei roi ar waith a chaiff arweiniad i staff cyflwyno ar sut i gefnogi'r dysgwr ei gyfleu'n effeithiol. Caiff unrhyw addasiadau eu cofnodi â'r sefydliad dyfarnu yn brydlon.
- Mae asesiad cychwynnol yn nodi cryfderau a gwendidau dysgwyr yn eu medrau. Mae dysgwyr yn deall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

### Cydlynu a chyfathrebu ynghylch cynnydd dysgwyr

- O fewn y darparwr, mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am olrhain a monitro cynnydd dysgwr o ran cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
- Mae cyfathrebu a chydlynu rhwng timau, tiwtoriaid ac aseswyr sy'n cyflwyno agweddau gwahanol ar raglen dysgwr yn glir, strwythuredig ac wedi'u ffurfioli. O fewn y darparwr, mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am olrhain a monitro cynnydd dysgwyr o ran cwblhau eu cymwysterau SHC.

- Mae gan ddysgwyr amserlen realistig ar gyfer cwblhau eu cymwysterau SHC. Mae’r amserlen yn caniatáu digon o amser i ddysgwyr ymgartrefu ar eu rhaglenni, datblygu eu medrau ac ennill yr achrediadau angenrheidiol. Mae’r amserlen yn caniatáu lle ar gyfer llithriant.
- Mae gan ddysgwyr amserlen realistig ar gyfer cwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Os bydd dysgwyr yn dechrau gwyro oddi wrth eu hamserlen, caiff hyn ei nodi’n gyflym a chaiff cymorth adferol ei roi ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau SHC ac yn cyflawni eu fframwaith cyfan.

## Cynllunio a chyflwyno rhaglenni SHC

- Mae gan ddysgwyr raglen astudio ystyrlon – beth bynnag fo’r model cyflwyno a ddefnyddir gan y darparwyr – sy’n eu galluogi i ddatblygu ac ymarfer eu medrau hanfodol a pharatoi ar gyfer yr asesiadau allanol.
- Mae rhaglenni astudio dysgwyr yn ystyried eu hasesiadau cychwynnol a pharhaus. Maent yn rhoi cyfle i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu meysydd medrau gwannach ac atgyfnerthu eu cryfderau.
- Mae darpariaeth yn hyblyg. Mae’n caniatáu cyfleoedd ar gyfer cymorth dwys os bydd dysgwyr yn cael trafferth datblygu eu medrau. Mae enghreifftiau’n cynnwys cymorth ychwanegol gan diwtoriaid arbenigol, gweithdai neu ddosbarthiadau meistr ar-lein neu wyneb-yn-wyneb a chyfleoedd i ymarfer asesiadau.
- Mae darparwyr yn cydnabod ystod y beichiau sy’n cael eu rhoi ar brentisiaid fel oedolion cyflogedig sy’n dysgu. Mae darparwyr yn cynorthwyo dysgwyr i gydbwyso’r llwyth gwaith o’u hastudiaethau, eu rôl yn y gwaith a gorchmynion eu bywydau ehangach.
- Mae darparwyr yn cynorthwyo dysgwyr i gynnal eu cymhelliant a meithrin gwydnwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig i’r dysgwyr hynny sy’n ei chael yn arbennig o heriol ennill cymwysterau SHC.
- Mae darparwyr yn cynllunio a manteisio ar dasgau asesedig dan reolaeth sy’n galluogi dysgwyr i ddangos eu medrau mewn cyd-destunau sy’n berthnasol i’w galwedigaethau.
- Mae darparwyr yn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu rwystrau posibl rhag dysgu, fel peidio â bod yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, yn cael cymorth priodol. Caiff trefniadau ar gyfer addasiadau priodol i asesiadau neu ganiatâd arbennig i addasu gofynion cymwysterau SHC ar gyfer fframweithiau eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol.
- Mae darparwyr yn defnyddio tiwtoriaid medrau hanfodol arbenigol yn briodol, naill ai drwy weithio’n uniongyrchol gyda dysgwyr neu gefnogi aseswyr nad ydynt yn rhai arbenigol.
- Mae darparwyr yn sicrhau bod dysgwyr sydd eisoes wedi ennill eu cymwysterau SHC neu sydd wedi’u heithrio drwy brocsi yn parhau i ddatblygu a gwella eu medrau mewn ffordd ystyrlon.

## Dysgu proffesiynol

- Mae darparwyr yn annog a chefnogi eu staff cyflwyno – p’un a ydynt yn aseswyr galwedigaethol neu’n arbenigwyr medrau hanfodol – i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol personol ac ymgymryd â chymwysterau SHC eu hunain.

- Mae darparwyr yn cynnig dysgu proffesiynol sy’n datblygu dealltwriaeth tiwtoriaid ac aseswyr o’r addysgeg ar gyfer cyflwyno medrau hanfodol: mae gan staff strategaethau i addysgu a chynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Mae gan reolwr sydd ag awdurdod digonol drosolwg o’r agwedd medrau hanfodol ar raglenni’r darparwr.
- Mae darparwyr yn sicrhau y caiff medrau hanfodol eu hystyried yn briodol mewn prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd.
- Mae gan y darparwr arweiniol drosolwg priodol o’r rhaglenni sgiliau hanfodol sy’n cael eu cynnig ar draws ei gontract ac mae ganddo ddulliau i sicrhau y caiff arfer dda ei rhannu.

### Cyflogwyr

- Mae darparwyr a chyflogwyr yn cynnal trefn gyfathrebu dda ynghylch cynnydd ac amgylchiadau dysgwyr.
- Mae cyflogwyr yn glir ynghylch eu rôl o ran cefnogi prentisiaid i ennill eu cymwysterau SHC, cynnal eu cymhelliant a datblygu gwydnwch. Mae hyn yn debygol o gynnwys caniatáu amser i ffwrdd o’r gwaith mewn gweithdai neu ymgymryd â gweithgareddau asesu. Mae cyflogwyr yn sicrhau bod prentisiaid yn cael yr amser sydd ei angen i ffwrdd o’r gwaith i gwblhau’r gweithgareddau hyn.
- Mae gan gyflogwyr ddigon o wybodaeth am ymrwymiadau dysgu prentisiaid (e.e. gweithdai i ffwrdd o’r gwaith neu weithgareddau asesu) er mwyn iddynt allu cynllunio gwaith prentisiaid yn briodol.

## (2) Deilliannau dysgwyr

### Data cyhoeddedig cenedlaethol ar gwblhau rhaglenni prentisiaeth

Y data cyhoeddedig cenedlaethol diweddaraf ar gyfer rhaglenni prentisiaeth yw adroddiad deilliannau dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 (Llywodraeth Cymru, 2023b). Dyma'r set gyntaf o fesurau deilliannau safonol a gyhoeddwyd ers y data ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019, gan na chyhoeddwyd adroddiadau ar gyfer y ddwy flynedd rhyngddynt oherwydd y pandemig.

Y mesur allweddol yn yr adroddiad ar ddeilliannau dysgu yw'r gyfradd llwyddiant fframwaith llawn, sef cyfradd y prentisiaid sy'n cwblhau eu fframwaith yn llwyddiannus, gan gynnwys yr holl elfennau gorfodol, fel NVQau a chymwysterau SHC. Mae'r adroddiad yn dangos bod y gyfradd llwyddiant fframwaith llawn ar gyfer prentisiaethau 14.6 pwynt canran yn is yn 2021-2022 na chyn y pandemig yn 2018-2019, gan ddisgyn o 80.9% i 66.3%.

Roedd y gostyngiadau mwyaf yn y gyfradd llwyddiant ar gyfer prentisiaethau sylfaen; prentisiaethau ym meysydd pwnc y sectorau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal; lletygarwch ac arlwyo; a thrin gwallt a harddwch; a'r rhai gan brentisiaid rhwng 20 a 24 oed. Ehangodd y bwlch yn y gyfradd llwyddiant rhwng dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig o gymharu â 2018-2019, gyda bwlch o naw pwynt canran yn 2021-2022 o gymharu â thri phwynt canran yn 2018-2019.

Mae'r adroddiad ar ddeilliannau dysgu yn nodi, mewn categorïau eang, y rhesymau pam nad yw dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau'n llwyddiannus. Roedd tua hanner y dysgwyr na wnaethant gwblhau eu fframweithiau'n llwyddiannus yn 2021-2022 wedi'u categoreiddio fel eu bod wedi 'methu'. Nid yw'r adroddiad ar ddeilliannau dysgu yn nodi cyfran y dysgwyr a fethodd gwblhau eu fframweithiau llawn oherwydd iddynt fethu cwblhau eu cymwysterau SHC.

Nid yw'n hawdd nodi'r union reswm pam y mae dysgwyr yn 'methu' eu fframwaith llawn bob tro. Fel arfer, mae dysgwyr yn penderfynu nad oes arnynt eisiau cwblhau eu fframwaith llawn bellach ac maent yn gadael heb gyflawni'r holl elfennau. Gall hyn fod am amryw resymau sy'n ymwneud, er enghraifft, ag elfen y cymhwyster galwedigaethol, methu ennill cymwysterau SHC fwy nag unwaith, pwysau gwaith, cael swydd arall y tu allan i'r sector neu resymau personol. Dywed darparwyr nad yw methu ennill cymwysterau SHC yn achos sylweddol o fethiant cyffredinol i gwblhau fframweithiau bellach. Er bod gwahaniaethau o ran deilliannau cwblhau fframweithiau rhwng darparwyr a rhwng llwybrau galwedigaethol gwahanol, nid oeddem yn gallu priodoli'r gwahaniaethau hyn i ddulliau gwahanol o gyflwyno cymwysterau SHC na'r modelau cyflwyno gwahanol sy'n cael eu defnyddio. Rydym yn trafod hyn a'r ystod o fodelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio yn yr adran o'r adroddiad hwn ar addysgu a dysgu. Nododd darparwyr eithriad, yn achos dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), lle mae elfen Sgiliau Hanfodol Cymru y fframwaith yn creu

rhwystr rhag cwblhau'n llwyddiannus y mae dysgwyr yn cael trafferth ei oresgyn. Awn i'r afael â hyn yn benodol yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Agwedd ychwanegol ar y data cyhoeddedig yw'r potensial am 'fethiant cudd'. Mae'r ystadegau ar gyfer yr adroddiad ar ddeilliannau dysgwyr wedi'u seilio ar ddysgwyr sy'n weithredol ac ar y rhaglen wyth wythnos ar ôl y dyddiad dechrau. Caiff dysgwyr eu diffinio'n 'ymadawyr cynnar' os byddant: yn rhoi'r gorau i ddysgu cyn pen wyth wythnos o'u dyddiad dechrau, heb gwblhau'r dysgu hwnnw a bod gan y dysgu hyd disgwyliedig o 24 wythnos neu fwy. Caiff dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar eu heithrio o'r mesurau deilliannau dysgwyr. Mae adroddiad ar ddeilliannau dysgwyr 2021-2022 (Llywodraeth Cymru, 2023b) yn cofnodi bod 12.1% o gyfanswm nifer y dysgwyr sy'n dechrau rhaglenni prentisiaeth yn ymadael yn gynnar. Dywedodd darparwyr wrthym y gallai nifer anfesuredig ond sylweddol, o bosibl, o'r ymadawyr cynnar fod yn ddysgwyr sydd, pan fyddant yn sylweddoli maint yr her maent yn ei hwynebu o ran cwblhau elfen SHC eu fframwaith, yn penderfynu peidio â pharhau.

### Cais i gyflogwyr am ddata

Gofynnom i'r naw darparwr arweiniol yr ymwelom â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon gwblhau cais am ddata o'u data eu hunain ar gyfer yr holl ddarparwyr ac isgontractwyr dan eu contract. Gofynnodd y cais am y canlynol:

- nifer y dysgwyr ar raglenni gwahanol a lefelau gwahanol ar hyn o bryd
- nifer y dysgwyr a oedd wedi'u heithrio drwy brocsi rhag o leiaf un o'r cymwysterau sgiliau hanfodol sy'n ofynnol gan eu fframwaith
- nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf un cymhwyster SHC ar lefel uwch nag sy'n ofynnol gan eu fframwaith
- nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag unrhyw rai o gymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg

Ymatebodd pob un o'r naw darparwr arweiniol, er nad oeddem yn gallu gwneud defnydd llawn o'r data gan un darparwr arweiniol oherwydd nad oedd yn y fformat y gofynnwyd amdano. Felly, mae'r data a drafodwn yma yn sampl o'r ddarpariaeth prentisiaethau dysgu yn y gwaith (DYYG) yng Nghymru, yn hytrach na darlun cyflawn o'r ddarpariaeth gyfan. Nid ydym yn enwi datganiadau data darparwyr unigol yn y drafodaeth hon.

### Data gan ddarparwyr: cymwysterau procsi

Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb o'r ymatebion gan wyth o'r deg darparwr arweiniol. At ei gilydd, roedd 61% o'r dysgwyr yn y sampl wedi'u heithrio rhag o leiaf un SHC yn eu fframwaith oherwydd bod ganddynt gymwysterau procsi. Roedd hyn ar ei uchaf ymhlith dysgwyr Prentisiaethau Uwch, sef 67%. Roedd 64% o ddysgwyr Prentisiaeth a 53% o ddysgwyr Prentisiaeth Sylfaen yn gallu hawlio o leiaf un procsi. Dyma'r patrwm y gellid ei ddisgwyl, gan y bydd dysgwyr Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch yn fwy tebygol o fod wedi ennill TGAU neu fod wedi cwblhau cymwysterau SHC eisoes wrth iddynt symud trwy fframweithiau prentisiaeth is.

**Tabl 1 – Ymatebion gan wyth darparwr arweiniol yn dangos canran y dysgwyr sydd wedi'u heithrio drwy brocsi, sy'n cyflawni lefelau SHC uwch nag sy'n ofynnol gan eu fframwaith ac sy'n ymgymryd â'u cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg.**

| Lefel y brentisiaeth | Nifer y dysgwyr | % y dysgwyr sydd wedi'u heithrio rhag o leiaf un SHC trwy brocsi | % y dysgwyr sy'n ymgymryd ag unrhyw SHC sy'n uwch na gofynion y fframwaith | % y dysgwyr sy'n ymgymryd ag unrhyw SHC trwy gyfrwng y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen (L2) | 10,013 | 53% | 15% | 2% |
| Prentisiaeth (L3) | 10,620 | 64% | 3% | 3% |
| Prentisiaeth Uwch (L4/5) | 5,745 | 67% | 5% | 3% |
| Cyfanswm | 26,378 | 61% | 8% | 2% |

## Data gan ddarparwyr: cymwysterau SHC ar lefel uwch na gofynion y fframwaith

Mae Tabl 1 hefyd yn dangos crynodeb o'r ymatebion gan wyth darparwr arweiniol yn ymwneud â chyfran y dysgwyr sy'n ymgymryd ag unrhyw gymwysterau SHC ar lefel uwch nag sy'n ofynnol gan eu fframwaith. At ei gilydd, roedd 8% o ddysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau SHC uwch nag a oedd yn ofynnol gan eu fframwaith. Roedd y gyfran hon ar ei huchaf ymhlith dysgwyr Prentisiaethau Sylfaen. Eto, gellid disgwyl hyn, gan y bydd dysgwyr ar y lefel hon yn debygol o symud ymlaen i brentisiaethau ar lefel uwch yn y dyfodol (Prentisiaeth neu Brentisiaeth Uwch), lle y byddai angen iddynt ennill cymwysterau SHC ar lefel uwch. Felly, bydd cwblhau cymwysterau SHC uwch nag sydd eu hangen yn ystod eu Prentisiaeth Sylfaen yn galluogi dysgwyr i 'fancio' eu cymwysterau SHC i'w heithrio ar raglenni yn y dyfodol.

## Data gan ddarparwyr: cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Tabl 1 yn dangos, at ei gilydd, bod 2% o ddysgwyr (645 o gyfanswm o 26,378) yn y sampl o wyth o bartneriaethau yn ymgymryd â'u cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r rhain, roedd 437 o ddysgwyr (68%) mewn un darparwr arweiniol a'i bartneriaid contract. Cofnododd y saith darparwr arweiniol arall fod rhwng 0% ac 11% o'u dysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn amlwg, bydd nifer y dysgwyr mewn unrhyw ddarparwr a all ddewis ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn dibynnu i ryw raddau ar gyfran sylfaenol y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth leol y darparwr. Fodd bynnag, mae patrwm y dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn awgrymu nad dyma'r unig ffactor a bod amrywiadau o ran arfer rhwng darparwyr hefyd yn debygol o chwarae rhan, gyda rhai darparwr yn cynorthwyo dysgwyr i ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy effeithiol nag eraill. Er enghraifft, crybwyllodd darparwr arweiniol â thros 2,000 o ddysgwyr ar draws y partneriaid dan ei gontract nad oedd unrhyw un o'i ddysgwyr yn ymgymryd â

chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. Dan gontract darparwr arweiniol arall, roedd gan bob darparwr niferoedd cymharol uchel o ddysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg, ac eithrio un, a nododd sero.

## Arsylwi dysgu

Yn ein hymweliadau â naw darparwr arweiniol, arsylwom sesiynau medrau hanfodol ar-lein ac yn yr ystafell ddosbarth, gweithdai, sesiynau un-i-un i ffwrdd o'r gwaith a sesiynau yn y gwaith ar safleoedd cyflogwyr.

Nodom dri maes cysylltiedig lle'r oedd ansawdd dysgu yn peri pryder. Y cyntaf yw gallu dysgwyr i gofio'r medrau y maent wedi'u datblygu. Er bod dysgwyr yn dangos gwelliannau tymor byr i'w medrau o ganlyniad i weithio ar dasgau hunanastudio â chymorth, gweithgareddau a ddarparwyd gan eu tiwtoriaid neu mewn sesiynau ymarfer asesiadau, roeddent yn aml yn dweud nad oeddent yn cofio'r medrau hyn ar ôl cwblhau'r asesiad allanol ar gyfer y cymhwyster SHC. Caiff hyn ei grynhoi gan sylw un dysgwr, sef: 'Rydw i'n ei ddysgu ar gyfer y prawf ac yna'n ei anghofio ar unwaith.'

Yr ail yw bod dysgu'n canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer tasgau asesu allanol. Mewn llawer o'r dysgu a arsylwom, roedd dysgwyr yn gweithio ar 'dalpiau bach' o ddysgu a atgyfnerthwyd gan asesiad ymarfer, a oedd yn aml yn deillio o brofion cadarnhau enghreifftiol. Effaith hyn yw lleihau'r medrau sy'n cael eu dysgu i 'bethau sydd eu hangen i lwyddo yn y prawf', yn hytrach na 'medrau defnyddiol a fydd yn fy helpu yn fy mywyd gwaith neu fywyd ehangach'. Er enghraifft, pan roedd dysgwyr a'u tiwtoriaid yn siarad â'i gilydd fel rhan o'r broses ddysgu, roeddent yn aml yn cyfeirio at yr asesiad allanol fel diben eu dysgu:

> *Pam y mae angen i mi ddysgu hyn?*
>
> *Mae ei angen arnoch i lwyddo yn y prawf.*

Caiff yr ymagwedd hon at ddysgu ei hysgogi'n rhannol gan yr amserlenni byr sydd gan ddysgwyr i gwblhau eu cymwysterau SHC ac yn rhannol oherwydd bod y profion cadarnhau a'r tasgau asesedig yn mynnu bod dysgwyr yn dangos medrau mewn cyd-destunau generig, yn gyffredinol, yn hytrach na thrwy eu dysgu galwedigaethol neu bynciol.

Y trydydd yw i ba raddau y gall dysgwyr gymhwyso'r medrau y maent wedi'u dysgu i'w helpu yn swyddi gwaith neu eu bywydau ehangach. Mynegodd dysgwyr ffafriaeth glir ar gyfer dysgu medrau trwy eu cyd-destun galwedigaethol ac mewn ffyrdd sy'n eu helpu yn eu rolau gwaith, ond mae natur generig yr asesiad o gymwysterau SHC yn golygu ei bod yn ofynnol i ddysgwyr ddysgu'r medrau, mewn gwirionedd – neu o leiaf eu dangos at ddibenion asesu – mewn ffordd sydd wedi'i gwahanu i raddau helaeth oddi wrth eu rolau gwaith. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn datblygu'r medrau a fyddai'n fwyaf defnyddiol iddynt yn eu gwaith neu eu bywydau ehangach i'r graddau llawnaf ac y gallent.

Mae'r tri maes hyn wedi'u cysylltu trwy'r cwestiwn allweddol a godwyd gan yr adroddiad hwn, sef addasrwydd cymwysterau SHC fel ffordd o strwythuro datblygiad ac asesu medrau rhifedd, llythrennedd a digidol prentisiaid ar raglenni dysgu yn y

gwaith. Mae'r model asesu ar gyfer cymwysterau SHC yn cyfrannu at ogwyddo dysgu ac addysgu tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol.

Rydym yn amlinellu'r modelau sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno cymwysterau SHC mewn rhaglenni prentisiaeth yn yr adran ar Addysgu a Dysgu yn yr adroddiad hwn. Mae gan bob un ohonynt fanteision ac anfanteision. Mae darparwyr wedi datblygu'r modelau hyn er mwyn i 'ddysgwyr oresgyn rhwystr asesu' fel y gallant gyflawni eu fframwaith prentisiaeth llawn ac, fel y disgrifir uchod, mae'r addysgu a dysgu wedi'u gogwyddo braidd yn gul tuag at asesiadau allanol.

O ystyried y cyfyngiadau o ran dysgu a amlinellwyd uchod, yn y sesiynau a arsylwom, roedd mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu'r medrau yr ymdriniwyd â nhw yn y sesiwn honno. Er enghraifft, os oedd y sesiwn yn canolbwyntio ar atalnodi, roedd y dysgwr wedi gwneud gwelliant amlwg yn ei ddefnydd o atalnodi yn ystod y sesiwn. Yn aml, roedd y sesiwn yn dod i ben â chwestiwn o bapur prawf ymarfer neu gyfle i ymgymryd ag asesiad 'gwirio medrau' gan ddefnyddio WEST.

Roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a gwendidau yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac roedd llawer ohonynt yn glir ynghylch eu cynnydd a'r hyn roedd angen iddynt ei wneud i wella. Lle'r oedd dysgwyr yn defnyddio eu 'proffil sbigog' o'u hasesiad cychwynnol a oedd yn deillio o WEST, gwiriadau medrau WEST neu adborth o gwestiynau papurau ymarfer, roeddent yn gallu monitro eu cynnydd eu hunain a gwirio datblygiad eu medrau'n fynych.

Crybwyllodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn cael cymorth ac adborth defnyddiol gan eu tiwtoriaid neu aseswyr, a oedd yn eu helpu i ddeall beth roedd angen iddynt ei wneud i wella a'r camau roedd angen iddynt eu cwblhau i wneud hynny.

### Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Adroddodd darparwyr, o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), fod ennill y cymwysterau SHC sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith yn aml yn her sylweddol ac yn rhwystr rhag llwyddo. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr a oedd yn gymwys ac yn llwyddiannus yn eu rolau gwaith ond nad oeddent yn gallu ennill y cymwysterau SHC angenrheidiol oherwydd nad oeddent yn gallu llwyddo yn asesiadau SHC.

Yn ogystal â darparu cymorth addysgu ychwanegol i ddysgwyr ag ADY, mae gan ddarparwyr ddwy set o gamau gweithredu y gallant eu cymryd i liniaru effaith ADY dysgwr ar ei ddeilliannau. Y cyntaf yw gwneud cais i'r sefydliad dyfarnu ar gyfer y cymhwyster SHC am drefniadau mynediad arbennig ar gyfer asesiadau SHC (y dasg reoledig a/neu'r prawf cadarnhau), er enghraifft amser ychwanegol, darllenydd neu sgrifellwr i gefnogi dysgwyr na fyddant yn gallu cwblhau'r asesiad fel arall oherwydd anabledd neu anhawster dysgu.

Yr ail yw gwneud cais am addasiad arbennig ('goddefeb) i leihau'r gofynion o ran cymwysterau SHC a nodwyd yn fframwaith prentisiaeth y dysgwr hwnnw. Anaml iawn y mae'r rhain yn digwydd ac mae angen bodloni amodau arbennig – (gweler Llywodraeth Cymru, 2022b, adrannau B90 i B122).

Mae darparwyr yn crybwyll bod y prosesau hyn, yn ymarferol, yn rhwystrau eu hunain rhag dysgwyr ADY yn cael y goddefeb sydd ei hangen arnynt i'w helpu i gyflawni eu fframweithiau llawn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer darparwyr llai, efallai nad oes ganddynt yr arbenigedd neu'r profiad i wneud cais am addasiadau arbennig yn hyderus.

Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, mae darparwyr arweiniol yn sicrhau bod adnoddau a staff ag arbenigedd ADY ar gael ar draws yr isgontractwyr partner ac aelodau'r consortiwm fel bod yr holl bartneriaid a'u dysgwyr yn cael cyfleoedd cyfartal o ran mynediad ac addasiadau.

**Panel Goddefeb Sgiliau Hanfodol consortiwm B-wbl**

Nid oes gan ddysgwyr sy'n hunanddatgan ADY y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r cais am oddefeb ar gyfer cymwysterau SHC. Yng nghonsortiwm B-wbl, dan arweiniad Coleg Sir Benfro, mae panel ar waith i gefnogi darparwyr nad oes ganddynt Arweinydd ADY â chymhwyster lefel 7.

Mae'r panel yn dod ag arweinwyr ADY at ei gilydd o'r tu mewn i'r consortiwm i adolygu tystiolaeth gan aseswyr a thiwtoriaid SHC. Mae'r panel hwn yn nodi a oes modd cefnogi gofynion y fframwaith SHC trwy addasiadau rhesymol neu a ddylid cymhwyso goddefeb SHC, gan ostwng lefel y cymwysterau SHC sydd eu hangen ar gyfer y fframwaith hwnnw.

Mae'r panel yn galluogi'r holl ddarparwr i fod â'r hyder bod ganddynt y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cais am oddefeb.

### Datblygu medrau i ddysgwyr sydd eisiau â chymwysterau SHC neu sydd wedi'u heithrio drwy brocsi

Bydd cyfran sylweddol o brentisiaid wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ennill cymwysterau SHC oherwydd bod ganddynt gymwysterau procsi, fel TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, neu oherwydd eu bod eisoes wedi ennill cymwysterau SHC yn eu hastudiaethau blaenorol.

Ar gyfer y dysgwyr hyn, cyfrifoldeb yr aseswr galwedigaethol yw'r ddarpariaeth i gynyddu lefel medrau (y cyfeirir ato'n aml fel 'uwchsgilio') – a ddisgrifir ym Model 6 yn y tabl sy'n nodi'r ymagweddau gwahanol at addysgu a dysgu (gweler yr Atodiad). Mae tystiolaeth o arolygu'n dangos bod y graddau y mae dysgwyr yn ymgysylltu â hyn yn amrywio, gydag ychydig o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn weithredol y tu hwnt i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer eu rolau gwaith uniongyrchol.

## (3) Safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid a chyflogwyr

### Dysgwyr

Siaradom ag ystod eang o ddysgwyr fel rhan o'n hymweliadau â darparwyr ar gyfer yr adolygiad hwn. Cynhaliom sgyrsiau wyneb-yn-wyneb neu ar-lein gyda dysgwyr a oedd yn astudio neu a oedd wedi astudio medrau hanfodol yn ddiweddar mewn lleoliadau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Siaradom â chyfanswm o 120 o ddysgwyr yn ystod ein hymweliadau â darparwyr a chyflogwyr. Hefyd, gwahoddom ddysgwyr – trwy negeseuon e-bost a anfonwyd at ddarparwyr â chais i'w hanfon ymlaen at eu dysgwyr – i ymateb i holiadur ar-lein am eu profiad o gymwysterau SHC yn eu prentisiaethau. Cawsom 668 o ymatebion gan ddysgwyr i'n holiadur ar-lein.

Dysgwyr cyflogedig sy'n oedolion – neu'n o leiaf 16 oed neu'n hŷn – yw prentisiaid. Yn aml, cânt eu hysgogi i astudio er mwyn dod yn well yn eu swyddi neu ennill cymwysterau a fydd yn arwain at ragolygon gwell o ran swyddi. Yn aml, mae amser yn brin i'r dysgwyr hyn ac maent yn ymwybodol iawn o werth eu dysgu neu'r gwrthwyneb. Maent hefyd yn ymwybodol o 'gost cyfle' astudio: 'Beth allwn i fod yn ei wneud pe na fyddwn yn gwneud hyn ar hyn o bryd?'

Yn aml, roedd sylwadau dysgwyr am gymwysterau SHC yn gymhleth ac yn gynnil, gan wahaniaethu rhwng gwerth posibl dysgu'r medrau sy'n sail i gymwysterau SHC; fformat, strwythur ac asesu'r cymwysterau eu hunain; a rôl eu tiwtoriaid o ran eu cynorthwyo i ddysgu'r medrau er mwyn iddynt 'lwyddo' yn y cymwysterau.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr i'r holiadur ar-lein yn fwy cadarnhaol ac yn llai beirniadol yn eu hagweddau at ddysgu cymwysterau SHC na'r dysgwyr y siaradom â nhw yn ystod ein hymweliadau.

### Dysgwyr: cymorth sy'n cael ei gynnig dan ddarparwyr a'u tiwtoriaid

Roedd dysgwyr mewn ymweliadau ac ymatebion i'r holiadur, fel ei gilydd, yn cydnabod y cymorth y mae eu darparwyr yn ei gynnig i ddatblygu eu medrau a sicrhau eu bod yn 'llwyddo' yn yr asesiad. Er enghraifft, roedd 80% o ddysgwyr yn yr holiadur ar-lein yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cael cymorth da gan eu darparwr i'w helpu i ddatblygu eu medrau hanfodol, er bod 12% ddim yn cytuno nac yn anghytuno ac 8% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Datgelodd sgyrsiau gyda dysgwyr yn ystod ein hymweliadau ddarlun mwy cynnil. Roedd bron pob dysgwr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd gan eu haseswyr a'u tiwtoriaid ac yn gwahaniaethu rhwng y cymorth personol roedd aseswyr a thiwtoriaid yn ei gynnig a'r her roeddent yn ei hwynebu wrth helpu dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau o fewn yr amserlen ac â'r adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, dywedodd dysgwyr:

> *Mae fy nhiwtoriaid wedi bod yn gynorthwyol iawn, yn rhoi gwaith i mi fynd ag ef i'w adolygu, yn enwedig mathemateg.*

*Dwi ddim yn hoff o fathemateg a dwi wedi cwblhau fy nghymhwyster mathemateg [Cymhwyso Rhif] erbyn hyn. Rhoddodd fy nhiwtor lawer o gymorth a'm helpu i fod yn hyderus ar gyfer fy arholiadau.*

### Dysgwyr: amgyffrediadau o werth astudio cymwysterau SHC

Yn yr holiadur ar-lein a'n hymweliadau â darparwyr, fe wnaethom holi dysgwyr am eu hamgyffrediadau o werth astudio cymwysterau SHC o ran eu helpu i wella eu medrau, yn eu prentisiaeth ac yn eu swyddi gwaith. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ymatebion dysgwyr i'r holiadur ar-lein o gymharu â'r ymatebion yn ystod ein hymweliadau. Roedd 63% o'r ymatebwyr i'r holiadur ar-lein yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod astudio cymwysterau SHC wedi'u helpu i wella eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol. Roedd 58% a 54% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod astudio cymwysterau SHC wedi'u helpu i astudio ar gyfer eu prentisiaethau, neu eu swyddi, yn y drefn honno.

Mewn sgyrsiau gyda dysgwyr yn ystod ein hymweliadau, roedd dysgwyr yn amlwg yn llai cadarnhaol ynghylch y gwerth roedd astudio cymwysterau SHC yn ei roi i'w dysgu a'u rolau gwaith, a dim ond ychydig ohonynt a fynegodd agweddau cadarnhaol. Yn nodweddiadol, roedd dysgwyr a fynegodd agweddau cadarnhaol yn mwynhau datblygu medrau nad oeddent wedi'u dysgu o'r blaen neu nad oeddent wedi'u deall yn dda yn yr ysgol neu yn eu profiad blaenorol, neu'n teimlo budd mireinio medrau nad oeddent wedi'u defnyddio ers tro:

*Roedd yn braf gweld fy lefelau medrau yn cael eu cynnal – gan fy mod i'n myfyriwr aeddfed, mae eu hadolygu'n beth da.*

Roedd y dysgwyr hyn yn aml yn rhoi enghreifftiau o sut roedd yr asesiadau cychwynnol yn nodi meysydd lle'r oeddent yn wan ac fel roeddent yn mwynhau gwella'r meysydd hyn. Er enghraifft, crybwyllodd dysgwyr eu bod wedi datblygu dealltwriaeth o ddefnyddio taenlenni a bod hyn wedi gwella eu cynhyrchedd yn y gwaith. Roedd dysgwyr a oedd wedi symud o'r DU o wledydd eraill neu nad oeddent yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddatblygu eu medrau iaith fel rhan o'u rhaglenni prentisiaeth.

Yn ystod ein hymweliadau, er bod ychydig o ddysgwyr yn mynegi agweddau cadarnhaol at ddysgu a chwblhau eu cymwysterau SHC, nid oedd cyfran lawer uwch o ddysgwyr yn mwynhau ymgymryd ag elfen cymwysterau SHC eu fframwaith prentisiaeth. At ei gilydd, crybwyllodd llawer o ddysgwyr nad oeddent yn gweld perthnasedd na gwerth ymgymryd â chymwysterau SHC. Yn aml, roedd y dysgwyr hyn yn mynegi'n bendant nad oeddent yn gweld y cymwysterau'n berthnasol i'w rolau gwaith na'u bywydau ehangach.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr – p'un a oedd ganddynt agwedd gadarnhaol neu negyddol at y cymwysterau SHC a oedd yn ofynnol fel rhan o'u fframwaith – o'r farn bod dysgu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn fwyaf gwerthfawr pan roeddent o'r farn eu bod yn berthnasol i'w rolau gwaith.

Yn ein holiadur ar-lein, fe holom ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol wedi gwella yn ystod eu prentisiaeth. Yn

gyffredinol, ymatebodd dysgwyr yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn, gyda 62% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ar gyfer llythrennedd, 57% ar gyfer rhifedd a 64% ar gyfer medrau digidol. Roedd y darlun hwn yn debyg ymhlith y dysgwyr y siaradom â nhw yn ystod ein hymweliadau â darparwyr. Fodd bynnag, mewn sgyrsiau gyda dysgwyr yn ystod ein hymweliadau, er bod mwyafrif y dysgwyr yn cydnabod eu bod yn wir wedi dysgu medrau newydd neu wedi adolygu medrau presennol, roeddent yn aml yn crybwyll eu bod yn cofio'r medrau roeddent wedi'u dysgu am gyfnod byr yn unig a'u bod yn cael ychydig iawn o gyfleoedd i atgyfnerthu'r medrau roeddent wedi'u dysgu yn eu rolau gwaith neu eu bywydau ehangach. Dywedodd llawer o ddysgwyr eu bod yn defnyddio technegau 'paratoi ar gyfer arholiad', fel defnyddio hen bapurau i 'lwyddo' yn y prawf cadarnhau. Wedi iddynt gwblhau'r prawf a llwyddo ynddo, roedd dysgwyr yn aml yn sôn nad oeddent yn cofio'r medrau roeddent wedi'u hadolygu.

Roedd dysgwyr a oedd yn mynegi safbwyntiau negyddol yn aml yn gweld gwahaniaeth rhwng gwerth rhywfaint o'r dysgu creiddiol a oedd yn berthnasol i'w rolau gwaith a'r hyn nad oedd yn berthnasol. Er enghraifft, mynegodd dysgwyr gwaith saer ac adeiladu safbwyntiau cadarnhaol ynghylch gwerth dysgu mwy am y rheol '3-4-5' [sef y term maent yn ei ddefnyddio i ddisgrifio theorem Pythagoras ar gyfer cyfrifo ochrau trionglau ongl sgwâr] wrth sicrhau bod fframiau drysau a sylfeini waliau yn sgwâr neu wrth gyfrifo cyfeintiau, arwynebedd a pherimedrau. I'r gwrthwyneb, roedd y dysgwyr hyn yn gweld llawer o'r dysgu arall roeddent yn ymgymryd ag ef ar gyfer eu cymhwyster cymhwyso rhif yn amherthnasol ac yn ddrysol:

> *Beth yw'r diben i mi ddysgu am BODMAS [y drefn y gwneir cyfrifiadau] neu fodd, canolrif a chymedr? Dwi'n ei ddysgu ar gyfer y prawf ac yna'n ei anghofio ar unwaith.*

Roedd dysgwyr yn cyfeirio'n aml at yr amser roedd angen iddynt ei ymroi i elfen cymwysterau SHC eu fframwaith:

> *Amser yw'r rhwystr mwyaf i mi. Mae'n anodd iawn clustnodi amser ar gyfer popeth.*

> *Wrth weithio'n amser llawn, roedd yn anodd clustnodi amser ar gyfer popeth. Ond fe wnes i ymdopi. Mae'n bwysig sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwaith ychwanegol ar ddechrau'r cymhwyster.*

Roedd dysgwyr hefyd yn codi'r gost cyfle dybiedig iddynt o orfod ennill cymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith, yn enwedig pan roedd y dysgu'n cael ei gyflawni mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith. Roedd yr amser a dreuliwyd yn astudio'r medrau creiddiol ac yn ymgymryd â'r dasg asesiad a'r prawf yn cael ei ystyried yn amser y gellid ei dreulio'n datblygu eu medrau galwedigaethol – a oedd yn fwy gwerthfawr iddynt, ym marn y dysgwyr:

> *Dwi'n teimlo bod hyn wedi cymryd amser y gellid bod wedi'i ddefnyddio'n fwy cynhyrchiol. Dim ond un diwrnod yr wythnos dwi yn y coleg gydag oriau cyfyngedig ac mae'n rhaid i mi wastraffu amser yn mynd i wers ddiddiben. Mae fy medrau rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol yn bodloni anghenion fy swydd yn ddigonol. Dwi ddim yn teimlo bod yr amser dwi wedi'i dreulio ar WEST wedi bod o fudd i mi. Hefyd, mae'n rhaid i mi ildio 2 ddiwrnod yn y*

> *gwaith i gwblhau arholiad llythrennedd digidol ar bynciau nad oes eu hangen arna' i ac nad oes gen i unrhyw ddiddordeb ynddynt.*

Roedd bron pob un o'r dysgwyr a oedd ag agweddau negyddol at gymwysterau SHC o'r farn bod asesu'r cymhwyster yn arwain at golli cymhelliant ac yn rhwystr rhag cyflawni eu fframweithiau. Roedd llawer o ddysgwyr o'r farn bod y prawf cadarnhau sydd ei angen ar gyfer Cymhwyso Rhif (yn benodol) a Chyfathrebu yn heriol iawn, i'r graddau ei fod yn ffactor anghymhellol yn eu dysgu, yn enwedig os oedd angen iddynt ailsefyll y prawf nifer o weithiau. Dywedodd llawer ohonynt eu bod o'r farn nad oedd gan y prawf fawr o gysylltiad â'u gweithle na'u defnydd o fedrau cyfathrebu neu rifedd yn eu bywydau go iawn. Roeddent o'r farn bod fformat 'generig' (h.y. heb fod mewn cyd-destun galwedigaethol) y prawf yn ei gwneud hi'n anodd cysylltu â'r medrau creiddiol roeddent wedi'u dysgu, neu drwy eu defnydd o fedrau yn eu cyd-destun gwaith. Roedd dysgwyr hefyd yn crybwyll bod y prawf yn rhy fyr (30 munud) ac nad oedd yn rhoi amser iddynt gwblhau holl elfennau'r prawf.

### Dysgwyr: rôl cymwysterau procsi

Roedd dysgwyr yn aml yn sôn am rôl cymwysterau 'procsi'. Mae'r rhain yn gymwysterau, fel TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, sy'n eithrio dysgwyr sydd wedi'u hennill rhag gorfod cwblhau cymwysterau SHC mewn Cyfathrebu neu Gymhwyso Rhif fel rhan o'u fframwaith.

Roedd ychydig o ddysgwyr – yn enwedig y rhai â chymwysterau lefel uwch neu brofiad proffesiynol ar lefel uchel – yn cwestiynu ystod y cymwysterau procsi a oedd yn berthnasol neu'n cyfeirio at y drafferth a gawsant wrth geisio cael tystysgrifau i brofi eu bod wedi ennill cymwysterau flynyddoedd lawer ynghynt. Er enghraifft, ni all dysgwyr sydd â chymwysterau cyfrifeg neu raddau Saesneg ddefnyddio'r rhain fel cymwysterau procsi ar gyfer Cymhwyso Rhif neu Gyfathrebu. Dywedodd dysgwyr:

> *Rydw i'n rheolwr ôl-raddedig (Gradd a TAR) sydd â bron i 30 mlynedd mewn cyflogaeth.*

> *Roeddwn i'n athro, mae gen i Radd Meistr a chymhwyster Safon Uwch mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (ond nid oeddwn yn gallu dod o hyd i'r tystysgrifau). Mae fy medrau llythrennedd yn gryfach na gofynion y fframwaith.*

> *Fe wnes i'r cymwysterau sgiliau hanfodol flynyddoedd yn ôl ond dwi ddim yn gallu dod o hyd i'r tystysgrifau, felly mae'n rhaid i mi eu gwneud nhw eto. Dwi'n ei gweld yn ddiddiben ac nid oes unrhyw gysylltiad â'r cwrs dwi arno.*

Yn benodol, roedd dysgwyr yn cyfeirio at y ffaith nad yw fframweithiau sy'n gofyn am gymhwyster SHC mewn Llythrennedd Digidol yn caniatáu unrhyw gymwysterau procsi. Er enghraifft, ni all dysgwyr sydd â chymwysterau digidol ar lefel TGAU neu Safon Uwch neu radd sy'n gysylltiedig â TG hawlio procsi ar gyfer cymhwyster Llythrennedd Digidol SHC, felly mae'n rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster SHC llawn i gyflawni eu fframwaith. Mynegodd dysgwyr rwystredigaeth, yn enwedig y rhai a oedd eisoes â chymwysterau digidol neu brofiad ar lefel uchel:

*Dwi wedi bod yn defnyddio pecynnau TG er 2006. Mae gen i brofiad ar ymhell dros 20 o gronfeydd data pwrpasol, felly rwy'n anghytuno â chael hyn fel elfen orfodol o'm cwrs gan fod gen i fedrau digidol lefel uchel yn barod.*

*Dwi'n gweithio gyda thechnoleg drwy'r dydd fel rhan o'm swydd – mae gofyn i mi ddangos sut i chwilio ar Google neu greu cyflwyniad PowerPoint yn sylfaenol iawn ac yn wastraff diwrnod llawn. Dylai fod meini prawf i hepgor dysgwyr o'r sgil hanfodol hwn.*

*Dwi'n [weithiwr proffesiynol TG profiadol]. Roedd bod yn ofynnol i fynychu cwrs llythrennedd digidol hir yn wastraff gwirion ac annifyr o adnoddau.*

### Dysgwyr: astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn enwedig mewn rhannau o Gymru lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredin, roedd dysgwyr yn cyflawni elfennau anffurfiol o'u dysgu yn Gymraeg ac yn siarad Cymraeg â'u cyfoedion a thiwtoriaid. Fodd bynnag, cyfran fach yn unig o brentisiaid sy'n ymgymryd â chymwysterau SHC fel rhan o'u prentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd y dysgwyr y siaradom â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn a oedd yn ymgymryd ag unrhyw rai o gymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn dangos ymrwymiad diwylliannol cryf i'r Gymraeg. Yn ogystal â'u hymrwymiad diwylliannol, roedd y dysgwyr hyn yn gwerthfawrogi eu defnydd o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, wrth gyfathrebu â chleientiaid a chydweithwyr ac wrth ehangu eu cyfleoedd gyrfa ac am ddyrchafiad yn y dyfodol. Roedd ychydig o ddysgwyr hefyd yn cyfeirio at gynnal parhad ieithyddol â'u dysgu blaenorol yn yr ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio terminoleg fathemategol yn y Gymraeg.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cofio, yn ystod eu cyfnod ymsefydlu ar eu rhaglen brentisiaeth, cael cynnig y cyfle i ymgymryd â'u cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd dysgwyr Cymraeg eu hiaith a oedd wedi gwrthod y cynnig hwn at amryw resymau dros wneud hynny, gan gynnwys:

- amgyffrediad bod asesiad ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy heriol iddynt
- y diffyg cymharol o adnoddau dysgu Cymraeg sydd ar gael iddynt
- awydd i aros gyda chyfoedion mewn dosbarth neu grŵp Saesneg
- amgyffrediad bod rhwystrau gweinyddol rhag ymgymryd â chymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr angen am aseswr Cymraeg ei iaith ar wahân
- amgyffrediad y byddai ymgymryd â'u cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn ychwanegu elfen o gymhlethdod at eu hastudiaethau – a fynegwyd yn aml fel awydd i 'gadw pethau'n syml'.

### Dysgwyr: lles a rhwystrau rhag ennill cymwysterau SHC

Soniodd ychydig o ddysgwyr yn yr holiadur ar-lein ac yn ystod ein hymweliadau â darparwyr, fel ei gilydd, am effaith y gofyniad i ymgymryd â chymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith prentisiaeth ar eu lles. Mae'n werth nodi mai dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau SHC mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu yw'r rhai na

lwyddodd i ennill y cymwysterau procsi (TGAU mewn Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, fel arfer) a fyddai'n eu heithrio rhag gorfod ymgymryd â'r cymwysterau SHC hynny yn ystod eu prentisiaeth yn yr ysgol, fel arfer. Felly, mae'r grŵp o ddysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau SHC yn grŵp nad ydynt efallai wedi cael profiadau cadarnhaol o ddysgu'r pynciau hyn yn yr ysgol.

Roedd y dysgwyr hynny a fynegodd bryderon am effaith astudio medrau hanfodol yn aml yn cyfeirio at yr amser roedd rhaid iddynt ei ymrwymo i ennill cymwysterau SHC, a oedd yn anghymesur, yn eu barn nhw. Yn benodol, roedd dysgwyr yn cyfeirio at yr amser sydd ei angen i gwblhau'r tasgau asesedig dan reolaeth, a oedd yn mynnu cyfnodau o amser i ffwrdd o'u gweithle. Er bod llawer o ddysgwyr yn crybwyll bod eu cyflogwyr yn gefnogol ohonynt yn cymryd amser i ffwrdd o'u gweithleoedd i ymgymryd ag asesiadau tasgau dan reolaeth, dywedodd ychydig ohonynt fod rhaid iddynt gymryd yr amser fel gwyliau. Ni fyddai hyn yn cyd-fynd â'r cytundebau prentisiaeth y mae cyflogwyr yn eu llofnodi â darparwyr, sy'n nodi y caiff dysgwyr eu cefnogi i gyflawni gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'u prentisiaeth.

Crybwyllodd ychydig o ddysgwyr eu bod yn colli cymhelliant a hyder trwy fethu prawf cadarnhau ar-lein yr asesiad SHC dro ar ôl tro. Gall dysgwyr ailadrodd y profion gymaint o weithio ag sydd eu hangen nes iddynt lwyddo. Yn aml, roedd y dysgwyr hyn yn disgrifio'r prawf fel rhwystr sylweddol rhag cwblhau'r fframwaith a bod paratoi a sefyll y profion yn elfen o'u hastudiaethau a oedd yn achosi straen sylweddol:

> *Dwi erioed wedi bod yn dda ag arholiadau. Dyna'n rhannol pam y dechreuais i brentisiaeth – oherwydd eu bod wedi'u seilio ar aseiniadau.*

Roedd y dysgwyr a gyfeiriodd at y prawf cadarnhau ar-lein ar gyfer Cymhwyso Rhif fel rhwystr fel arfer yn crybwyll y pwysau amser yn y prawf ei hun (gormod o gwestiynau ar gyfer yr amser a oedd ar gael), diffyg perthnasedd y prawf i'w defnydd galwedigaethol o fathemateg (gan gynnwys y ffaith nad oedd y prawf yn caniatáu defnyddio cyfrifiannell) a thrafferth 'datgodio'r' iaith:

> *Dwi ddim yn hoffi ochr fathemateg fy medrau hanfodol gan nad ydw i'n deall y rhan fwyaf o'r cwestiynau a dwi'n cael trafferth ceisio deall beth mae'r cwestiwn yn ei ofyn i mi.*

## Cyflogwyr

Ymatebodd 247 o gyflogwyr i'n holiadur ar-lein. Siaradom â nifer fach o gyflogwyr yn ystod ein hymweliadau â dysgwyr ar eu hyfforddiant yn y gwaith hefyd. Ar y cyfan, roedd cyflogwyr yn gefnogol o'r syniad o ddysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Roeddent yn gyffredinol gadarnhaol am y cymorth a'r cyfathrebu a gynigiwyd gan aseswyr eu prentisiaid. Roedd cyflogwyr yn fwy rhanedig ynghylch y cydbwysedd amser yr oedd ei angen ar brentisiaid i ymgymryd ag elfen SHC eu fframwaith a'r aflonyddwch roedd hyn yn ei achosi i fusnesau cyflogwyr.

Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr yn cefnogi pwysigrwydd medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Roedd 78% o gyflogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol cryf yn bwysig yn rolau gwaith eu prentisiaid. Roedd

ychydig yn llai (62%) ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu prentisiaid wedi gwella'r medrau hyn yn ystod eu prentisiaethau, ac roedd 58% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu prentisiaid wedi'u cymell i wneud hynny.

Fe wnaethom holi cyflogwyr am eu hamgyffrediadau o werth cymwysterau SHC mewn prentisiaethau. Ar y cyfan, roedd cyflogwyr yn gefnogol o gymwysterau SHC, er bod rhai amheuon ynghylch y cydbwysedd o ran amser ac ymdrech sydd ei angen i gwblhau cymwysterau SHC a dysgu galwedigaethol prentisiaid. At ei gilydd, roedd 70% o gyflogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod ymgymryd â chymwysterau SHC yn ffordd dda i asesu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol eu prentisiaid. Roedd llai ohonynt (62%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod ymgymryd â chymwysterau SHC yn helpu dysgwyr i wella yn eu rolau gwaith. Roedd 51% o gyflogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cydbwysedd yn y fframwaith prentisiaeth rhwng datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol a datblygu medrau galwedigaethol yn briodol, fwy neu lai. Thema gyffredin mewn sylwadau ymatebwyr ar y cwestiwn hwn oedd nad oedd cydbwysedd yr amser sy'n cael ei dreulio ar yr elfen SHC yn briodol:

> *Dwi wedi gweld bod gormod o ffocws ar ddatblygu'r medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffordd nad yw'n gysylltiedig o gwbl â'r ffordd y byddent yn eu defnyddio yn eu rolau gwaith ac felly mae'n gallu achosi i'r prentis golli cymhelliant. Pe bydden nhw'n fwy cysylltiedig â sut y bydden nhw'n cael eu defnyddio yn eu rolau, dwi'n teimlo y bydden nhw'n fwy buddiol.*
>
> *Mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn cyflawni'r tasgau yn anodd i brentisiaid a busnesau – mae angen ymwreiddio hyn yn fwy naturiol yng nghwrs cyffredinol y dysgwr.*

Crybwyllodd eraill y gall cymwysterau SHC fod yn frawychus neu achosi straen a phryder:

> *Rwy'n teimlo bod medrau hanfodol mewn rhifedd, llythrennedd a digidol yn ormod. Maen nhw'n frawychus i ymgeiswyr, yn enwedig y rhai nad ydynt yn dod yn syth o'r ysgol, rydym yn eu hannog i ymgymryd â chymhwyster am y tro cyntaf ers gadael yr ysgol, a all fod yn ddigon brawychus heb y medrau hanfodol ar ben hynny.*
>
> *Mae SHCau yn rhoi mwy o bwysau a phryder ar y rhai nad oes ganddynt hyder yn eu galluoedd*.

Fe wnaethom holi cyflogwyr am y rhyngweithiadau a gawsant ag aseswyr prentisiaid mewn perthynas â chymwysterau SHC. Yn gyffredinol, roeddent yn gadarnhaol ynghylch rôl aseswyr o ran cefnogi eu prentisiaid. Roedd 69% o gyflogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu haseswyr yn rhoi darlun clir iddynt o ba mor dda roedd prentisiaid yn ei wneud o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Roedd 74% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y darparwr yn cefnogi prentisiaid i ddatblygu'r medrau hyn yn dda.

Pan ofynnwyd iddynt nodi i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'Mae'r amser sydd ei angen ar gyfer y dasg asesedig ar gyfer cymwysterau SHC yn tarfu ar fy musnes', roedd y safbwyntiau wedi'u rhannu'n lled

gyfartal rhwng yr ymatebwyr. Roedd 33% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn, 37% o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 31% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. O'r rhai a oedd yn teimlo bod cwblhau cymwysterau SHC yn tarfu ar eu busnes, thema gyffredin oedd yr her o reoli llwyth gwaith prentisiaid a'r amser sydd ei angen i gwblhau asesiadau SHC:

> *Mae'r [asesiadau] SHC yn cymryd gormod o sesiynau mewn wythnos ac mae'n anodd iawn sicrhau bod staff yn cael yr amser hwn i ffwrdd gan fod angen iddynt ei wneud yn eu hamser eu hunain. Mewn gweithlu sydd eisoes yn brin a phan mae staff yn gweithio yn ystod y dydd, yn ogystal â gyda'r nos, mae'n anodd iawn rheoli hyn, yn enwedig gan fod staff yn colli eu diwrnodau haeddiannol i ffwrdd wrth wneud hyn.*

Roedd hefyd yn gyffredin i ymatebwyr awgrymu y gall y gofyniad i gwblhau cymwysterau SHC arwain at ddysgwyr yn ymadael â'u prentisiaethau, mewn rhai achosion:

> *Dwi'n teimlo nad yw rhai dysgwyr mor hyderus â rhai eraill a gallai hyn eu hatal rhag dilyn cyrsiau. Yn wir, mae gen i weithiwr sydd wedi penderfynu peidio â pharhau am y tro oherwydd y Sgiliau Hanfodol.*

> *Erbyn hyn, mae'r cydbwysedd rhwng dysgu yn y gwaith ac arholiadau wedi'u seilio ar theori yn hollol anghywir. Yn gyffredinol, mae prentisiaid yn dewis y llwybr cymhwyster hwn oherwydd nad dysgu ac arholiadau wedi'u seilio ar theori oedd eu dull dysgu dewisol, ond eto mae'r cymwysterau hyn bellach wedi'u seilio'n drwm ar theori ac arholiadau yn hytrach na bod yn ymarferol. Mae hyn yn dod yn rhwystr go iawn rhag cael unigolion cymwysedig yn y diwydiant gofal plant ac rydym yn gweld pobl yn gadael y diwydiant cyn ennill eu cymhwyster oherwydd eu bod wedi dadrithio â'r broses gymhwyso, gan gredu na fyddant byth yn cymhwyso ac maent yn mynd i ddiwydiant gwahanol nad oes angen prentisiaeth ar ei gyfer am raddfa gyflog debyg. Fel cwmni, rydym wedi trafod y materion hyn gyda'n darparwr hyfforddiant yn y gobaith y bydd rhyw fath o newid yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl!*

### Tiwtoriaid ac aseswyr

Yn ystod ein hymweliadau â darparwyr fel rhan o'r astudiaeth hon, siaradom â thua 90 o diwtoriaid ac aseswyr, mewn grwpiau ffocws neu un-i-un, fel rhan o'n harsylwadau o addysgu a dysgu. Ymatebodd 242 o staff i'n holiadur ar-lein hefyd am eu profiad o gyflwyno cymwysterau SHC mewn prentisiaethau.

Yn ein sgyrsiau yn ystod ymweliadau ac o'n holiadur, roedd llawer o staff (80%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr yn rhan werthfawr o'u rôl.

Fodd bynnag, roedd staff yn llai cytûn ynghylch y graddau yr oedd diffygion o ran medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn dal dysgwyr yn ôl yn eu dysgu (roedd 61% yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf) neu yn eu rolau gwaith (roedd 48% yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf). Roedd rhai'n teimlo bod cymwysterau SHC yn berthnasol iawn a rhai'n teimlo nad oeddent yn berthnasol o gwbl:

> *Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu'n fawr ar rôl y swydd, ond mewn rhai meysydd, er enghraifft garddwriaeth, amaethyddiaeth a lletygarwch, nid yw'r medrau hyn yn hanfodol ar y lefelau y cânt eu hasesu ar hyn o bryd. Mae'r gallu i wneud y gwaith dan sylw ac ymgysylltu â'u cwsmeriaid yn fwy hanfodol.*

> *Mewn rhai sectorau, mae gan fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol rôl hollbwysig mewn dyrchafiad mewn swyddi.*

> *Dwi'n cytuno'n llwyr y dylai fod lefelau penodol o gymhwysedd, ond dylai'r cynnwys fod yn benodol i'r sector ar gyfer y tasgau yn hytrach na bod ar hap. Pe byddai modd eu cwblhau a gwneud cynnydd ym mhrif gorff y cymhwyster (e.e. [mewn cyd-destun gofal plant] cynllunio ar gyfer parti Nadolig i'r plant, cynnal trafodaeth ar adolygu polisi ar gyfer y lleoliad gofal plant neu ddylunio taflen i'w dosbarthu i rieni am ddigwyddiad sydd ar ddod), byddai hyn yn gwneud y dasg o'u cwblhau yn llai brawychus ac yn fwy perthnasol i ddysgu.*

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn awgrymu y gall SHC atal dysgwyr rhag cwblhau eu cymhwyster cyffredinol:

> *Nid yw'r ffordd y mae medrau hanfodol yn cael eu cyflwyno yn briodol i'w fframwaith na'u rôl yn y gwaith, felly nid ydynt o lawer o fudd iddynt. Yn aml, mae dysgwyr yn llwyddo yn eu cymwysterau technegol yn rhwydd ac yn cael eu dal yn ôl gan fedrau hanfodol.*

> *Weithiau, mae'r medrau hanfodol yn dal dysgwyr yn ôl gan eu bod [y dysgwyr] ar lefel is na'r angen. Maent yn cael eu llethu gan fedrau hanfodol ac yn aml yn gadael y cwrs heb gwblhau eu cymhwyster oherwydd y SHCau.*

Fe wnaethom holi staff am eu hamgyffrediadau ynghylch a yw dysgwyr yn gwerthfawrogi cymwysterau SHC ac a ydynt wedi'u cymell yn dda i wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Yn ystod ein hymweliadau ac yn yr holiadur ar-lein, cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiynau hyn gan staff cyflwyno. Pan ofynnwyd iddynt am sylwadau, roedd staff yn aml yn holi a oedd strwythur y cymhwyster a'i asesiad yn briodol ar gyfer prentisiaid dysgu yn y gwaith:

> *Dwi'n credu bod y system yn canolbwyntio gormod ar eu paratoi i gwblhau tasgau a phrofion dan reolaeth ar hyn o bryd. Dylid ei hymgorffori yn yr NVQ [Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – elfen y cymhwyster galwedigaethol o fframwaith y prentis] a'i chysylltu â'u galwedigaeth. Fel hynny, dwi'n credu y byddai gan ddysgwyr fwy o gymhelliant ac na fyddent yn teimlo fel eu bod nhw'n ôl yn yr ysgol.*

> *Nid yw'r asesiadau'n edrych ar fedrau sy'n cael eu defnyddio mewn amgylcheddau gwaith nac mewn bywyd bob dydd. Nid yw dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymwysterau gan nad ydynt yn deall arwyddocâd ennill y cymhwyster o gymharu ag ennill TGAU.*

Roedd hefyd yn gyffredin i ymatebwyr awgrymu bod dysgwyr o'r farn bod cymwysterau SHC yn 'ychwanegyn' neu'n anghyfleustra hyd yn oed:

*Wrth siarad o'm profiad fy hun, er gwaethaf sut rwy'n ei fframio, mae gan ddysgwyr ddiddordeb yn eu NVQ craidd, fel arfer, ac mae medrau hanfodol yn cael eu hystyried fel 'ychwanegiad', yn gyffredinol.*

Roedd dod o hyd i'r amser ar gyfer gofynion cymwysterau SHC yn fater cyffredin a godwyd, sy'n effeithio ar ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd:

*Mae'n ofynnol i ddysgwyr gymryd amser sylweddol i ffwrdd o'r gweithle ar gyfer gweithgareddau uwchsgilio ac asesu, a all fod yn her mewn sectorau fel iechyd a gofal cymdeithas, a gofal plant.*

*Mae angen i ni ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr ac mae'r SHCau yn ffordd wych o wneud hynny mewn dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, nid yw ffurf bresennol yr asesiadau yn addas i'r diben mewn dysgu yn y gwaith. Maent yn cymryd gormod o amser i'w cwblhau ac mae hyn yn rhwystr i ddysgwyr a chyflogwyr.*

Roedd mwyafrif y staff yn gadarnhaol ynghylch defnydd a defnyddioldeb asesiad cychwynnol a phecyn cymorth WEST ac am y ffaith y gallant fanteisio ar adnoddau defnyddiol i'w helpu i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt ddigon o amser i gynorthwyo dysgwyr â'u cymwysterau SHC, roedd barn yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n dri, yn fras, gyda thraean ohonynt yn cytuno'n gyffredinol, traean ohonynt yn anghytuno a thraean ohonynt ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mewn sylwadau, nododd ymatebwyr yr her o sicrhau amser ar gyfer addysgu a dysgu cymwysterau SHC ochr yn ochr ag ystod o gynnwys arall, wrth arwain dysgwyr trwy elfen alwedigaethol eu fframwaith ar yr un pryd:

*Wrth i'r disgwyliad o ran cyflwyno a'r ansawdd i'w nodi mewn adolygiadau gynyddu, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol Cymru [a phynciau 'ychwanegol' eraill], mae'r amser cyfyngedig sydd gennym i gynnig cymorth un-i-un yn peryglu ansawdd prif gorff y cymhwyster. A bod yn gwbl onest, mae'r ffaith bod rhaid i ni ymgorffori'r holl themâu allweddol ychwanegol hyn yn tynnu amser o'r pwnc rydym yn ceisio ei addysgu, ei gefnogi a'i ddatblygu mewn gwirionedd – sef arfer a gwybodaeth am y sector blynyddoedd cynnar.*

Fe wnaethom holi staff am eu hyder, gallu a'u hyfforddiant i gynorthwyo dysgwyr â'u cymwysterau SHC. Yn ein holiadur, crybwyllodd llawer o staff eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i gynorthwyo dysgwyr ac nad oedd eu medrau personol eu hunain yn rhwystr rhag cyflwyno'n effeithiol. Teimlai'r mwyafrif ohonynt eu bod wedi cael hyfforddiant da ar sut i gynorthwyo dysgwyr â'u medrau hanfodol. Fodd bynnag, yn ein sgyrsiau wyneb-yn-wyneb, roedd llawer ohonynt yn cydnabod y byddent yn elwa ar ragor o hyfforddiant. Yn ein holiadur ac yn ystod ein hymweliadau, soniodd staff am werth cael cydweithwyr sy'n 'arbenigwyr medrau hanfodol' y gallent droi atynt am gyngor a chymorth.

Gofynnom i staff nodi beth oedd y rhwystrau mwyaf arwyddocaol rhag dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau SHC, yn eu barn nhw. Yn ogystal â'r ffactorau a grybwyllwyd eisoes, nododd staff faint yr her i ddysgwyr nad oeddent wedi mwynhau dysgu Cymraeg neu Saesneg ac – yn benodol – mathemateg yn yr ysgol:

*Dwi wedi cael dysgwyr yn ystyried gadael y cymhwyster cyfan oherwydd nerfau wrth sefyll beth maen nhw'n ei ystyried yn arholiadau, oherwydd profiadau gwael yn yr ysgol neu bryder mewn sefyllfaoedd prawf. Mae wedi cymryd llawer o amser, amynedd ac arweiniad i'w hannog i barhau â'r cymhwyster cyffredinol â'm cefnogaeth i a'r aseswyr SHC. Fodd bynnag, i ychwanegu at hyn, pan fyddant yn llwyddo, mae'n braf gweld eu hyder yn gwella.*

*Mae profiadau gwael iawn yn yr ysgol yn rhwystr i ddysgwyr ac mae'r cymwysterau SHC yn 'debyg iawn i'r ysgol' o ran eu cynllun.*

*Mae ofn, yn enwedig o fathemateg, yn rhwystr enfawr rhag dysgwyr yn ymgysylltu â Chymhwyso Rhif.*

*Mae dysgwyr a dreuliodd 10+ mlynedd yn yr ysgol ac a oedd yn cael trafferth gyda mathemateg, er enghraifft, yn cael llai na 12 mis gyda ni i wneud Cymhwyso Rhif. Gadawodd llawer ohonynt yr ysgol dros 10 mlynedd yn ôl hefyd, felly mae hyn yn eu rhoi dan straen ac yn codi braw arnynt.*

Mynegodd rai eraill bryderon am addasrwydd cymwysterau SHC ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY):

*Mae dysgwyr sydd wedi datgan ADY yn cael... amser ychwanegol a/neu seibiannau gorffwys. Mae hyn yn helpu o ran darllen ond nid ar gyfer y cyfrifiadau gwirioneddol na datrys problemau rhifyddol. Mae gan lawer o'n dysgwyr fedrau meddwl araf ac mae hyn yn effeithio'n fawr arnynt mewn rhai o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn mewn prawf Cymhwyso Rhif lefel 2.*

*Mae yna rai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n hŷn ac nad ydynt wedi cael asesiad ers blynyddoedd lawer, felly nid oes ganddynt unrhyw dystiolaeth i gefnogi trefniadau arbennig ar gyfer asesiadau. Mae cwblhau'r Sgiliau Hanfodol yn rhwystr enfawr iddynt. Yn aml, nid oes ganddynt brawf o anabledd. Yna, mae llawer ohonynt eisiau rhoi cynnig ar eu cwblhau heb drefniadau arbennig, sy'n achosi straen a phryder ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i gael trafferth â'r Sgiliau Hanfodol ymhell ar ôl cwblhau eu prif ddyfarniad, gan mai dyma'r rhan anoddaf iddynt.*

## (4) Ymsefydlu a chyngor ac arweiniad cychwynnol

Mae cyswllt cyntaf dysgwyr â’i ddarparwr hyfforddiant yn gyfle pwysig i ddarparwyr egluro strwythur, cynnwys a lefel y galw ar gyfer eu rhaglen brentisiaeth a sicrhau bod dysgwyr yn deall yr hyn y maent yn cofrestru ar ei gyfer. Dylai cyngor ac arweiniad cychwynnol a phrosesau ymsefydlu sicrhau bod dysgwyr yn deall pa gymwysterau SHC y mae angen iddynt eu cwblhau ar gyfer eu fframwaith ac erbyn pryd.

Mae gan bob darparwr brosesau i roi cyngor ac arweiniad cychwynnol i ddysgwyr a’u hymsefydlu yn eu rhaglenni prentisiaeth. Mewn rhai darparwyr, caiff y broses ymsefydlu ar gyfer pob prentis – beth bynnag fo’u llwybr galwedigaethol – ei gynnal gan dîm ymsefydlu arbenigol. Mewn rhai eraill, mae’r broses ymsefydlu yn benodol i’r llwybr ac yn cael ei gynnal gan aseswyr galwedigaethol o’r llwybr hwnnw.

Mewn prosesau ymsefydlu effeithiol, caiff unrhyw ddeilliannau o’r broses ymsefydlu (er enghraifft gwybodaeth o asesiadau cychwynnol dysgwyr neu ddewisiadau ynghylch asesu trwy gyfrwng y Gymraeg) eu cyfleu’n glir rhwng y rhai sy’n cynnal y broses ymsefydlu a’r rhai sy’n gyfrifol am weithio gyda dysgwyr ar eu rhaglenni galwedigaethol a SHC.

Ym mron pob un o’r darparwyr, mae’r broses ymsefydlu yn cynnwys asesiad cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST), sy’n rhoi syniad o lefelau cychwynnol dysgwyr o ran Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, a’u cryfderau a’u meysydd i’w gwella (gweler y rhan o’r adroddiad hwn ar Addysgu a Dysgu am drafodaeth bellach am WEST).

Yn ein sgyrsiau â dysgwyr, roedd bron pob un ohonynt yn cofio cael cyfnod ymsefydlu, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a defnyddiol am eu prentisiaeth a’r elfen Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, roeddent yn aml yn disgrifio eu hatgofion o’r cyfnod ymsefydlu fel braidd yn ‘niwlog’ oherwydd faint o wybodaeth roedd angen iddynt ei chofio ac anghynefindra anochel y sefyllfa. Mewn rhai achosion, crybwyllodd dysgwyr nad oeddent yn ymwybodol o ddiben asesiad cychwynnol WEST ac felly nad oeddent wedi gwneud eu hymdrech lawn. Dywedodd ychydig iawn o ddysgwyr eu bod wedi gadael eu cyfnod ymsefydlu â’r camsyniad mai asesiad cychwynnol WEST oedd eu hasesiad crynodol SHC a’u bod, mewn gwirionedd, wedi cwblhau elfen SHC eu fframwaith.

Ar y cyfan, soniodd dysgwyr fod y cyfnod ymsefydlu yn gyfle defnyddiol i ddysgu am elfen SHC eu fframwaith ond, erbyn y diwedd, nad oeddent yn wir yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cymwysterau SHC o ran cyflawni eu fframwaith na’r ymrwymiad amser a fyddai’n ofynnol i’w cwblhau. Lle mae’n fwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn deall y manteision posibl – yn ogystal â chwblhau eu fframweithiau yn unig – y gallai gwella eu medrau hanfodol eu dwyn i’w hastudiaethau prentisiaeth, eu galluoedd yn y gwaith a’u bywydau ehangach.

Mae darparwyr yn defnyddio’r cyfnod ymsefydlu i gofnodi a chael tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau procsi dysgwyr. Mae gan bob darparwr brosesau

effeithiol ar gyfer gwneud hyn. Mae tystysgrifau ar gyfer cymwysterau procsi yn cael eu casglu cyn gynted â phosibl ar raglenni dysgwyr er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd dysgwyr yn colli tystysgrifau ar gyfer cymwysterau roeddent wedi'u hennill yn yr ysgol, a lleihau'r posibilrwydd y bydd yn rhaid i ddysgwyr gwblhau cymwysterau SHC roeddent yn credu bod ganddynt gymwysterau procsi ar eu cyfer yn wreiddiol. Fodd bynnag, nododd dysgwyr a darparwyr ei fod yn bosibl nad oedd dysgwyr, yn enwedig y rhai a adawodd yr ysgol sawl blwyddyn yn ôl, yn gallu cael eu tystysgrifau mwyach. Rhaid i'r dysgwyr hyn naill ai fynd drwy'r broses o gael dyblygebau (nad yw'n ymarferol, yn aml) neu ymgymryd â chymwysterau SHC na ddylai fod eu hangen arnynt.

Mae prosesau sefydlu effeithiol yn ystyried y llwybrau dilyniant posibl sydd ar gael i ddysgwyr. Caiff dysgwyr eu herio i ennill cymwysterau SHC ar lefel uwch nag sydd ei hangen ar gyfer eu fframwaith, lle mae hyn yn ddefnyddiol o ran ymestyn galluoedd dysgwyr a gwella eu dilyniant i brentisiaethau pellach dilynol.

Mae'r holl ddarparwyr yn defnyddio'r broses ymsefydlu i gynnig cyfle i ddysgwyr astudio a chwblhau elfennau o'u prentisiaeth neu gymwysterau SHC yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ledled Cymru, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n achub ar y cyfle hwn. Amlinellom rai o'r rhesymau pam y mae dysgwyr yn dewis peidio ag ymgymryd ag asesiadau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Yn y partneriaethau mwyaf effeithiol, caiff cyfleoedd ystyrlon eu cynnig i ddysgwyr astudio a chwblhau eu cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'n bosibl staffio hyn, caiff cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth neu weithio ar y cyd â darparwyr eraill eu harchwilio a'u manteisio arnynt.

Yn aml, ymsefydlu yw'r cyfle cyntaf sydd gan ddarparwr i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan ddysgwr, neu ofynion ar gyfer addasiadau i asesiadau. Mewn prosesau effeithiol, caiff dysgwyr eu hatgyfeirio'n brydlon i'r staff priodol er mwyn gwerthuso unrhyw anghenion dysgu ychwanegol neu addasiadau. Caiff cymorth ei roi ar waith a rhoddir arweiniad i staff cyflwyno.

Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, mae cyfnewid gwybodaeth rhwng y darparwr a'r dysgwyr yn ystod y cyfnod ymsefydlu yn cael ei ailystyried o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth briodol am ddewisiadau eu rhaglen a bod staff cyflwyno yn gallu cefnogi eu dysgwyr orau.

# (5) Addysgu a dysgu sgiliau hanfodol mewn prentisiaethau

Y neges gan ddysgwyr trwy gydol yr adolygiad hwn yw eu bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ar gyfer eu rolau swydd a'u bywydau ehangach, ond bod yn llawer gwell ganddynt ddysgu, ymarfer a datblygu'r medrau hyn trwy eu cyd-destun galwedigaethol, ac yn gwerthfawrogi hyn. Mae darparwyr a chyflogwyr yn deall hyn ac wedi atgyfnerthu'r un neges i ni yn ein sgyrsiau â nhw. Mae hyn yn creu cyfyng-gyngor i ddarparwyr: sut orau i ddatblygu medrau dysgwyr yn y meysydd hyn, gan elwa ar ffafriaeth glir dysgwyr dros ddysgu mewn cyd-destun, tra'n eu paratoi ar yr un pryd ar gyfer model asesu sy'n generig i raddau helaeth, ac yn gofyn i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt yn aml yn gysylltiedig â'u cefndir galwedigaethol.

Canfuom fod amrywiaeth o fodelau cyflwyno yn cael eu defnyddio, wedi'u nodweddu gan wahaniaethau mewn ymagwedd at y canlynol: cyflwyno yn y gwaith neu i ffwrdd o'r gwaith, defnyddio tiwtoriaid 'arbenigol' Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC), y graddau y mae cynnwys y dysgu wedi'i seilio ar ddeilliannau asesiadau cychwynnol dysgwyr a'r graddau y mae dysgwyr yn dysgu, yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau trwy eu cyd-destun galwedigaethol.

Er bod gwahaniaethau mewn deilliannau cwblhau fframweithiau rhwng darparwyr, a rhwng gwahanol lwybrau galwedigaethol, nid oeddem yn gallu priodoli'r gwahaniaethau hyn i wahanol ymagweddau at gyflwyno sgiliau hanfodol neu i'r gwahanol fodelau cyflwyno a ddefnyddir. Mae gan yr holl ddarparwyr fodelau ar gyfer cynorthwyo dysgwyr trwy eu cymwysterau SHC. Fodd bynnag, fel y dangosir isod a'r tabl yn yr Atodiad, mae manteision ac anfanteision i bob model, yr ydym yn eu harchwilio yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Dywedodd darparwyr eu bod nhw erbyn hyn yn dychwelyd i sefydlogrwydd ar ôl y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Dywedodd yr holl ddarparwyr fod ailwerthuso ac addasu eu modelau cyflwyno ar ôl y cyfnod o darfu a achoswyd gan y pandemig yn cymharu â'r modd yr oeddent yn cyflwyno cymwysterau SHC cyn y pandemig. Yn benodol, cynigiodd bron pob un o'r darparwyr gyflwyno rhywfaint o ddeunydd, o leiaf, trwy ddulliau ar-lein neu ddulliau cyfunol.

## Nodweddu ystod y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio

Rydym yn nodweddu'r prif fodelau sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru, isod. Defnyddir sbectrwm o fodelau cyflwyno, sy'n amrywio o gyflwyno i ffwrdd o'r gwaith gan diwtoriaid y nodwyd eu bod yn 'arbenigwyr sgiliau hanfodol' yn addysgu dosbarthiadau cyfan gan ddefnyddio dull generig (h.y. ddim yn rhoi dysgu yn ei gyd-destun ar gyfer grŵp galwedigaethol penodol), i gyflwyno yn y gwaith gan aseswyr galwedigaethol arbenigol (h.y. ddim yn arbenigwyr sgiliau hanfodol). Fel y nodwyd uchod, nid oeddem yn gallu priodoli gwahaniaethau mewn cwblhau fframweithiau i ddefnyddio unrhyw fodel penodol – roedd deilliannau darparwyr sy'n defnyddio gwahanol fodelau yn debyg, at ei gilydd.

Mae pob un o'r modelau yn cynnig manteision ac anfanteision. Mae Modelau 1 i 5 yn ymwneud â chyflwyno wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau SHC. Mae Model 6 yn ymwneud â chyflwyno sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr nad oes angen iddynt ennill cymwysterau SHC ar gyfer eu fframwaith (oherwydd bod ganddynt eisoes gymwysterau procsi neu gymwysterau SHC nad ydynt wedi'u nodi ar gyfer y fframwaith hwnnw) ond sydd, serch hynny, yn 'uwchsgilio' i wella'u medrau.

Mae darparwyr arweiniol yn gweithio gyda nifer o ddarparwyr eraill, mewn trefniadau partneriaeth neu is-gontractio. Mae nifer o bartneriaid darparwyr neu is-gontractwyr yn amrywio, o bedwar partner neu is-gontractwr mewn rhai darparwyr arweiniol i fwy na deg mewn rhai eraill. Yn nodweddiadol, o fewn darpariaeth unrhyw ddarparwr arweiniol, gallai partneriaid ac is-gontractwyr ddefnyddio amrywiaeth o'r gwahanol fodelau a nodir isod. Canfuom, er enghraifft, mewn un darparwr â phedwar prif bartner, fod dau bartner yn defnyddio Model 1 a dau bartner yn defnyddio Model 5. Mewn gwahanol ddarparwr â phedwar partner, mae pob un o'r partneriaid yn defnyddio cyfuniad o Fodelau 3 a 4. Mewn darparwr â deuddeg partner, mae partneriaid yn defnyddio pob un o'r modelau (ac eithrio Model 2).

### Model 1 – Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn canolfan, 'dan berchenogaeth dysgu yn y gwaith'

Mae'r model hwn yn tueddu i gael ei ddefnyddio fwyaf gan ddarparwyr prentisiaethau mewn coleg, neu ddarparwyr hyfforddiant annibynnol sydd â'r gofod ystafelloedd dosbarth a'r staff addysgu angenrheidiol. Yn yr enghreifftiau mewn colegau a arsylwyd gennym, cangen dysgu yn y gwaith y coleg oedd yn 'perchnogi'r cyflwyno. Mae dysgwyr yn nodweddiadol yn mynychu sesiynau SHC wedi'u hamserlennu yn ystod cyfnodau rhyddhau am y diwrnod neu ryddhau mewn blociau. Fel arfer, caiff athrawon sy'n cyflwyno'r sesiynau eu diffinio fel arbenigwyr sgiliau hanfodol. Gellir addysgu dysgwyr mewn grwpiau yn seiliedig ar bwnc (e.e. dysgwyr masnachau adeiladu yn yr un grŵp) neu mewn grwpiau pwnc cymysg. Mae'r model hwn yn gymharol syml i'w reoli gan fod dysgwyr yn dilyn amserlen i fynychu dosbarthiadau mewn ffordd gonfensiynol, ac mae'n galluogi'r athro i ddilyn rhaglen astudio wedi'i chynllunio. Mae hefyd yn golygu y gellir trefnu amserlenni effeithlon ar gyfer athrawon arbenigol sgiliau hanfodol. Gall yr asesu (y prawf cadarnhau a'r dasg dan reolaeth) gael ei amserlennu a'i reoli'n gymharol syml. Caiff athrawon a dysgwyr fynediad at amgylcheddau dysgu ac adnoddau o ansawdd da.

Fodd bynnag, nid yw'r model hwn, yn enwedig lle mae darparwyr yn defnyddio grwpiau pwnc cymysg, yn addas ar gyfer cyflwyno cyd-destunol, ac felly nid yw dysgwyr yn dysgu'r medrau ategol mewn ffyrdd sy'n berthnasol yn alwedigaethol. Yn ein sgyrsiau â dysgwyr sy'n astudio cymwysterau SHC gan ddefnyddio'r model hwn, roeddent yn aml yn disgrifio'r broses ddysgu fel 'bod yn ôl yn yr ysgol eto' – rhywbeth na wnaethon nhw ei fwynhau. Hefyd, mynegodd dysgwyr rwystredigaeth fod gofyn iddynt fynychu dosbarthiadau SHC pan oeddent yn cael eu rhyddhau am ddiwrnod tra oedd eu cyfoedion a oedd eisoes wedi ennill cymwysterau SHC neu oedd â chymwysterau procsi mewn dosbarthiadau wedi'u hamserlennu a oedd yn cael eu dirnad yn fwy perthnasol i'w swydd a'u prentisiaeth:

*Rydym ni'n sownd fan hyn tra mae ein ffrindiau yn dysgu sgiliau gwaith coed newydd yn y gweithdy!*

Yn gyffredinol, mae'r ymagwedd hon yn defnyddio dulliau addysgu dosbarth cyfan, sy'n dilyn rhaglen astudio gynlluniedig. Er bod hyn yn golygu bod yr athro'n ymdrin â'r ystod lawn, neu ystod sylweddol, o leiaf, o gynnwys y cymhwyster, yn y sesiynau a arsylwyd gennym, nid oedd cryfderau a gwendidau unigol dysgwyr (eu 'proffil sbigog') yn cael eu hystyried mor gryf ag oeddent mewn modelau eraill, ar y cyfan. O ganlyniad, treuliodd dysgwyr amser yn ymdrin â meysydd yr oeddent yn eu hadnabod yn dda, neu nid oeddent yn ymdrin â meysydd eraill yr oeddent yn llai cryf ynddynt.

**Darparwr 1 – coleg AB mewn consortiwm mawr**

**Ein model cyflwyno**

Yn nodweddiadol, mae ein dysgwyr yn dod i'r coleg am gyfnod rhyddhau am y diwrnod o'u cyflogwyr am ddiwrnod yr wythnos. Mae dysgwyr sydd eisoes yn meddu ar gymwysterau SHC neu wedi'u heithrio trwy brocsi yn mynychu gweithdai a sesiynau wedi'u haddysgu i weithio ar eu medrau galwedigaethol a chyflawni elfennau technegol eu fframwaith. Mae dysgwyr sydd angen ennill cymwysterau SHC yn dilyn rhaglen debyg ond hefyd yn mynychu gweithdai sgiliau hanfodol am hanner diwrnod. Rydym yn ceisio amserlennu dysgwyr mewn grwpiau sy'n benodol i bwnc fel eu bod yn dysgu gyda'u cyfoedion o gefndiroedd galwedigaethol tebyg.

**Manteision i ni**

- Rydym yn defnyddio tiwtoriaid sgiliau hanfodol arbenigol sydd â chefndir cryf mewn sgiliau hanfodol a dealltwriaeth dda o'r addysgeg ar gyfer cyflwyno cymwysterau SHC. Mae tiwtoriaid fel arfer yn meddu ar gymhwyster TAR ac yn cael eu talu ar y gyfradd athro AB cymwys.
- Rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon trwy ddod â dysgwyr at ei gilydd i ddysgu mewn amgylcheddau ystafell ddosbarth o ansawdd uchel lle gallant elwa ar dechnoleg ddysgu a chymorth astudio da.
- Gallwn gynorthwyo dysgwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy amserlennu tiwtor sy'n siarad Cymraeg ar eu cyfer.

**Ein heriau**

- Weithiau, mae'r dysgwyr yn ei chael yn anodd gweld perthnasedd cymwysterau SHC, ac nid ydynt bob amser wedi'u cymell i astudio sgiliau hanfodol yn ystod eu cyfnod rhyddhau am y diwrnod.
- Nid yw dysgwyr bob amser mewn grwpiau pwnc na grwpiau galwedigaethol, felly gall fod yn anodd cyflwyno'r dysgu mewn ffyrdd sy'n berthnasol yn alwedigaethol i'r grŵp cyfan.
- Daw dysgwyr ag ystod eang o fannau cychwyn a phroffiliau sbigog. Mae hyn yn creu her i diwtoriaid wahaniaethu dysgu i weddu i anghenion pob un o'r dysgwyr yn eu dosbarth.

### Model 2 – Cyflwyno i ffwrdd o’r gwaith, mewn canolfan, ‘dan berchnogaeth AB’

Mae’r model hwn yn debyg i Fodel 1 ond yn wahanol gan fod y cyflwyno ‘dan berchnogaeth’ adrannau galwedigaethol addysg bellach coleg, yn hytrach na’r gangen dysgu yn y gwaith. Yn ein hymweliadau, ni welsom y model hwn yn cael ei ddefnyddio, mewn gwirionedd, ond dywedodd un darparwr y bu’n defnyddio’r model yn y gorffennol a’i fod wedi symud oddi wrth ei ddefnyddio yn ddiweddar oherwydd yr anhawster o ran cydlynu a monitro presenoldeb a chynnydd dysgwyr. Rydym yn ei gynnwys yn y categoreiddio hwn ar gyfer cyflawnder.

Mewn theori, mantais hyn yw bod prentisiaid yn cael eu grwpio ar gyfer addysgu SHC mewn grwpiau pwnc neu alwedigaethol gan ddefnyddio tiwtor (sydd efallai yn arbenigwr sgiliau hanfodol, neu efallai ddim) i ddarparu cyflwyno cyd-destunol. Yn yr achos hwn, roedd prosesau hunanwerthuso’r darparwr wedi nodi diffyg perchnogaeth o’r ddarpariaeth yn adrannau galwedigaethol addysg bellach y coleg. Roedd cydlynu gwael rhwng y rhain a changen dysgu yn y gwaith y coleg yn golygu nad oedd dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau SHC neu fod cwblhau cymwysterau SHC yn hwyr yn arafu cyfraddau cwblhau fframweithiau gan brentisiaid yn gyffredinol. Yn ddiweddarach, roedd y darparwr wedi newid ei ymagwedd at Fodel 1 ac wedi gweld gwelliant yn neilliannau dysgwyr.

### Model 3 – Cyflwyno i ffwrdd o’r gwaith ar ffurf arddull gweithdy ar gyfer Llythrennedd Digidol neu ddosbarthiadau meistr ar bynciau penodol

Caiff y model hwn ei ddefnyddio’n eang, ar draws yr ystod o ddarparwyr, fel arfer mewn cyfuniad â modelau cyflwyno eraill. Caiff ei ddefnyddio amlaf i gyflwyno cyrsiau dwys annibynnol undydd neu ddeuddydd ar gyfer Llythrennedd Digidol neu i ddarparu sesiynau atodol penodol i baratoi ar gyfer asesiad neu gyflwyno math o ddosbarth meistr ar gyfer grwpiau o ddysgwyr.

Mae darparwyr yn defnyddio eu canolfannau dysgu i gynnal y sesiynau hyn. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio lleoliadau cymunedol neu ystafelloedd wedi’u llogi ar draws eu hardal hefyd i leihau pellterau teithio ar gyfer dysgwyr. Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig gweithdai sy’n cael eu cyflwyno o bell, lle gall dysgwyr ymuno a rhyngweithio ar-lein.

Gallai darparwyr amserlennu sesiwn arddull gweithdy ar gyfer dysgwyr ar draws eu darpariaeth sydd efallai’n cael trafferth ag agwedd benodol ar sgil hanfodol, er mwyn iddynt allu cael cymorth mwy dwys. Mae darparwyr yn defnyddio’r sesiynau hyn hefyd ar gyfer sesiynau adolygu neu sesiynau paratoi ar gyfer arholiadau wrth i ddysgwyr agosáu at eu hasesiadau dan reolaeth neu brofion cadarnhau.

Hwn yw’r model mwyaf cyffredin ar gyfer cyflwyno cymhwyster SHC Llythrennedd Digidol lle bydd angen i bob un o’r dysgwyr y mae hyn yn rhan o’u fframwaith gwblhau asesiad y dasg dan reolaeth, oherwydd nad oes unrhyw gymwysterau procsi.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae darparwyr yn defnyddio dulliau gweithdy mewn ffordd gydlynus i ymateb i anghenion dysgwyr. Gall dulliau gweithdy fod yn ffordd effeithlon o baru dysgwyr a thiwtoriaid arbenigol ar gyfer elfennau penodol o ddysgu. Yn achos llythrennedd digidol, mae’r dull gweithdy mewn canolfan yn golygu bod dysgwyr yn cael defnyddio offer TG priodol a’r feddalwedd sydd ei hangen i gwblhau’r asesiad.

Er bod llawer o ddysgwyr y siaradom â nhw yn ystod ein hymweliadau yn gwerthfawrogi'r dull gweithdy fel ffordd o ffocysu eu dysgu a'u hasesu, roeddent hefyd yn aml yn sôn am yr amser a gymerir allan o'u gwaith arferol ac anghyfleustra teithio i'r gweithdy.

**Model 3 – Cyflwyno gweithdy gan arbenigwyr sgiliau hanfodol – darparwr hyfforddiant annibynnol**

**Ein model cyflwyno**

Caiff y rhan fwyaf o'n gwaith yn cyflwyno sgiliau hanfodol ei wneud gan ein haseswyr galwedigaethol mewn sesiynau yn y gwaith yng ngweithle'r dysgwr. Mae gennym ni dîm o diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol hefyd sy'n cyflwyno gweithdai deuddydd i baratoi dysgwyr ar gyfer eu hasesiadau dan reolaeth ar gyfer Llythrennedd Digidol. Cynhelir y rhain yn ein canolfan ddysgu. Rydym hefyd yn defnyddio neu'n llogi lleoliadau eraill ledled Cymru o bryd i'w gilydd i geisio lleihau'r pellter y mae angen i ddysgwyr ei deithio i fynychu. Mewn rhai o'n cyflogwyr mwy, rydym hefyd yn defnyddio ystafelloedd hyfforddi ar safle'r cyflogwr, os yw'r cyfleusterau TG yn briodol.

Mae ein harbenigwyr sgiliau hanfodol yn cynnal gweithdai ar-lein ar gyfer grwpiau o ddysgwyr i'w paratoi ar gyfer asesiadau ar-lein neu os yw ychydig o ddysgwyr yn cael trafferth â meysydd penodol (yn aml yn gysylltiedig â rhifedd).

Rydym hefyd yn defnyddio ein harbenigwyr sgiliau hanfodol i helpu â thasgau asesu lle gallai fod angen dod â grwpiau o ddysgwyr at ei gilydd (er enghraifft, mewn trafodaethau a chyflwyniadau ar gyfer Cyfathrebu).

**Manteision i ni**

- Mae gennym ni dîm o arbenigwyr sy'n deall gofynion gwybodaeth ac asesu cymwysterau SHC. Gallant gynnig cymorth arbenigol i ddysgwyr sydd ei angen fwyaf.
- Gallwn ddod â dysgwyr ar draws llwybrau galwedigaethol at ei gilydd i gwblhau tasgau ac asesiadau grŵp.
- Trwy gael gweithdai mewn gwahanol leoliadau ac ar-lein, rydym yn ceisio lleihau'r pellter y mae'n rhaid i ddysgwyr deithio a'r tarfu ar eu gwaith.

**Ein heriau ni**

- Er ein bod yn cynnig gweithdai mewn amrywiaeth o leoliadau, ac ar-lein, mae'n her i rai dysgwyr fynychu o hyd, ac i gyflogwyr ryddhau prentisiaid ar gyfer gweithdai deuddydd.
- Nid oes unrhyw gymwysterau procsi ar gyfer Llythrennedd Digidol ac mae dysgwyr yn dod ag ystod eang o fedrau digidol – mae rhai ohonynt yn hynod fedrus eisoes, ac mae gan rai ohonynt brofiad cyfyngedig iawn. Mae'n her anelu sesiynau ar y lefel gywir fel bod pob un o'r dysgwyr yn elwa ac yn gyfforddus â'r asesiad.

## Model 4 – Cyflwyno yn y gwaith gan arbenigwyr sgiliau hanfodol

Yn y model hwn, mae tiwtor sgiliau hanfodol arbenigol yn ymweld â dysgwyr yn eu gweithle. Cynhelir y sesiynau hyn yn aml hefyd trwy gyfarfodydd un-i-un ar-lein. Bron ym mhob un o'r darparwyr yr ymwelom â nhw, defnyddiodd tiwtoriaid gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda'u dysgwyr.

Yn y model hwn, mae tiwtoriaid yn aml yn defnyddio asesiadau cychwynnol WEST yn effeithiol i nodi 'proffil sbigog' dysgwr ac yn canolbwyntio eu haddysgu ar gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu meysydd gwannaf. Mae tiwtoriaid yn arbenigwyr sgiliau hanfodol, ac felly mae ganddynt arbenigedd mewn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol. Fodd bynnag, efallai na fydd ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gyd-destun galwedigaethol dysgwr, ac felly efallai na fyddant yn gallu rhoi dysgu yn ei gyd-destun yn effeithiol ar gyfer gwaith y dysgwr. Mewn ychydig o ddarparwyr, caiff tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol eu pennu i lwybrau galwedigaethol penodol, ac felly maent yn datblygu dealltwriaeth o gynnwys pwnc y llwybrau hynny, gan eu galluogi i gynorthwyo eu dysgwyr trwy eu cyd-destun galwedigaethol yn fwy effeithiol.

Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn mynychu cyfarfodydd tîm y llwybrau galwedigaethol y maent yn gweithio gyda nhw ac yn rhannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn effeithiol gydag aseswyr galwedigaethol dysgwyr. Mae hyn yn helpu cydlynu cynnydd dysgwyr trwy eu fframweithiau cyffredinol ac yn lleihau'r tebygrwydd y bydd dysgwyr yn llithro y tu hwnt i'w dyddiadau targed. Fodd bynnag, pan nad yw gwaith y tiwtor arbenigol sgiliau hanfodol a'r asesydd galwedigaethol yn cael ei gydlynu'n dda, mae'r perygl y bydd y dysgwr yn llithro y tu hwnt i'w ddyddiad targed yn cynyddu.

Yn y model hwn, gall fod yn anos trefnu gweithgareddau sy'n gofyn am grwpiau o ddysgwyr – ar gyfer asesiadau tasgau dan reolaeth, er enghraifft – na mewn dulliau yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd, mae angen dod â dysgwyr at ei gilydd i reoli goruchwylio tasgau dan reolaeth neu asesiadau ar-lein.

Mae'r model hefyd yn gofyn i'r darparwr bennu arbenigwr sgiliau hanfodol ac asesydd galwedigaethol ar gyfer pob prentis sy'n dilyn cymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith prentisiaeth. Gan y bydd nifer y dysgwyr y mae angen iddynt ddilyn cymwysterau SHC a'r rhai sydd eisoes wedi cymhwyso trwy brocsi yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, gallai fod yn anodd cydbwyso baich achosion tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol ar draws darpariaeth y darparwr.

Mae ychydig o ddarparwyr yn cyflogi tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol sydd hefyd â rôl mewn cynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Pan ddefnyddir y dull hwn, gall darparwyr ddarparu cymorth arbenigol i ddysgwyr mewn lleoliadau yn y gwaith.

**Model 4 – Cyflwyno yn y gwaith gan arbenigwyr sgiliau hanfodol – darparwr hyfforddiant annibynnol mawr**

**Ein model cyflwyno**

Mae gennym ni dîm o diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu ac ennill eu cymwysterau SHC, fel arfer mewn lleoliadau yn y gwaith neu drwy sesiynau un-i-un ar-lein. Mae tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn cydlynu ag aseswyr galwedigaethol i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn aros ar y trywydd iawn, ac nad ydynt yn llithro'n ôl o'u llinell amser. Os yw dysgwyr yn dechrau llithro'n ôl rydym yn trefnu eu bod yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu i ddal i fyny.

Yn dibynnu ar asesiad cychwynnol dysgwyr a gofynion eu fframwaith, rydym yn defnyddio adnoddau WEST, adnoddau pwrpasol wedi'u datblygu gan ein tiwtoriaid, deunyddiau dysgu ar-lein a deunyddiau asesu enghreifftiol. Rydym hefyd yn defnyddio dulliau gweithdy i gynorthwyo dysgwyr yn eu hasesiad ar gyfer Llythrennedd Digidol.

Yn aml, mae gan ein tiwtoriaid arbenigol gefndiroedd fel athrawon ysgol neu maent wedi cwblhau hyfforddiant a chymwysterau mewn addysgeg datblygu medrau. Disgwylir iddynt ennill eu cymwysterau SHC eu hunain hefyd i gael dealltwriaeth well o brofiad y dysgwyr.

**Manteision i ni**

- Mae gan diwtoriaid arbenigol ddealltwriaeth fanwl o addysgeg datblygu medrau.
- Mae tiwtoriaid arbenigol yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau a chymwysterau SHC yn eu sesiynau gyda dysgwyr – does dim angen iddynt boeni am raglen alwedigaethol y dysgwyr.
- Gall tîm y tiwtoriaid arbenigol rannu adnoddau ac arfer dda gyda'i gilydd.

**Ein heriau ni**

- Mae'n her recriwtio a hyfforddi tiwtoriaid sgiliau hanfodol arbenigol.
- Mae'r model yn ddrud i ddarparu adnoddau gan ei fod yn gofyn i ni ddefnyddio tiwtor sgiliau hanfodol ac asesydd galwedigaethol ar gyfer pob dysgwr sy'n gwneud cymwysterau SHC.
- Rydym yn ceisio pennu arbenigwyr sgiliau hanfodol ar gyfer dysgwyr mewn meysydd galwedigaethol lle mae ganddynt rywfaint o brofiad galwedigaethol, fel bod tiwtoriaid yn deall cyd-destun galwedigaethol y dysgwyr, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl

## Model 5 – Cyflwyno yn y gwaith gan aseswyr galwedigaethol.

Mae'r model hwn yn debyg i Fodel 4 heblaw mai'r asesydd galwedigaethol sy'n cynnal yr holl ymweliadau â gweithle'r dysgwr, ac mae'n gyfrifol am gynorthwyo'r dysgwr i ddatblygu ei fedrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol a chwblhau asesiadau cymwysterau SHC.

Manteision y model hwn yw bod yr asesydd galwedigaethol yn gyfarwydd â'r llwybr galwedigaethol ac felly gall roi dysgu yn ei gyd-destun. Yn wahanol i Fodel 4, mae angen i un person yn unig ymweld â'r dysgwr yn ei weithle, sy'n gwneud y model yn llai costus.

Yn yr enghreifftiau o'r model hwn a arsylwyd gennym, roedd aseswyr yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol y dysgwyr yn effeithiol ac yn cael y dysgwr i ganolbwyntio ar ddatblygu meysydd gwannaf ei broffil sbigog.

Prif anfantais y model hwn yw nad yr aseswyr galwedigaethol yw'r arbenigwyr sgiliau hanfodol o reidrwydd, ac felly, efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r dulliau mwyaf effeithiol i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau hanfodol neu baratoi ar gyfer asesiadau SHC. Yn yr enghreifftiau o ddarparwyr sy'n defnyddio'r model hwn, daethom o hyd i amrywiaeth o ymagweddau at ddefnyddio tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol i gynorthwyo aseswyr galwedigaethol. Er enghraifft, mewn un darparwr, roedd aseswyr galwedigaethol yn cefnogi datblygiad sgiliau hanfodol y rhan fwyaf o'r dysgwyr, ac wedyn roedd tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn darparu sesiynau adolygu 'atodol', yn paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau ac yn goruchwylio'r tasgau asesedig dan reolaeth. Yn yr enghreifftiau gorau a arsylwyd gennym, roedd aseswyr yn cael eu cynorthwyo gan dîm o diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol a oedd yn gallu darparu cyngor neu adnoddau addysgu.

Ym Modelau 4 a 5, fel ei gilydd, caiff llawer o'r dysgu ei wneud gan y dysgwr rhwng yr ymweliadau gan y tiwtor arbenigol sgiliau hanfodol neu'r asesydd galwedigaethol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu â WEST neu adnoddau eraill mewn modd hunanastudio a gefnogir. I ddysgwyr sy'n cael trafferth naill ai â'r cynnwys neu â'r cymhelliant i ddysgu, gall y modelau hyn achosi i ddysgwyr deimlo'n ynysig neu heb gymhelliant, os nad ydynt yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol.

**Model 5 – Cyflwyno yn y gwaith gan diwtoriaid galwedigaethol – darparwr hyfforddiant bach annibynnol**

**Ein model cyflwyno**

Rydym yn ddarparwr hyfforddiant bach annibynnol sy'n gweithredu fel is-gontractwr mewn consortiwm mawr. Rydym yn arbenigo mewn prentisiaethau mewn dau lwybr galwedigaethol yn unig. Mae ein haseswyr galwedigaethol yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau hanfodol ac ennill eu cymwysterau SHC. Cynhelir bron pob un o'n tasgau cyflwyno yn ystod sesiynau rheolaidd yn y gwaith neu adolygu ar-lein. Yn ystod yr adolygiadau, mae aseswyr yn cyfuno monitro a chefnogi cynnydd dysgwyr trwy eu NVQ ac yn gweithio gyda nhw ar ddatblygu eu sgiliau hanfodol.

Mae aseswyr yn defnyddio'r asesiad cychwynnol o WEST a gwiriadau medrau rheolaidd i nodi cryfderau a gwendidau dysgwyr. Mae dysgwyr yn defnyddio adnoddau WEST a deunyddiau eraill i weithio ar eu medrau rhwng ymweliadau. Mae aseswyr y dysgwyr yn cysylltu â nhw trwy'r e-bost yn aml, ac mae aseswyr yn rhoi adborth i ddysgwyr ar y gwaith y maent wedi'i gwblhau rhwng ymweliadau.

Rydym yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud rhwng ymweliadau – ar gyfer eu gwaith galwedigaethol a'u sgiliau hanfodol.

**Manteision i ni**

- Mae aseswyr yn datblygu perthnasoedd proffesiynol da â dysgwyr. Maent yn dod i adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn deall eu cryfderau a'u rhwystrau rhag dysgu.
- Mae aseswyr yn arbenigwyr galwedigaethol ac felly'n gwybod sut mae'r medrau yn cyfrannu at waith go iawn prentisiaid. Yn aml, gallant esbonio cysyniadau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i waith dysgwyr.
- Mae gan yr asesydd galwedigaethol drosolwg o gynnydd galwedigaethol dysgwyr a'u cynnydd mewn sgiliau hanfodol. Mae hyn yn gwneud llinellau cyfrifoldeb yn glir ac yn lleihau posibilrwydd cam-gyfathrebu rhwng gwahanol staff.
- Mae hwn yn fodel cost effeithiol i ni gan nad yw'n gofyn am ymweliadau ychwanegol gan diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol.

**Ein heriau**

- Er bod pob un o'n haseswyr galwedigaethol wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau hanfodol, ac mae disgwyl iddynt ennill cymwysterau SHC eu hunain, nid ydynt yn arbenigwyr sgiliau hanfodol ac felly efallai na fydd ganddynt ymwybyddiaeth lawn o'r addysgeg ar gyfer medrau.
- Mae angen i ddysgwyr wneud llawer o'r gwaith ar gyfer sgiliau hanfodol rhwng ymweliadau. Gall hyn fod yn heriol iawn i ddysgwyr sy'n cael trafferth â chymhelliant.

## Model 6 – Datblygu medrau heb eu hachredu gan aseswyr galwedigaethol – 'uwchsgilio'

Hwn yw'r prif fodel, a ddefnyddir gan bron pob un o'r darparwyr, i gynorthwyo dysgwyr nad ydynt, trwy rinwedd cymwysterau procsi neu'u bod eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol, yn gweithio tuag at gymwysterau SHC achrededig.

Yn yr enghreifftiau gorau o'r model hwn, caiff dysgwyr eu cynorthwyo gan eu haseswyr galwedigaethol i weithio ar elfennau gwannaf eu proffil sbigog neu ddatblygu'r medrau sydd fwyaf defnyddiol iddyn nhw yn eu rôl swydd. Gallai dysgwyr ddefnyddio asesiadau gwirio sgiliau WEST i nodi eu cryfderau a'u gwendidau ac wedyn defnyddio adnoddau o becyn WEST neu ddeunyddiau dysgu eraill i 'uwchsgilio'. Wedyn, gallai dysgwyr ailadrodd asesiadau gwirio sgiliau WEST i hunanasesu eu cynnydd.

Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar ymagweddau darparwyr at gynorthwyo dysgwyr y **bu'n** ofynnol iddynt ennill cymwysterau SHC fel rhan o'u fframwaith, ac felly nid yw'r model hwn wedi bod yn ffocws i'n harsylwadau na'n trafodaethau gyda darparwyr. Fodd bynnag, caiff ei arsylwi'n aml yn ystod ein harolygiadau o ddarparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith lle rydym yn samplu dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau SHC a'r rhai sydd eisoes wedi ennill eu cymwysterau SHC neu wedi'u heithrio trwy brocsi. Mae tystiolaeth o arolygiadau yn dangos bod ansawdd uwchsgilio yn hynod amrywiol. Mae adroddiadau arolygu yn aml yn nodi diffygion, er enghraifft yn y graddau y mae darparwyr yn gosod targedau ystyrlon i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol trwy gydol cyfnod eu

rhaglen ddysgu neu yn y graddau y caiff dysgwyr eu herio'n rheolaidd i wella'r medrau hyn.

### Amseriad cyflwyno SHC

Nod bron pob un o'r darparwyr yw cyflwyno i ddysgwyr, a chael dysgwyr i ddechrau ar eu Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru o fewn traean cyntaf hyd eu rhaglen, gyda bwriad i gwblhau eu cymwysterau SHC o fewn tua dau draean hyd eu rhaglen. Cyfeirir at yr arfer hon fel 'blaenlwytho'. Mae'r rhesymeg ar gyfer y dull hwn yn gadarn, gan ei fod yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddechrau meithrin a datblygu medrau yn ystod hanner cyntaf eu rhaglen, ac elwa o bosibl ar gymhwyso'r medrau hynny yn eu rolau gwaith neu'u bywydau ehangach, yn ogystal â'u defnyddio yn yr asesiadau SHC. Mae hefyd yn rhoi digon o le ar gyfer digwyddiadau a llithro annisgwyl.

Mae ychydig iawn o ddarparwyr yn defnyddio gweithdai dwys (Modelau 1 neu 3) o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf yn rhaglenni dysgwyr. Mantais bosibl hyn yw y bydd yr asesiadau cymwysterau SHC 'wedi cael eu gorffen'. Fodd bynnag, efallai mai effaith anfwriadol hyn yw y bydd dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer prentisiaeth dysgu yn y gwaith yn cael eu gorlethu neu'n llai awyddus i astudio. Er bod ychydig iawn o ddarparwyr yn defnyddio'r model hwn, dywedodd darparwyr eraill eu bod wedi symud oddi wrth y dull hwn dros y blynyddoedd diwethaf tuag at fodelau cyflwyno hyblyg neu hirach ar gyfer cymwysterau SHC.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn ceisio gwasgaru'r addysgu a'r asesu ar gyfer cymwysterau SHC o fewn dau draean o hyd disgwyliedig rhaglen dysgwr. Mae llawer ohonynt yn mabwysiadu dulliau hyblyg sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion dysgwyr. Er enghraifft, mae gan un darparwr fodelau 'hir a thenau' ar gyfer dysgwyr â medrau gwannach, ac felly mae angen mwy o uwchsgilio arnynt; a modelau llwybr carlam 'byr a thrwchus' ar gyfer dysgwyr y mae eu hasesiad WEST yn dangos eu bod wedi cyrraedd, neu bron wedi cyrraedd, y lefel sy'n ofynnol gan eu fframwaith.

Mae'r dulliau mwyaf effeithiol wedi'u teilwra ac yn hyblyg i anghenion y dysgwr, gan ystyried eu mannau cychwyn, lefel y cymorth sydd ei hangen i ennill y cymwysterau SHC sy'n ofynnol gan eu fframwaith a'u rolau swydd a'u bywydau ehangach.

Mae monitro cynnydd dysgwyr tuag at ennill eu cymwysterau SHC yn elfen hanfodol o raglen lwyddiannus. Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd dysgwr tuag at ennill ei gymwysterau SHC, a cheir cydlynu effeithiol rhwng aseswyr galwedigaethol ac arbenigwyr sgiliau hanfodol, er enghraifft. Mae'r feddalwedd a ddefnyddir i fonitro cynnydd dysgwyr yn eu fframwaith yn cynnwys ystyried cymwysterau SHC. Mae dysgwyr sy'n cymryd yn hirach i gwblhau eu SHC – er enghraifft oherwydd mannau cychwyn is, anghenion dysgu ychwanegol, cymhlethdodau yn eu gwaith – yn cael eu cynorthwyo, a chymerir camau adferol i'w helpu i aros ar y trywydd cywir. Mae rheolwyr yn goruchwylio cynnydd dysgwyr yn effeithiol ac yn nodi os yw cynnydd dysgwr yn dechrau llithro, sy'n golygu ei fod mewn perygl o beidio â chwblhau ei raglen mewn pryd neu'i fod yn llai awyddus i weithio.

### Defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)

Dywedodd pob un o'r darparwyr yr ymwelom â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon eu bod yn defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST – gweler

https://www.walesessentialskills.com), sef set o offer ar-lein a ddatblygwyd i'w defnyddio gan ddarparwyr addysg yng Nghymru, gyda chymorth a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Rhyddhawyd y pecyn cymorth yn wreiddiol yn 2014.

Mae offer WEST yn cynnwys 'sgriniwr 10 munud' sy'n rhoi syniad cyflym o lefel gychwynnol dysgwr ar gyfer Cymhwyso Rhif neu Gyfathrebu (yn Saesneg neu yn Gymraeg). Mae asesiad cychwynnol manylach hefyd ar gyfer y cymwysterau SHC hyn sy'n nodi 'proffil sbigog' dysgwr, gan roi syniad o'i berfformiad presennol yn y set berthnasol o fedrau. Dangosir enghraifft isod o ganlyniad asesiad cychwynnol ar gyfer Cyfathrebu (addaswyd o Tribal, 2016; tud.10). Yn yr enghraifft hon, mae'r dysgwr yn gymharol gryf yn siarad a gwrando, yn ysgrifennu testun perthnasol a phriodol, ac yn atalnodi'n gywir, ac yn gymharol wan yn darllen testun i ddod o hyd i wybodaeth ac yn defnyddio gramadeg cywir.

Eich canlyniad: Lefel 2

Mae'r canlyniadau'n dangos eich bod yn cael eich asesu mewn Cyfathrebu (Saesneg) ar Lefel 2 ar hyn o bryd.

Eich proffil

| | S1 | S2 | S3 | L1 | L2 | L3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu (Saesneg) | → | → | → | → | → | |
| Siarad a gwrando | → | → | → | → | → | |
| Darllen | → | → | → | → | | |
| Darllen a deall geiriau | → | → | → | | | |
| Darllen a deall testun | → | → | → | → | | |
| Darllen testun i ddod o hyd i wybodaeth | dd/b | → | → | | | |
| Ysgrifennu | → | → | → | → | → | |
| Ysgrifennu testun perthnasol a phriodol | → | → | → | → | → | |
| Sillafu'n gywir | → | → | → | → | | |
| Atalnodi'n gywir | → | → | → | → | → | |
| Defnyddio gramadeg cywir | → | → | → | | | |

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys mwy o asesiadau – 'gwiriadau medrau' – sy'n rhoi adborth manylach ar gryfderau a gwendidau dysgwr mewn medrau penodol, er enghraifft 'geiriau, arwyddion a symbolau'. Mae'r rhain yn eu tro yn cysylltu â deunyddiau dysgu hunanastudio sydd wedi'u cynnwys o fewn y pecyn cymorth y gall dysgwyr weithio arnynt yn annibynnol neu gyda chymorth.

I diwtoriaid, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys swyddogaeth rheoli dysgwyr sy'n galluogi dysgwyr i gael eu pennu i grwpiau. Gall dysgwyr fonitro eu cynnydd eu hunain wrth iddynt weithio trwy'r deunyddiau dysgu a chymryd ailwiriadau medrau i wirio a ydynt wedi gwella. Gall tiwtoriaid fonitro gweithgarwch a chynnydd eu dysgwyr neu'u grwpiau.

Dywedodd yr holl ddarparwyr yr ymwelom â nhw eu bod yn defnyddio asesiad cychwynnol WEST i nodi mannau cychwyn unigol dysgwr. Fodd bynnag, roedd y graddau yr oedd darparwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o offer ac adnoddau WEST yn dibynnu rhywfaint ar y model cyflwyno sy'n cael ei ddefnyddio. Mewn cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith mewn ystafell ddosbarth (Model 1), roedd tiwtoriaid yn tueddu i ddefnyddio dulliau addysgu dosbarth cyfan. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio deunyddiau dysgu WEST ac adnoddau eraill. Yn y sesiynau hyn, roedd tiwtoriaid yn rhoi llai o sylw i broffiliau sbigog eu dysgwyr ac yn tueddu i ddilyn rhaglen astudio a oedd yn ymdrin â holl gynnwys y sgil hanfodol perthnasol, neu bron yr holl gynnwys. O ganlyniad, nid oedd pob un o'r dysgwyr mewn unrhyw grŵp yn gweithio ar feysydd lle roedd angen iddynt wella fwyaf.

Yn nodweddiadol, yn y ddau fodel hyfforddiant yn y gwaith a ddisgrifir uchod (Modelau 4 a 5), defnyddiwyd WEST i nodi cryfderau a gwendidau unigol dysgwr. Roedd mewnbwn addysgu gan y tiwtor a hunanastudio a gefnogir y dysgwr yn canolbwyntio ar ddatblygu meysydd gwannaf y dysgwr, gan ddefnyddio adnoddau WEST, ymarfer cwestiynau papurau ac ymarferion tebyg. Yn y modelau hyn, mae'n ofynnol i ddysgwyr weithio'n annibynnol ar eu deunyddiau hunanastudio – her i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol neu'r rhai â chymhelliant gwael.

Ar y cyfan, dywedodd darparwyr fod offer ac adnoddau WEST yn ddefnyddiol, ond nodwyd nifer o ddiffygion, yn cynnwys:

- Mae'r rhyngwyneb a llawer o adnoddau yn ymddangos fel pe baent wedi dyddio, erbyn hyn.
- Nid yw pob un o'r adnoddau ar gael neu'n ddefnyddiadwy nawr, oherwydd bod angen meddalwedd wedi dyddio arnynt i weithio.
- Nid yw rhai dolenni at adnoddau allanol yn gweithio, mwyach.
- Dim digon o adnoddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ar gyfer prentisiaid dysgu yn y gwaith, y mae pob un ohonynt yn cael eu cyflogi, sef dysgwyr ôl-16 neu ddysgwyr sy'n oedolion, roedd llawer o'r adnoddau fel pe baent wedi cael eu dylunio ar gyfer dysgwyr oedran ysgol.
- Mae adnoddau ar gael mewn cyd-destunau generig yn unig, h.y. nid ydynt wedi cael eu rhoi mewn cyd-destun ar gyfer unrhyw lwybr galwedigaethol penodol.

## Cyflwyno ar-lein a chyfunol

Mae bron pob un o'r darparwyr yr ymwelom â nhw yn cynnig rhyw elfen o'u darpariaeth sgiliau hanfodol trwy ddulliau ar-lein neu gyfunol. Gallai'r rhain fod ar ffurf sesiynau un-i-un ar-lein gydag asesydd yn rhan o'r broses adolygu arferol (fersiwn ar-lein o Fodel 5), sesiynau cymorth un-i-un ar-lein gyda thiwtor arbenigol sgiliau hanfodol (Model 4 ar-lein) neu sesiynau galw i mewn grŵp wedi'u hamserlennu neu ddosbarthiadau meistr (Model 3 ar-lein).

Mae llawer o'r adnoddau a ddefnyddir gan diwtoriaid i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau ar gael ar-lein, ac felly'n hygyrch i ddysgwyr ble bynnag y maent yn astudio. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dulliau cyflwyno cyfunol syml: cyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda thiwtor neu asesydd galwedigaethol, gyda dysgwyr yn gweithio'n annibynnol ar ddeunyddiau astudio sy'n electronig neu ar gael ar-lein.

Mynegodd dysgwyr a staff cyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau am eu ffafriaethau dros ddysgu a chyflwyno ar-lein. Mae gan rai dysgwyr ffafriaeth glir dros ddysgu ar-lein, gan ddyfynnu cyfleustra, y tarfu lleiaf ar eu gwaith, a'r gallu i gwblhau eu gwaith, ble bynnag y maent. Roedd yn well gan ddysgwyr eraill ddulliau wyneb yn wyneb lle roeddent o'r farn fod cyfathrebu â'r tiwtor a dysgu yn fwy effeithiol gyda'r tiwtor yn bresennol yn gorfforol.

Ar y cyfan, canfuom fod dulliau ar-lein a chyfunol yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn hyblyg gan ddarparwyr, gan ystyried ffafriaethau dysgwyr.

## Sut mae tiwtoriaid ac aseswyr yn addysgu medrau hanfodol a sut mae prentisiaid yn eu dysgu?

Mae tiwtoriaid a dysgwyr yn wynebu cyfyng-gyngor o ran sut orau i addysgu a dysgu medrau hanfodol mewn prentisiaethau. Mae'n well gan ddysgwyr a thiwtoriaid ddysgu'r medrau yn eu cyd-destunau galwedigaethol, a dywed dysgwyr eu bod yn cadw'r medrau a ddysgwyd fel hyn yn fwy effeithiol ac yn gwerthfawrogi eu dysgu yn fwy. Fodd bynnag, mae'r prawf generig a'r dasg dan reolaeth yn gofyn i ddysgwyr ddangos eu medrau mewn cyd-destunau anghyfarwydd, ac felly mae addysgu yn gogwyddo tuag at ddulliau generig, sy'n cael eu gwerthfawrogi llai gan ddysgwyr ac yn llai perthnasol i'w gwaith a'u bywydau ehangach.

At ei gilydd, mae'r addysgu a'r dysgu ar gyfer medrau hanfodol mewn prentisiaethau yn canolbwyntio ar baratoi dysgwyr i lwyddo yn y prawf ar-lein a'r dasg hir dan reolaeth sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau SHC. O ganlyniad i'r ffocws cyfyng hwn, dywed dysgwyr eu bod yn cael trafferth gweld gwerth eu dysgu a'i berthnasedd iddyn nhw yn eu prentisiaeth, eu rôl swydd neu'u bywydau ehangach.

Nodom bum model cyflwyno sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr i gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (yn cynnwys Model 2 a oedd wedi cael ei ddefnyddio yn ddiweddar ond wedi cael ei werthuso gan y darparwr yn un nad oedd yn effeithiol, a rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio). Bron ym mhob model, roedd y dulliau'n canolbwyntio o reidrwydd ar baratoi dysgwyr i lwyddo yn yr asesiad. O fewn ffocws cyfyng yr addysgu a nodwyd uchod, bron ym mhob achos, canfuom fod tiwtoriaid ac aseswyr yn defnyddio dulliau addysgu a oedd yn briodol i fodel eu darparwr.

Mewn darparwyr sy'n defnyddio cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith mewn ystafell ddosbarth (Model 1), roedd tiwtoriaid yn defnyddio dulliau addysgu dosbarth cyfan fel cyflwyniadau o fwrdd gwyn, eglurhadau ac esboniadau dosbarth cyfan, enghreifftiau a weithiwyd o gwestiynau ac ymarfer tasgau asesu, tasgau pâr a grŵp bach, a thasgau unigol yn canolbwyntio ar ymarfer y medrau sy'n cael eu datblygu yn y sesiwn. Defnyddiodd tiwtoriaid ystod o strategaethau holi yn briodol.

Mewn sefyllfaoedd dosbarth cyfan, ceisiodd tiwtoriaid ddefnyddio enghreifftiau wedi'u rhoi yn eu cyd-destun yn aml i wneud y medrau dan sylw yn fwy perthnasol i ddysgwyr. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gyfyngu gan wybodaeth y tiwtor am faes pwnc galwedigaethol y dysgwyr a'r graddau yr oedd dysgwyr o gefndiroedd pwnc neu gefndiroedd galwedigaethol cymysg yn yr un dosbarth. Roedd y graddau yr oedd tiwtoriaid yn teilwra eu cyflwyno tuag at fynd i'r afael â chryfderau a gwendidau

dysgwyr unigol braidd yn gyfyngedig. Mewn dulliau dosbarth cyfan, roedd sesiynau yn gyffredinol yn cael eu hamserlennu mewn slotiau wythnosol neu mewn sesiynau rhyddhau mewn blociau. Fel arfer, nid oedd disgwyl i ddysgwyr gwblhau hunanastudio ychwanegol rhwng sesiynau.

Mewn sesiynau un-i-un (Modelau 4 neu 5), defnyddiodd tiwtoriaid ac aseswyr ddulliau addysgu priodol, yn cynnwys siarad trwy gyflwyniadau, arddangos technegau, enghreifftiau a weithiwyd, ymarfer tasgau asesu a chwestiynau, dad-greu enghreifftiau i ddangos camgymeriadau a dulliau amgen. Mewn sesiynau un-i-un, roedd tiwtoriaid yn fwy nag abl mewn sesiynau dosbarth cyfan i ddefnyddio enghreifftiau wedi'u rhoi yn eu cyd-destun yn gysylltiedig â phwnc neu gefndir galwedigaethol y dysgwr a theilwra'u hesboniadau yn unol â hynny. Yn y sesiynau hyn, cyfeiriodd llawer o diwtoriaid at broffil sbigog y dysgwr ac at waith blaenorol gan ddefnyddio gwiriad medrau WEST. Yn gyffredinol, fe wnaeth tiwtoriaid gyfeirio dysgwyr yn effeithiol i ganolbwyntio ar rannau gwannach eu proffil.

Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd sesiynau un-i-un eu gwasgaru sawl wythnos ar wahân, ac roedd disgwyl i ddysgwyr astudio yn annibynnol ymhellach, yn unol â chyfarwyddyd gan y tiwtor – fel cwblhau ymarferion neu wiriadau medrau o WEST, cwblhau ymarferion ymarfer asesu neu waith paratoadol arall ar gyfer y sesiwn nesaf.

Mewn modelau cyflwyno dosbarth cyfan ac un-i-un, roedd tiwtoriaid yn defnyddio ystod o adnoddau addysgu, gan gynnwys adnoddau WEST ac adnoddau ar-lein fel BBC Bitesize neu safleoedd eraill – y nodwyd yn aml eu bod yn cynnig adnoddau mathemateg neu adolygu TGAU. Hefyd, roedd mwyafrif y tiwtoriaid yn defnyddio adnoddau yr oeddent wedi'u paratoi neu a oedd wedi cael eu paratoi gyda chydweithwyr a'u rhannu yn eu tîm. Mewn ychydig o achosion, roedd tiwtoriaid yn defnyddio adnoddau addysgu a oedd wedi cael eu rhoi mewn cyd-destun ar gyfer cyd-destun galwedigaethol dysgwr.

## Asesu crynodol

Yn ein sgyrsiau fel rhan o'r adolygiad hwn, mynegwyd rhwystredigaeth yn aml gan diwtoriaid a dysgwyr ynglŷn â'r amser sy'n ofynnol a natur yr asesiad ar gyfer cymwysterau SHC, a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu haddysgu a'u dysgu. Arsylwom fod addysgu wedi'i ogwyddo tuag at baratoi prentisiaid ar gyfer elfen y cymwysterau sy'n cael ei hasesu'n allanol, ac o ganlyniad, nid yw prentisiaid sy'n dilyn cymwysterau SHC yn cael cyfle llawn i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a/neu ddigidol yng nghyd-destun eu rôl swydd neu faes galwedigaethol. Mae ffocws darparwyr o ran 'cael dysgwyr trwy eu hasesiad' yn golygu bod prentisiaid nad oes angen iddynt ennill cymwysterau SHC oherwydd eu bod wedi'u hennill o'r blaen neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi, yn gwneud cynnydd anghyson tuag at ddatblygu'r medrau hyn.

Ar gyfer Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, mae'r asesiad crynodol allanol yn dasg dan reolaeth ac yn brawf cadarnhau, ac ar gyfer Llythrennedd Digidol, yn dasg dan reolaeth ac yn drafodaeth strwythuredig. Mae fformat yr asesiad wedi'i amlinellu yn yr egwyddorion cynllunio ar gyfer cyfres cymwysterau SHC (gweler Cymwysterau Cymru, 2022).

Caiff y prawf cadarnhau ei osod gan y sefydliad dyfarnu ac mae'n gofyn i ymgeiswyr gwblhau ymatebion math aml-ddewis i gwestiynau a senarios generig.

Caiff y tasgau dan reolaeth eu gwneud o dan amodau rheoledig o fewn uchafswm o gyfnod o wyth wythnos yn olynol. Mae hyd y tasgau yn dibynnu ar y lefel. Mae tasgau Lefel 1 yn cymryd hyd at bedair awr, tasgau lefel 2 hyd at bum awr a thasgau lefel 3 hyd at wyth awr. Mae'r tasgau yn gofyn i ymgeiswyr gymhwyso'u medrau mewn modd cyfannol i senarios fel cynllunio digwyddiad neu baratoi ffeithlen ar gyfer pobl ifanc (Agored Cymru, 2023). Mae sefydliadau dyfarnu yn paratoi tasgau dan reolaeth, sy'n bodloni'r egwyddorion cynllunio ac maent yn fyw am gyfnod diffiniedig. Gall darparwyr ddewis y tasgau byw ar gyfer eu dysgwyr o blith ystod y tasgau a baratowyd gan eu sefydliad dyfarnu (City and Guilds, 2023). Mae'r rhain yn cynnwys tasgau wedi'u gosod mewn cyd-destunau galwedigaethol ac yn rhoi cyfle i ddarparwyr ddewis asesiadau ag iddynt berthnasedd galwedigaethol.

Caiff darparwyr gyfle hefyd i ddatblygu eu tasgau dan reolaeth eu hunain, ac mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan eu sefydliad dyfarnu cyn eu defnyddio (Cymwysterau Cymru, 2019). Fodd bynnag, mae'r broses i ddatblygu a chael cymeradwyaeth am dasgau addas sy'n bodloni'r egwyddorion cynllunio yn gymhleth a llafurus, a phrin yw'r darparwyr sy'n achub ar y cyfle yn ymarferol.

### Cyflwyno, asesu ac achredu trwy gyfrwng y Gymraeg

Er i ni ganfod bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cofio cael cynnig y cyfle i gwblhau eu cymwysterau SHC yn Gymraeg, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n gwneud hynny, mewn gwirionedd. Mae'r data a gyflenwyd i ni gan ddarparwyr yn dangos bod mwyafrif y dysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau yn Gymraeg yn gwneud hynny mewn un darparwr arweiniol a'i bartneriaid yn unig.

Mewn ychydig o ddarparwyr arweiniol, mae amrywioldeb ym mhatrwm nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng darparwyr yng nghontract y darparwr arweiniol, sy'n awgrymu nad poblogaeth waelodol y dysgwyr yn syml sy'n effeithio ar y gyfran sy'n manteisio ar y cyfle i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod gwahaniaethau yn ymagweddau darparwyr yn cael effaith.

Dywed darparwyr fod recriwtio a chadw aseswyr a thiwtoriaid sydd â'r cymhwysedd galwedigaethol arbenigol sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu yn y gwaith ac yn gallu addysgu ac asesu yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn her benodol, hefyd.

Pan mae darpariaeth yn effeithiol, mae darparwyr yn gweithio gyda phartneriaid ac is-gontractwyr i gydgyfrannu adnodd staff sy'n siarad Cymraeg, neu ddatblygu perthnasoedd gyda thrydydd partïon, fel yr Urdd. Yn yr enghraifft hon, mae dysgwyr ar draws ystod o wahanol bartneriaethau yn cwblhau eu cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda'r Urdd ac yn gwneud gweddill eu prentisiaeth gyda'u prif ddarparwr.

**Hwb Sgiliau Hanfodol yr Urdd**

Mae Urdd Gobaith Cymru yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg. Am y degawd diwethaf, mae'r Urdd wedi bod yn cyflogi ac yn hyfforddi prentisiaid, gan ddechrau yn y sector chwaraeon, ac sydd bellach yn cwmpasu'r awyr agored, gofal plant, chwaraeon yn yr ysgol, a gwaith ieuenctid.

Mae'r Urdd yn cyflogi 30 o'i brentisiaid ei hun, ond hefyd yn gweithio gyda darparwyr a chyflogwyr eraill i ddarparu prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog i dros 150 o unigolion. Gall y prentisiaid hyn elwa ar diwtoriaid, hyfforddiant personoledig a Hwb Sgiliau Hanfodol yr Urdd (Hwb Sgiliau Hanfodol).

Sefydlwyd yr Hwb i roi opsiwn i ddysgwyr ledled Cymru ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a digidol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae model cyflwyno 'i mewn ac allan' a dulliau cyflwyno digidol yn golygu y gall dysgwyr ledled Cymru ddechrau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Hwb yn galluogi'r Urdd i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill fel y gall dysgwyr wneud hynny gyda'u cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r Urdd tra'n gwneud gweddill eu prentisiaeth gyda'u prif ddarparwr.

# (6) Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Hunanwerthuso

At ei gilydd, canfuom fod darparwyr yn hunanwerthuso eu darpariaeth medrau hanfodol yn effeithiol. Roedd bron pob un ohonynt wedi myfyrio ar eu darpariaeth ar ôl y cyfnod o darfu a achoswyd gan y pandemig. Roedd ychydig ohonynt wedi gwneud addasiadau i'w modelau cyflwyno, gan gynnwys o leiaf un darparwr a oedd wedi newid ei fodel cyflwyno ar ôl nodi bod deilliannau cymwysterau SHC gwael yn cyfyngu ar gyfraddau cwblhau fframwaith cyffredinol dysgwyr.

Fodd bynnag, nid yw darparwyr bob amser yn gwneud defnydd llawn o ystod y wybodaeth sydd ar gael iddynt, fel y cyfraddau methu ar gyfer profion SHC.

Mewn ychydig o achosion, nid yw darparwyr yn nodi ac yn gweithredu ar amrywiadau yn nifer y dysgwyr sy'n gwneud asesiadau SHC cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd ar gyfer darpariaeth partneriaeth.

## Cydlynu a chyfathrebu

Mae prentisiaethau yn rhaglenni cymhleth i'w rheoli. Er mwyn cwblhau eu fframwaith prentisiaeth yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr gwblhau ystod o wahanol elfennau, sydd fel arfer yn cynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Elfen allweddol o gyflwyno sgiliau hanfodol yn llwyddiannus yw cyfathrebu a chydlynu effeithiol:

- Mae cyfathrebu a chydlynu rhwng timau neu diwtoriaid sy'n cyflwyno gwahanol agweddau ar raglen dysgwr yn glir, yn strwythuredig ac yn ffurfiol. O fewn y darparwr, mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am olrhain a monitro cynnydd dysgwyr mewn cwblhau eu cymwysterau SHC. Caiff dysgwyr sy'n dechrau 'llithro' neu'n gwneud cynnydd araf eu nodi'n gyflym.
- Mae 'perchnogaeth' cymwysterau SHC dysgwr a'i gynnydd tuag atynt yn glir.
- Mae gan reolwr enwebedig gyfrifoldeb cyffredinol am ddarpariaeth SHC a monitro cynnydd dysgwyr.
- Caiff cymwysterau procsi dysgwyr eu cofnodi'n effeithiol, a gwneir copïau o'u tystysgrifau.
- Mae systemau TG a phrosesau olrhain yn amlygu pan fydd dysgwr yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl neu os oes ganddo elfen o gymhwyster SHC heb ei chwblhau.

## Rôl yr arbenigwr sgiliau hanfodol

Mae gan bron bob darparwr o leiaf un aelod o staff sydd â rhywfaint o arbenigedd mewn cymwysterau ac asesiadau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae nifer a rôl y tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn dibynnu ar y model cyflwyno a ddefnyddir gan y darparwr.

Er bod arbenigwyr sgiliau hanfodol yn yr holl ddarparwyr i raddau, nid oes disgwyliad cyson o beth sy'n gwneud rhywun yn gymwys ar gyfer y rôl hon. Er bod darparwyr yn

hysbysebu ar gyfer, ac yn recriwtio, tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol trwy recriwtio allanol, yn nodweddiadol, mae tiwtoriaid sgiliau hanfodol wedi datblygu i'r rôl trwy ddangos tueddfryd ac awydd i weithio yn y rôl. Mewn ychydig o achosion, mae arbenigwyr sgiliau hanfodol wedi bod yn athrawon ysgol gynradd neu uwchradd yn y gorffennol, neu wedi bod â chefndir mathemategol, cyfathrebu neu TG galwedigaethol. Dywedodd bron pob un o'r darparwyr fod recriwtio tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn her.

Disgwyliad cyffredin yw na ddylai tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol, yn enwedig wrth gyflwyno mewn lleoliadau dosbarth cyfan, feddu ar y cymhwyster addysgu ôl-16 llawn, na bod yn gweithio tuag ato – y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (PCE) neu'r Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (PgCE). Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd arbenigwyr sgiliau hanfodol wedi cwblhau'r cymwysterau SHC eu hunain. Dywedodd lleiafrif o arbenigwyr sgiliau hanfodol fod ganddynt gymwysterau ffurfiol a oedd yn eu paratoi yn benodol ar gyfer cyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol i oedolion, er enghraifft tystysgrifau Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol Lefel 3 wedi'u dyfarnu gan Agored Cymru neu City & Guilds. Dywedodd un darparwr ei fod yn cynnig y cwrs hwn ar gyfer ei staff ei hun ar hyn o bryd.

Ar y cyfan, canfuom gydweithio da o fewn darparwyr rhwng aseswyr galwedigaethol a thiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol. Teimlai llawer o aseswyr galwedigaethol eu bod yn cael cymorth da gan gydweithwyr yn eu sefydliad a oedd yn arbenigwyr sgiliau hanfodol, er enghraifft mewn darparu deunyddiau ac adnoddau ar gyfer addysgu testunau neu arweiniad penodol ar strategaethau addysgu. Roedd enghreifftiau cyfatebol hefyd o ble mae staff galwedigaethol yn mentora arbenigwyr sgiliau hanfodol i roi mewnwelediad dyfnach iddynt i'r llwybr galwedigaethol, ac felly cyflwyno dysgu cyd-destunol gwell.

**Arbenigwyr sgiliau hanfodol ymgorfforedig yn Educ8 Training Group**

Mae Educ8 yn ddarparwr hyfforddiant annibynnol a nhw yw'r darparwr arweiniol mewn partneriaeth â phedwar darparwr partner sy'n is-gontractio.

Yn Educ8, ymgorfforir tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol mewn llwybrau galwedigaethol ac maent yn gweithio mewn tîm gydag aseswyr llwybrau galwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn datblygu dealltwriaeth o gyd-destun galwedigaethol eu dysgwyr, ac felly gallant esbonio cysyniadau ac addasu deunyddiau dysgu fel bod dysgwyr yn eu gweld yn fwy perthnasol.

Mae tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn dilyn rhaglen dysgu hyblyg gyda dysgwyr ac yn cyfuno ymweliadau â gweithle'r dysgwyr gyda sesiynau un-i-un ar-lein [Model 4], wedi'u hategu gan sesiynau addysgu grwpiau lle mae angen [Model 3]. Maent yn teilwra'u cyflwyno i ddysgwyr unigol yn seiliedig ar wybodaeth o asesiad cychwynnol WEST, wedi'u hategu gan gyfres o gwestiynau diagnostig yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio cymwysterau SHC. Mae'r rhain yn helpu triongli deilliannau asesiad cychwynnol dysgwr ac yn gwneud yn siŵr bod addysgu'n cael ei anelu ar y lefel gywir ar gyfer y dysgwr.

Yn ogystal â'r tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol sy'n benodol i lwybr, mae tîm

hefyd sy'n gweithio ar draws y llwybrau galwedigaethol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, neu sydd angen cymorth dwys, i ddatblygu medrau ac ennill eu cymwysterau SHC.

Mae rheolwr yn goruchwylio gwaith yr holl diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol ar draws y darparwr, ac mae hyn yn helpu â chydlynu eu gwaith, datblygu adnoddau addysgu ac arbenigedd, a nodi a rhannu arfer dda.

Yn aml, roedd aseswyr galwedigaethol eu hunain wedi cynnal asesiad cychwynnol WEST, ac felly roeddent yn ymwybodol o'r cryfderau a'r gwendidau yn eu medrau personol eu hunain. Mewn mwyafrif o ddarparwyr, roedd aseswyr galwedigaethol hefyd yn cael eu hannog i gwblhau cymwysterau SHC eu hunain, neu roedd yn ofynnol iddynt eu cwblhau.

Roedd rheolwyr, tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol ac aseswyr galwedigaethol yn cydnabod gwerth cynnal a datblygu eu medrau personol – eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er i lawer o staff ddweud yn ein holiadur electronig eu bod yn hyderus yn eu gallu i gynorthwyo dysgwyr, ac nad oedd eu medrau personol eu hunain yn eu rhwystro rhag eu cyflwyno'n effeithiol, yn ein sgyrsiau wyneb yn wyneb, roedd staff, yn enwedig y rhai nad oeddent yn arbenigwyr sgiliau hanfodol, yn fwy parod i ddweud nad oeddent yn hyderus ar draws ystod lawn y medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol a oedd yn ofynnol gan gymwysterau SHC.

Dywedodd tua hanner yr aseswyr galwedigaethol y siaradom â nhw nad ydynt wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol yn ddiweddar i ddatblygu eu hymwybyddiaeth eu hunain o'r addysgeg ar gyfer addysgu sgiliau hanfodol. Dywedon nhw'n aml nad oes ganddynt hyder nac ymwybyddiaeth lawn am ystod y strategaethau addysgu sydd ar gael ar gyfer addysgu oedolion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol ategol.

Ar draws mwyafrif y darparwyr, mae diffyg dysgu proffesiynol strwythuredig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau addysgeg naill ai tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol neu aseswyr galwedigaethol arbenigol er mwyn iddynt allu addysgu a chynorthwyo dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau SHC yn fwy effeithiol.

## Atodiad – crynodeb o ystod y modelau cyflwyno sy'n cael eu defnyddio

| Model | Enw | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn canolfan, 'dan berchnogaeth dysgu yn y gwaith' | Mae dysgwyr yn mynychu canolfan ar gyfer cyflwyno mewn ystafell ddosbarth, fel arfer mewn sesiynau rhyddhau am y diwrnod neu ryddhau mewn blociau.<br><br>Os ydynt mewn coleg, mae'r cyflwyno 'dan berchnogaeth' gan gangen dysgu yn y gwaith y coleg.<br><br>Mae'r cyflwyno fel arfer yn generig – ni chaiff grwpiau o ddysgwyr eu grwpio yn ôl llwybr galwedigaethol. Mae tiwtoriaid fel arfer yn arbenigwyr sgiliau hanfodol. Nid yw'r addysgu'n cael ei roi mewn cyd-destun yn ôl cefndiroedd galwedigaethol dysgwyr. | Mae tiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol yn gyfarwydd â chymwysterau SHC a bydd ganddynt fedrau addysgeg arbenigol i gynorthwyo dysgwyr.<br><br>Defnydd effeithlon o adnoddau oherwydd gellir trefnu i ddysgwyr o ystod o lwybrau fynychu dosbarthiadau mewn sesiynau rhyddhau am y diwrnod neu ryddhau mewn blociau.<br><br>Caiff dysgwyr fynediad cyson at dechnoleg dysgu a meddalwedd o safon uchel. | Mae cyflwyno mewn grwpiau cymysg a/neu gyflwyno 'generig' yn golygu nad yw dysgwyr yn cael eu cymell gan eu profiad neu maent yn gweld perthnasedd cyfyngedig sgiliau hanfodol i'w rôl gwaith.<br><br>Efallai na fydd y tiwtor yn gallu esbonio'r medrau mewn cyd-destun sy'n berthnasol yn alwedigaethol y gall dysgwyr gysylltu ag ef.<br><br>Potensial ar gyfer datgysylltu rhwng y cyflwyno mewn ystafell ddosbarth a dysgu galwedigaethol y dysgwyr – pwy sy'n 'berchen' ar sgiliau hanfodol?<br><br>Cost cyfle i ddysgwyr: tra bydd dysgwyr mewn sesiynau sgiliau hanfodol, mae eu cyfoedion mewn sesiynau galwedigaethol. Mae dysgwyr sgiliau hanfodol yn methu o ran cael profiadau neu ddysgu galwedigaethol.<br><br>Rhaid i ddysgwyr gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu canolfannau.<br><br>Rhaid i ddysgwyr deithio i'r ganolfan. | |

| Model | Enw | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oherwydd y caiff ei gyflwyno'n aml mewn lleoliad dosbarth cyfan, nid yw'n hawdd teilwra'r cyflwyno i gryfderau a gwendidau unigolion. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cwmpasu meysydd y maent efallai'n gwybod amdanynt eisoes, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar eu gwendidau. | |
| 2 | Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn canolfan, 'dan berchnogaeth AB' | Mae dysgwyr yn mynychu canolfan ar gyfer cyflwyno mewn ystafell ddosbarth, fel arfer mewn sesiynau rhyddhau am y diwrnod neu ryddhau mewn blociau.<br><br>Mae'r cyflwyno 'dan berchnogaeth' cyfadran y coleg ar gyfer y llwybr hwnnw (e.e. Peirianneg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol) ond nid cangen dysgu yn y gwaith y coleg.<br><br>Mae'r cyflwyno gan diwtoriaid yn seiliedig ar lwybr sydd efallai'n arbenigwyr sgiliau hanfodol, neu efallai ddim. Mae'r cyflwyno wedi cael ei roi yn ei gyd-destun lle bo modd. | Manteision tebyg i Fodel 1.<br><br>Bydd tiwtoriaid yn seiliedig ar lwybr yn gallu rhoi dysgu yn ei gyd-destun ar gyfer dysgwyr ar eu llwybr galwedigaethol. | Perygl o gydlynu gwael rhwng y gangen dysgu yn y gwaith a'r staff yn y coleg. Yn ymarferol, mae hyn yn arwain at gydlynu presenoldeb a chynnydd dysgwyr yn wael. | Ni ddefnyddir hyn gan unrhyw ddarparwr yn ein sampl ar hyn o bryd. Roedd wedi cael ei ddefnyddio gan un darparwr yn ddiweddar, ond roedd wedi symud oddi wrth y dull hwn (tuag at Fodel 1) oherwydd cyfraddau diffyg cwblhau uchel |
| 3 | Cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, mewn arddull gweithdy ar gyfer Llythrennedd Digidol neu ddosbarthiadau meistr ar destunau penodol | Mae dysgwyr yn mynychu gweithdai i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer medrau dysgu, gan eu paratoi ar gyfer asesu, ymgymryd â thasgau neu asesiadau dan reolaeth neu 'ddosbarthiadau meistr' mewn testunau penodol.<br><br>Caiff y model hwn ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer Llythrennedd | Ar gyfer Llythrennedd Digidol, mae'n caniatáu uwchsgilio dwys a chyfle i wneud yr asesiad a'r dasg dan reolaeth gydag offer a meddalwedd TG addas.<br><br>Ar gyfer gweithdai cyffredinol, mae cyfle i | Mae'n ofynnol i ddysgwyr gael amser i ffwrdd o'r gwaith. | Mewn un darparwr, defnyddir arbenigwyr ar gyfer asesu yn unig. Aseswyr galwedigaethol sy'n cyflwyno medrau ategol. |

| Model | Enw | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Digidol, ond caiff ei ddefnyddio'n hyblyg hefyd gan ddarparwyr sy'n defnyddio modelau 4 a 5 i ddod â dysgwyr at ei gilydd ar gyfer dosbarthiadau meistr neu addysgu â ffocws ar destunau penodol, neu i baratoi neu ymgymryd â thasgau neu asesiadau dan reolaeth.<br><br>Gallai darparwyr ddefnyddio ystod o safleoedd ar gyfer y gweithdai hyn, gan gynnwys safleoedd darparwyr, eu canolfannau eu hunain, lleoliadau cymunedol wedi'u llogi. | roi cyflwyno â ffocws ar agweddau penodol gan ddefnyddio dosbarthiadau meistr (e.e. gweithdy ar ddefnyddio canrannau, gweithdy ar ysgrifennu CV). | | |
| 4 | Cyflwyno yn y gwaith gan arbenigwyr sgiliau hanfodol | Mae dysgwyr yn cael ymweliadau â'u gweithle ar gyfer sesiynau sgiliau hanfodol un-i-un gyda thiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol.<br><br>Mewn rhai achosion, efallai bod gan yr arbenigwyr sgiliau hanfodol rywfaint o brofiad galwedigaethol sy'n benodol i lwybr, hefyd. Mewn achosion eraill, nid yw'r arbenigwyr sgiliau hanfodol yn meddu ar arbenigedd galwedigaethol sy'n benodol i lwybr. | Cyflwyno gan arbenigwyr sydd â phrofiad o sgiliau hanfodol.<br><br>Mae'r cyflwyno yn digwydd yn y gwaith, ac felly'n haws ei roi mewn cyd-destun.<br><br>Mae cyflwyno yn y gwaith yn golygu nad oes angen i ddysgwyr adael eu gweithleoedd.<br><br>Gellir teilwra dysgu yn haws i fodloni cryfderau a gwendidau unigol dysgwr. | Mae'n anos trefnu gweithgareddau y mae angen eu cynnal fel grŵp (e.e. trafodaeth grŵp)<br><br>Mae'n anos trefnu asesiadau oherwydd efallai nad oes offer / ystafell addas ar safle'r cyflogwr.<br><br>Mae'n anos neilltuo darnau sylweddol o amser ar gyfer tasgau neu asesiadau estynedig pan fydd dysgwyr yn y gwaith.<br><br>Gallai fod yn anodd cydlynu gwaith yr arbenigwr sgiliau hanfodol a'r asesydd galwedigaethol.<br><br>Mae gofyn cynnal ymweliadau dyblyg â safle'r cyflogwr (gan yr asesydd galwedigaethol, a gan yr arbenigwr sgiliau hanfodol). | Mae patrymau pennu arbenigwr sgiliau hanfodol yn amrywio, ar sail:<br>• Cefndir yn benodol i lwybr<br>• Lleoliad daearyddol<br>• Baich achos ac argaeledd<br>• Amgylchiadau arbennig yn ymwneud ag angen dysgwr (e.e. mae gan ddysgwr ADY / SSIE, ac ati) |

| Model | Enw | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae costau'r model o bosibl yn uwch gan fod angen cyflogi a phennu arbenigwyr sgiliau hanfodol. | |
| 5 | Cyflwyno yn y gwaith gan aseswyr galwedigaethol | Mae dysgwyr yn cael ymweliadau â'u gweithle ar gyfer sesiynau un-i-un gyda'u haseswyr galwedigaethol. Yn y model hwn, mae'r tiwtor yn gyfrifol am SHC a'r agweddau galwedigaethol ar raglen dysgwr. | Mae'r asesydd yn adnabod y dysgwr a gall roi cynnwys sgiliau hanfodol yn ei gyd-destun, yn ôl rôl swydd neu gyd-destun galwedigaethol y dysgwr.<br>Gallai'r dysgwr ddirnad bod sgiliau hanfodol yn rhan fwy integredig o'i fframwaith.<br>Gall asesydd drefnu'r elfen sgiliau hanfodol i ychwanegu at waith neu astudio dysgwr.<br>Gellir teilwra'r dysgu yn haws i fodloni cryfderau a gwendidau unigol dysgwr. | Efallai na fydd gan yr asesydd galwedigaethol y medrau personol neu'r medrau addysgeg i gyflwyno sgiliau hanfodol.<br>Perygl o ddiffyg perchnogaeth o sgiliau hanfodol gan staff galwedigaethol. | |
| 6 | Datblygiad medrau anachrededig gan aseswyr galwedigaethol – 'uwchsgilio' | Ar gyfer dysgwyr sydd trwy rinwedd procsi neu sydd eisoes wedi ennill y cymhwyster SHC perthnasol, neu nad yw eu fframwaith yn gofyn am gymwysterau SHC.<br>Uwchsgilio cyffredinol mewn sgiliau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol. | Mae dysgwyr yn datblygu medrau sy'n berthnasol i'w rôl swydd trwy enghreifftiau sy'n berthnasol yn alwedigaethol, neu ddeunyddiau hunanastudio generig, fel WEST | Nid yw dysgwyr nad oes angen iddynt gael cymwysterau SHC achrededig yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol mewn ffordd gynlluniedig neu systematig. | Mae hyn yn tueddu i ddigwydd trwy addysgu *ad hoc* i gefnogi angen dysgwr i uwchsgilio er mwyn bodloni ei rôl swydd (e.e. dysgu defnyddio meddalwedd |

| Model | Enw | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyflwyniadau neu ddysgu'r 'rheol 3,4,5' fel saer). Neu drwy hunanastudio a gefnogir lle mae aseswyr galwedigaethol yn annog dysgwyr i uwchsgilio gan ddefnyddio WEST neu adnoddau eraill. |

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar y canlynol:

- Ymweliadau wyneb yn wyneb gan Arolygwyr Ei Fawrhydi ac Arolygwyr Cymheiriaid â naw o'r deg darparwr prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Ymatebion i gais am ddata i ddarparwyr arweiniol am ddarpariaeth eu partneriaeth eu hunain
- Ymatebion i holiaduron electronig dienw ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a staff cyflwyno
- Gwybodaeth o'n harolygiadau diweddar a'n hymweliadau diweddar gan arolygwyr cyswllt â darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith.

### Ymweliadau â darparwyr

Cynhaliwyd ymweliadau yn ystod mis Mehefin 2023. Roeddent fel arfer wedi'u lleoli ar safle'r darparwr arweiniol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r darparwr arweiniol, partneriaid ac is-gontractwyr. Dyma'r naw darparwr arweiniol yr ymwelom â nhw: Associated Community Training Ltd, Cwmni Hyfforddiant Cambrian, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Cambria, Educ8 Training Group Ltd, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Llandrillo Menai, ITEC Training Solutions Ltd a Choleg Sir Benfro. Ni wnaethom ymweld â'r degfed darparwr arweiniol (Academi Sgiliau Cymru) oherwydd cawsant arolygiad craidd yn ystod y cyfnod samplu ar gyfer yr astudiaeth hon.

Roedd ymweliadau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfod ag uwch reolwyr neu reolwyr y cwricwlwm sy'n gyfrifol am SHC
- Cyfarfod â thiwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol (os oedd y rôl honno yn bodoli yn y darparwr)
- Cyfarfod ag aseswyr galwedigaethol
- Teithiau dysgu neu arsylwadau o sesiynau sgiliau hanfodol mewn darpariaeth mewn canolfan, yn cynnwys siarad â dysgwyr
- Cyfarfodydd â dysgwyr a oedd yn agosáu at ddiwedd eu rhaglen ar safle'r darparwr (neu ar-lein) ac a oedd yn cynnwys dysgwyr Prentisiaeth Sylfaen, Prentisiaeth a Phrentisiaeth Uwch ar draws ystod y darparwyr yn narpariaeth y bartneriaeth
- Cyfarfodydd â dysgwyr mewn hyfforddiant yn y gwaith ar safle eu cyflogwyr

At ei gilydd, siaradom â thua 120 o ddysgwyr.

Hefyd, gofynnom i'r naw darparwr arweiniol yr ymwelom â nhw ddychwelyd cais data am ddarpariaeth eu partneriaeth eu hunain, gan gynnwys gwybodaeth am:

- nifer bresennol y dysgwyr sy'n dilyn gwahanol raglenni ac ar wahanol lefelau
- nifer y dysgwyr a oedd wedi eu heithrio o un o'r cymwysterau sgiliau hanfodol, o leiaf, sy'n ofynnol gan eu fframwaith trwy brocsi

- nifer y dysgwyr sy’n dilyn o leiaf un cymhwyster SHC ar lefel uwch na’r hyn sy’n ofynnol gan eu fframwaith
- nifer y dysgwyr sy’n dilyn unrhyw gymwysterau SHC trwy gyfrwng y Gymraeg

Ymatebodd pob un o’r naw partneriaeth, er nad oeddent yn gallu gwneud defnydd llawn o’r data o un bartneriaeth oherwydd nad oedd yn y fformat y gofynnwyd amdano.

### Holiaduron ar-lein

Estynnom wahoddiad i ddarparwyr arweiniol rannu dolen at yr holiaduron dienw ar-lein â darparwyr ac is-gontractwyr eu contract. Roedd yr holiaduron ar agor rhwng 22 Mai a 12 Mehefin 2023. Roedd yr holiaduron yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau ac ymatebion caeedig ac agored. Dadansoddwyd yr ymatebion agored i nodi themâu allweddol. Cawsom 668 o ymatebion i’n holiadur i ddysgwyr, ac roedd 40% o ymatebwyr yn gwneud Prentisiaeth (lefel 3), 31% yn gwneud Prentisiaeth Sylfaen (lefel 2) a 29% yn gwneud Prentisiaeth Uwch (lefel 4/5).

Cawsom 247 o ymatebion i’r holiadur i gyflogwyr. Roedd gan y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (31%) 11-50 o gyflogeion. Roedd llai na 10 o gyflogeion mewn 26% o ymatebwyr, 51-250 o gyflogeion mewn 22%, a mwy na 250 o gyflogeion mewn 21%.

Cawsom 242 o ymatebion i’r holiadur i staff. Roedd 57% o ymatebwyr yn aseswyr galwedigaethol, 15% yn diwtoriaid arbenigol sgiliau hanfodol, ac 12% yn aseswyr sydd hefyd yn cyflwyno cymwysterau SHC. Dewisodd 16% o ymatebwyr ‘arall’.

### Cyfarfodydd â rhanddeiliaid eraill

Mynychom gyfarfodydd gydag ystod o randdeiliaid eraill i drafod agweddau ar yr adroddiad, gan gynnwys Gweithgor Sgiliau Hanfodol Cymru Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Grŵp Cymwysterau Sector Sgiliau Hanfodol Cymru Cymwysterau Cymru a chynrychiolwyr o sefydliadau dyfarnu.

### Adolygiad cydamserol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru gan Cymwysterau Cymru

Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal ei adolygiad ei hun o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar yr un pryd â’r astudiaeth hon gan Estyn (gweler Cymwysterau Cymru, 2023). Bydd canfyddiadau ac argymhellion o adolygiad Cymwysterau Cymru yn cael eu cyhoeddi yn 2025. Mae’r ddau adolygiad wedi cael eu cynnal yn annibynnol, er bod Estyn a Cymwysterau Cymru wedi cysylltu yn y camau cynllunio i leihau dyblygu di-fudd nodau ymchwil pob astudiaeth.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Asesydd a thiwtor** | Yn y sector dysgu yn y gwaith, defnyddir ystod o wahanol dermau i ddisgrifio rolau'r staff sy'n cefnogi dysgu prentisiaid yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys asesydd, hyfforddwr, cynghorydd hyfforddiant, tiwtor, athro a phobl eraill.<br><br>At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio gwahaniaethu rhwng dwy rôl, sef 'asesydd galwedigaethol' a 'tiwtor arbenigol sgiliau hanfodol'. Mae rôl yr asesydd galwedigaethol yn nodweddiadol yn cynnwys ymweld â dysgwr yn ei gyflogwr, cefnogi datblygiad ei wybodaeth a'i fedrau galwedigaethol, asesu cymhwysedd galwedigaethol, monitro cynnydd dysgwr, cymorth bugeiliol. Gallai aseswyr, yn dibynnu ar y model a ddefnyddir gan y darparwr, hefyd gynorthwyo dysgwyr â'u cymwysterau SHC, neu â'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol cyffredinol.<br><br>Bwriad penodol rôl tiwtor arbenigol sgiliau hanfodol yw cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac yn eu cymwysterau SHC. Yn dibynnu ar y model a ddefnyddir gan y darparwr, gallai gynnwys addysgu un-i-un gyda dysgwr mewn lleoliadau yn y gwaith neu i ffwrdd o'r gwaith neu mewn lleoliadau dosbarth cyfan. |
| **Blaenlwytho** | Yr arfer o ganolbwyntio cyflwyno SHC yn ystod rhan gynnar rhaglen dysgwr |
| **CRh** | Medrau Cymhwyso Rhif Hanfodol |
| **Cyf** | Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol |
| **Cyflwyno cyd-destunol** | Caiff ei ddefnyddio yma lle mae dysgwyr yn dysgu, yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau mathemategol, llythrennedd neu ddigidol yng nghyd-destun eu pwnc galwedigaethol. Er enghraifft, gallai trinwyr gwallt ddysgu am gymarebau a chyfrannau gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer trin gwallt, fel cymysgu lliwiau gwallt neu gynhyrchion eraill.  Mae seiri coed yn dysgu am ddefnyddio fformiwlâu'r 'rheol 3-4-5', sef y term a ddefnyddir gan seiri coed i ddisgrifio sut y gellir cymhwyso Theorem Pythagoras yn syml i wneud sgwâr uniadau. Mae mecanwyr cerbydau modur yn dysgu sut i fformatio testun a chymhwyso confensiynau sillafu a gramadeg trwy baratoi anfonebau i gwsmeriaid neu ysgrifennu adroddiadau am ddiffygion cerbydau.<br><br>Gweler hefyd 'cyflwyno generig'. |

**Cyflwyno generig** Defnyddir 'generig' yma lle caiff cynnwys mathemategol, llythrennedd neu ddigidol ei addysgu neu'i ddysgu naill ai mewn ffordd 'yn rhydd o gyd-destun', neu wrth ddefnyddio cyd-destunau damcaniaethol a allai fod yn berthnasol i unrhyw un. Er enghraifft, efallai mai ymagwedd yn rhydd o gyd-destun at ddysgu'r fformiwla ar gyfer Theorem Pythagoras fyddai defnyddio nodiant algebraidd – $a^2 + b^2 = c^2$ heb ei gymhwyso mewn cyd-destun ymarferol. Efallai mai cyd-destun damcaniaethol i ddysgu am gyfran, er enghraifft, fyddai dweud, "Mae gan Jac ddwy losinen, ac mae gan Siân dair losinen. Pa gyfran o'r losin sydd gan Jac?". Er bod cyd-destun i'r enghraifft (rhannu losin rhwng dau blentyn), mae'n ddamcaniaethol ac nid yw'n alwedigaethol berthnasol i unrhyw ddysgwr penodol.

Gweler hefyd 'cyflwyno cyd-destunol'.

**LID** Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol

**Proffil sbigog** Ystod o gryfderau a gwendidau dysgwr. Mae'r term yn deillio o allbwn meddalwedd asesu cychwynnol sy'n dangos mewn fformat graff pa mor dda y mae dysgwyr wedi perfformio yn erbyn y medrau amrywiol a wiriwyd yn yr asesiad. Dangosir cryfderau fel pigau, a gwendidau fel pantiau – felly 'proffil sbigog'. Mae'r term yn cydnabod bod pethau y gall pob un o'r dysgwyr eu gwneud yn gymharol dda, ac eraill ddim cystal. Os yw'r offeryn asesu cychwynnol neu ddiagnostig yn gywir, gall tiwtoriaid ddefnyddio proffil dysgwr i ganolbwyntio'r dysgu ar feysydd gwendidau presennol neu adeiladu ar gryfderau presennol.

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Agored Cymru (2023). *Sample controlled tasks for September 2023* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.agored.cymru/File/3734 [Darllenwyd 11 Medi 2023]

Apprenticeship Certification Wales (2019) *Proxies for Essential Skills Wales qualifications in Apprenticeships in Wales.* Wales: Apprenticeship Certification Wales. [Ar-lein]. Ar gael o: https://acwcerts.co.uk/web/wp-content/uploads/2019/02/Essential-Skills-Guidance-Document-SASW-Feb-2019-Final-Version.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Apprenticeship Certification Wales (2023) *The ACW Ar-lein system is where apprentices, or third parties acting on their behalf, apply for their Apprenticeship certificates*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://acwcerts.co.uk/web/ [Darllenwyd 2 Awst 2023]

CBAC (2021) *Trefniadau Amgen ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ym mis Mawrth 2021.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.wjec.co.uk/umbraco/surface/blobstorage/download?nodeId=33062 [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

City & Guilds (2022) *Wales Essential Skills updates.* [Ar-lein]. Ar gael o: - https://www.cityandguilds.com/what-we-offer/centres/skills-for-work-and-life/wales/essential-skills-wales-updates [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

City & Guilds (2023a) *Essential Skills Wales qualifications web homepage.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/skills-for-work-and-life/english-mathematics-and-ict-skills/3868-essential-skills-wales#tab=information [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Cymwysterau Cymru (2017) *Adolygiad o weithredu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig*

Cymwysterau Cymru (2019) Datblygu Tasgau Sgiliau Hanfodol dan Reolaeth: Canllaw ar gyfer Canolfannau [Ar-lein]. Ar gael o: https://qualificationswales.org/media/tu0nem3m/es-guidance-2018-e.pdf [Darllenwyd 25 Hydref 2023]

Cymwysterau Cymru (2022) *Diweddariad i'r egwyddorion dylunio ar gyfer cyfres cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, Mehefin 2022.* Cymru: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://cymwysterau.cymru/media/kdkplsq5/diweddariad-i-r-egwyddorion-dylunio-ar-gyfer-cyfres-cymwysterau.pdf [Darllenwyd 3 Awst 2023]

Cymwysterau Cymru (2023) *Adolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/adolygiadu-sector/adolygiad-o-sgiliau-hanfodol-cymru/. [Darllenwyd 02/10/2023]

Cymwysterau Cymru (Dim dyddiad) *Sgiliau Hanfodol Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/dysgwyr-rhieni-a-gofalwyr/cymwysterau-ar-gael-yng-nghymru/cymwysterau-cyffredinol/sgiliau-hanfodol-cymru/ [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2018a*) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-2018.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/annual-report-her-majestys-chief-inspector-education-and-training/archif-adroddiadau-blynyddol?_ga=2.158313978.1946744823.1700148860-866595052.1700148860 [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2018b). *Prentisiaethau Uwch mewn dysgu yn y gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Higher%2520apprenticeships%2520in%2520work-based%2520learning%2520-%2520cy.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2019) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/annual-report-her-majestys-chief-inspector-education-and-training/archif-adroddiadau-blynyddol?_ga=2.247408068.1946744823.1700148860-866595052.1700148860 [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/annual-report-her-majestys-chief-inspector-education-and-training/archif-adroddiadau-blynyddol?_ga=2.218597849.1946744823.1700148860-866595052.1700148860 [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2022) *Beth rydym yn ei arolygu mewn darparwyr rhaglenni prentisiaethau Arolygiadau peilot o 2022.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/beth-rydym-yn-ei-arolygu-mewn-darparwyr-prentisiaethau-dysgu-yn-y-gwaith-2023 [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Estyn (2023a) *Prentisiaethau: adborth cynnar ar gyflwyno o dan y contractau newydd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-02/Prentisiaethau%20-%20adborth%20cynnar%20ar%20gyflwyno%20o%20dan%20y%20contractau%20newydd.pdf [Darllenwyd 25 Hydref 2023]

Estyn (2023b) *Esbonio dysgu yn y gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/inspection-process/esbonio-dysgu-yn-y-gwaith?_ga=2.123916104.378753967.1700149367-1726063596.1700149367 [Darllenwyd 25 Hydref 2023]

Llywodraeth Cymru (2012) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-yng-nghymru-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Llywodraeth Cymru (2016) *Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/manyleb-safonau-prentisiaethau-cymru-sasw.pdf [Darllenwyd 2 Awst 2023]

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2022 i 2023.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Llywodraeth Cymru (2022b) *Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru: Manyleb a Chanllawiau'r Rhaglen (f5)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/fframwaith-rhaglen-comisiynu-prentisiaethau-cymru-manyleb-chanllawiaur-rhaglen [Darllenwyd 25 Hydref 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) *Dysgu yn y gwaith (DYYG): Rhestr o gontractau a ddyfarnwyd i ddarparwyr dysgu yn y gwaith, a'u gwerth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-comisiynu-prentisiaethau-contractau [Darllenwyd 7 Awst 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) *Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion: Awst 2021 i Orffennaf 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/mesurau-deilliannau-dysgwyr-ar-gyfer-dysgu-seiliedig-ar-waith-dysgu-oedolion-awst-2021-i-orffennaf-2022 [Darllenwyd 2 Awst 2023]

Pearson Edexcel (2022a) *Arrangements for assessment of Essential Skills Wales (ESW) qualifications from September 2021.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://qualifications.pearson.com/content/dam/pdf/Essential-Skills-Wales/ESW-alternative-arrangements-08-21.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Pearson Edexcel (2022b) *Centre Guidance on Supervision of Remote Live Assessment: ESW (Essential Skills Wales) Controlled Tasks.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://qualifications.pearson.com/content/dam/pdf/Essential-Skills-Wales/Application-of-Number/2015/forms-and-administration/centre-guidance-on-supervision-of-remote-live-assessments-controlled-tasks.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]

Tribal (2016) *WEST: Tutor Quick Start Guide v1.3.2.* [Ar-lein]. Ar gael o: www.walesessentialskills.com/sites/default/files/WEST%20Tutor%20Quick%20Start%20Guide_v1.3.2.pdf [Darllenwyd 25 Gorffennaf 2023]

Wired-Gov.net (2003) *External tests scrapped for Key Skills qualifications.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.wired-gov.net/wg/wg-news-1.nsf/54e6de9e0c383719802572b9005141ed/acf0f72cc570754d802572ab004b8da5?OpenDocument [Darllenwyd 27 Ebrill 2023]